CYNLLUN

# ERYRI

## CYNLLUN PARTNERIAETH PARC CENEDLAETHOL ERYRI 2020

CYNLLUN RHEOLAETH STATUDOL PARC CENEDLAETHOL ERYRI





# > SUT I DDARLLEN Y CYNLLUN HWN

1. I gael gwybod beth yw Cynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol a pham ei fod yn bodoli, rydym yn argymell eich bod yn darllen **Pam mae angen cynllun a sut y caiff ei ddefnyddio** (Tudalennau 14-21)

2. I gael gwybod am werthoedd mwyaf gwarchodedig Parc Cenedlaethol Eryri, rydym yn argymell eich bod yn darllen **Yr hyn sy'n gwneud Eryri yn arbennig** (24-83)

3. I gael gwybod am ein gweledigaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol a sut rydym am i bethau edrych yn y dyfodol, rydym yn argymell eich bod yn darllen **Lle rydym am gyrraedd** (Tudalennau 84-89).

4. I gael gwybod yn fanwl am ein gweithgareddau dros y pum mlynedd nesaf, rydym yn argymell eich bod yn darllen **Sut y byddwn yn cyrraedd** (Tudalennau 90-155)

5. I ddarganfod ystyr termau a gofynion statudol eraill rydym yn argymell eich bod yn darllen **Yr Eirfa a'r Darn Cyfreithiol** (Tudalennau 156-160)

# > CYNNWYS


6
## RHAGAIR
- → Rhagair
- → Cynllun Partneriaeth

8
## CYFLWYNIAD
- → Pam mae angen cynllun
- → Sut fydd y Cynllun yn cael ei ddefnyddio?
- → Blaenoriaethau lleol a chenedlaethol
- → Sut y datblygwyd y cynllun hwn

24
## BE' SY'N GWNEUD ERYRI'N ARBENNING?
- → Cyflwyniad i'n rhinweddau arbennig
- → Ein rhinweddau arbennig yn fanwl

84
## BLE RYDYM AM GYRRAEDD?
- → Ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer Eryri

90
## Y MANYLION
- → Sut y byddwn yn cyrraedd yno
- → Cynllun gweithredu gan gynnwys dangosyddion monitro a gweithdrefnau adrodd

154
## BETH SY'N DIGWYDD NESAF?
- → Sut y gallwch chi gymryd rhan
- → Geirfa
- → Y darn cyfreithiol



I wirio unrhyw eiriau neu dermau nad ydych yn eu deall trowch i'r adran geirfa ar y dudalen 156-157

# >RHAGAIR



**Owain Wyn**
Cadeirydd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Rwy’n falch iawn o gael cyflwyno’r Cynllun Rheoli statudol newydd ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i’ch sylw – a hynny ar drothwy ein dathliadau yn 70 oed yn 2021.

Ar adeg ysgrifennu’r Rhagair hwn mae COVID-19 ar ei anterth ac mae’n anodd gwybod be’ sydd o’n blaenau. Rhaid byw yn y gobaith y daw eto haul ar fryn ac yn y cyfamser rydym wedi prawfesur y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd fel seiliau ar gyfer y cynllun hwn, er mwyn sicrhau bod yr atebion a gynigir yn parhau i fod yn addas ar gyfer y pwrpas.

Mae’r Cynllun Rheoli hwn yn cyflwyno ein gweledigaeth hirdymor ac yn mynegi yr hyn a ystyriwn fel ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf a thu hwnt. Ei bwrpas yw amlinellu sut y byddwn ni a’n Partneriaid gyda’n gilydd yn gofalu am, a datblygu’r ardal, yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Mae’n gynllun sy’n rhychwantu ein hamgylchedd, sut mae pobl yn cael mynhâd ohoni, a sut mae sicrhau bod pobl leol yn cael y gorau o fyw mewn Parc Cenedlaethol.

Mae Eryri yn lle eithriadol a mae lle i bawb ohonom ymfalchio ynddo. Am y rhesymau hynny mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi mynd ati mewn ffordd wahanol i’r gorffennol yn y modd y mae wedi rhoi’r cynllun at ei gilydd. Gan gydnabod y realiti gwleidyddol rydyn ni'n byw ynddo a'r dyfodol ansicr o'n blaenau, mae partneriaeth gref wedi'i ffurfio trwy Fforwn Eryri. Mae’r Fforwm - a’r gwaith ymgynghori trwyadl ar y hyd y daith o baratoi’r cynllun - wedi rhoi cyfle i bawb sydd â diddordeb mewn gofalu am y Parc Cenedlaethol, i greu'r cynllun gorau posib ar gyfer yr hyn rydym am ei gyflawni.

Rydym wedi  mabwysiadu saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac wedi ceisio sicrhau fod ein polisiau yn adlewyrchu'r pum ffyrdd o weithio  gan hefyd ystyried gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru  ar gyfer y tirweddau dynodedig  Gwerthfawr a Chydnerth.


Mae'r ddogfen hon hefyd yn torri cwys newydd dwy dynnu sylw at - ac arddangos ein naw Rhinwedd Arbennig yn drylwyr, sef y rhesymau pam ein bod wedi cael ein dynodi'n Barc Cenedlaethol.

Credaf yn gryf fod rhain wrth graidd yr hyn sy'n gwneud Eryri yn lle rhagorol i fyw, i weithio ac i ymweld â hi ac o'r herwydd rydym wedi rhoi'r Rhinweddau Arbennig hyn yn ganolbwynt i'r  broses hon o lunio cynlluniau.

Ond wrth ystyried ein Rhinweddau Arbennig ni allwn llai na fod yn ymwybodol fod heriau mawr o'n blaenau -   yr argyfwng hinsawdd, y dull o amaethu, colli bioamrywiaeth, effeithiau gor-dwristiaeth i enwi rhai  gan gofio hefyd am yr angen  ni chwarae ein rhan o ran arallgyfeirio a denu busnes newydd, rhoi  anogaeth i'n pobl ifanc i aros a gwarchod ein hiaith, treftadaeth a'n diwylliant, ein golygfeydd ysblennydd a'n cynnig eithriadol o weithgareddau awyr agored.

O ystyried yr heriau hyn 'rwyf yn gobeithio y byddwch yn cytuno fod y Fforwm wedi sicrhau set o Ganlyniadau sy'n addas at ofynion y dyfodol, sy'n uchelgeisiol ond yn realistig. Fel grŵp o sefydliadau sydd wedi cydweithredu'n agos i gynhyrchu'r  Cynllun hwn, mawr obeithiaf y bydd y canlyniadau yr ydym yn ei ddeisyfu yn parhau  ar flaen ein meddyliau wrth i ni symud ymlaen i weithredu.'Rwy'n gwbl argyhoeddiedig fod cyfle gwych i ni geisio'n gorau  i sicrhau bod Eryri yn parhau i fod yn eithriadol.

Yn olaf, mawr obeithiaf eich bod yn canfod y Cynllun yn ddiddorol yn ddeniadol a lliwgar a bod yr hyn sydd yn bwysig i chi wedi ei gyfarch a cynllun i'w oresgyn neu ei wella. Edrychwn ymlaen i glywed am eich barn a sylwadau.



# >CYFLWYNIAD



# > GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

**Mae Cynllun Eryri yn adlewyrchu newid sylweddol yn yr ymagwedd a gymerwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol er mwyn creu cynllun ar gyfer rheoli Eryri. Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu yn wir ysbryd partneriaeth.**

Rydym wedi cydweithio'n agos i ddatblygu Cynllun Eryri, nid yn unig gyda sefydliadau sydd â chyfrifoldebau statudol, ond gyda'r holl sefydliadau sydd yn cymryd rhyw ran am ofalu am Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Drwy weithio gyda'n gilydd gallwn gyflawni pethau gwych.

# > GAIR GAN Y BARTNERIAETH

## CYMDEITHAS ERYRI

Ar ôl cyfrannu at bob cam o'i ddatblygiad rydym yn croesawu Cynllun Eryri a'r ffyrdd o weithio a ddaeth ag o i fodolaeth. Rwan mae'n bryd rhoi'r un dull agored a'r egni i mewn i'r gwaith o'i weithredu. Mae Cymdeithas Eryri / Snowdonia Society yn barod i chwarae ei rhan. Fe fyddwn ni'n darparu gwirfoddoli, hyfforddiant a digwyddiadau ar gyfer amrywiaeth eang o bobl, gan agor ffenestr ar y gwaith gwerth chweil o ofalu am Eryri ac ar rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol sy'n ganolog i'r cynllun partneriaeth pwysig hwn.

## CYNGOR GWYNEDD

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn bartner yn natblygiad Cynllun Eryri ers sefydlu Fforwm Eryri. Fel un o bartneriaid allweddol y Parc ac Awdurdod Lleol sy'n gweithredu dros ran helaeth o'r ardal, mae rôl bwysig i'r Cyngor wrth gydweithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i wireddu amcanion Cynllun Eryri a gwarchod a dathlu rhinweddau arbennig y Parc ar gyfer y dyfodol. Rydym yn edrych ymlaen at barhad ein cydweithio gyda'r holl bartneriaid er mwyn gweld y Cynllun pwysig yma'n dwyn-ffrwyth.

## CYNGOR CONWY

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn hynod falch o gael bod yn rhan o Fforwm Eryri a chael cyd-weithio yn agos gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE).  Rydym wedi ymwneud a'r Cynllun ar hyd y ffordd ac yn gallu perchnogi a'r deheuad ac edrychwn ymlaen at gyd-weithio mewn partneriaeth er mwyn gwireddu'r Cynllun Gweithredu. Mae deilliannau hirdymor APCE sef yr Amgylchedd, Iechyd a Lles a Chymunedau ac Economi yn rhai pwysig i bawb ag yn agos iawn at galonnau ein cymunedau yma yng Nghonwy.

## IECHYD CYHOEDDUS CYMRU

Rwyf am ganmol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am yr egni a'r ymdrech y maent wedi'i fuddsoddi i mewn i ddatblygu Cynllun Eryri. Mae ymgynghori'n eang gydag aelodau o'r cyhoedd a gyda sefydliadau partner trwy gydol y broses wedi galluogi'r Parc i gyd-gynhyrchu cynllun cyffrous ac uchelgeisiol sy'n ddeniadol ac yn hawdd i ddefnyddwyr ei ddeall, ac mae ganddo'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar amgylchiadau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sy'n cyfrannu at les y boblogaeth sy'n byw, yn dysgu, yn gweithio ac yn chwarae o fewn ei ôl troed.

## COED CADW

Rydym i gyd yn gwybod bod natur yn bwysig a thrwy weithio gyda'n gilydd gallwn sicrhau bod coedwigoedd a choed y Parc Cenedlaethol yn cael eu gwarchod a'u gwerthfawrogi fel bod pobl a bywyd gwyllt fel ei gilydd yn eu mwynhau, ymhell i'r dyfodol. Mae ein mewnbwn i'r cynllun wedi teimlo'n bwysig ac mae ein barn wedi cael ei hystyried a'i hymgorffori'n dda. Mae'r dull cydweithredol hwn o gynllunio wirioneddol i'w groesawu, felly rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at chwarae rhan yng Nghynllun Eryri.

## UN LLAIS CYMRU

Mae Un Llais Cymru'n rhannu'r amcanion a'r dyheadau sy'n llunio Cynllun Eryri.  Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i gydweithio ag Awdurdod y Parc a'r holl asiantaethau eraill a gyfrannodd at fireinio'r Cynllun.  Yr ydym, fel corff, yn cynrychioli mwyafrif llethol poblogaeth y Parc.  Bydd amcanion y Cynllun o fudd i'r trigolion ac i'r holl ymwelwyr a ddaw o bell ac agos, a gobeithiwn y bydd yn cyfrannu'n sylweddol er lles cenedlaethau'r dyfodol.

## CLA

Ar ôl eistedd ar yr amrywiol Fforymau a Grwpiau Llywio Partneriaethau Parc Cenedlaethol Eryri, tra'n cynrychioli CLA Cymru, ac yn fy rôl sy'ncwmpasu Cymru gyfan, rwy'n teimlo bod y dull gweithredu sydd gan Eryri tuag at weithio mewn Partneriaeth yn arloesol ac yn fuddiol iawn wrth allu sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r Parc Cenedlaethol.

## CADW

Mae hwn yn gynllun uchelgeisiol, lefel uchel sy'n nodi'n glir sut mae'r Parc yn bwriadu rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy.

## CNC

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cyfle i barhau i weithio mewn Partneriaeth â Pharc Cenedlaethol Eryri, a'r holl Bartneriaid a rhanddeiliaid eraill sy'n cymryd rhan. Rydym i gyd wedi helpu i lunio'r cynllun hwn ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'n gilydd i helpu i reoli ein hadnoddau naturiol gwych yng Ngogledd Orllewin Cymru yn gynaliadwy.

## PARTNERIAETH AWYR AGORED

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn un o lawer o sefydliadau sydd wedi bod yn rhan o gamau ymgynghori a datblygu Cynllun Eryri. Dyma enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth a galluogi pawb a hynny'n amrywio o randdeiliaid a phartneriaid allweddol i gymunedau a thrigolion lleol i gael dweud eu dweud wrth reoli ein Parc Cenedlaethol yn gynaliadwy. Rydym yn edrych ymlaen at chwarae ein rhan yng ngham gweithredu Cynllun Eryri.

# > EIN PARTNERIAETH

Mae Eryri'n denu cannoedd o filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn sy'n mwynhau'r tirweddau anhygoel a'r cyfoeth o weithgareddau awyr agored sydd ar gael. Nod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, y bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal, hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau ei nodweddion arbennig a meithrin lles economaidd a chymdeithasol ei chymunedau.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hynny'n golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella lles Cymru ac i ddarparu dyfodol gwell i bawb. Ei ddiben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy yn awr ac yn y dyfodol.

Mae Cymdeithas Eryri wedi gweithio ers 50 mlynedd i warchod a gwella harddwch a nodweddion arbennig Eryri er budd pawb yn awr ac yn y dyfodol.

Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r asiantaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol yng Nghymru ac mae'n bodoli i warchod a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru. Mae'n rhan o'r GIG ac yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Lles a Chwaraeon yn Llywodraeth Cymru.

Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn cynrychioli tirfeddianwyr a thenantiaid sy'n ffermio yng Nghymru. Mae'r Undeb yn ceisio sicrhau'r dyfodol mwyaf ffyniannus posibl i'w aelodau, eu teuluoedd a'r cymunedau gwledig y maen nhw'n byw ynddynt.

Un Llais Cymru yw'r prif gorff ar gyfer cynghorau cymuned a thref Cymru, ac mae'n sicrhau llais cryf i gynrychioli diddordebau'r cynghorau a darparu ystod o wasanaethau o safon i gefnogi eu gwaith. Ffurfiwyd Un Llais Cymru ym mis Ebrill 2004 o'r ddau brif gorff blaenorol: NALC Cymru, a Chymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru.

Wedi'i sefydlu yn 2004, cwmni partneriaeth cymunedol elusennol yw y Bartneriaeth Awyr Agored sy'n newid bywydau trwy gynnal gweithgareddau yn yr awyr agored ac yn ysbrydoli pobl yr ardal i gymryd rhan trwy gyfranogi, addysg, gwirfoddoli a chyflogaeth er mwyn gwella elfennau iechyd, cymdeithasol ac economaidd.

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau llywodraeth leol yn sir Gwynedd, gan gynnwys addysg, gwaith cymdeithasol, gwarchod yr amgylchedd a'r rhan fwyaf o'r priffyrdd.

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Conwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau llywodraeth leol yn sir Conwy, gan gynnwys addysg, gwaith cymdeithasol, gwarchod yr amgylchedd a'r rhan fwyaf o'r priffyrdd.

Mae NFU Cymru'n cynrychioli ffermwyr, rheolwyr a phartneriaid busnesau amaethyddol gan gynnwys rhai â diddordeb mewn ffermio a chefn gwlad.

Elusen gadwraethol yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a sefydlwyd ym 1895 i ofalu am fannau arbennig, am byth, i bawb.

Fel arbenigwyr mewn busnes, mae fsb yn cynnig ystod eang o wasanaethau busnes hanfodol i aelodau, gan gynnwys cyngor, arbenigedd ariannol, cefnogaeth a llais pwerus yn y llywodraeth. Ei genhadaeth yw helpu busnesau llai i gyflawni eu huchelgais.

Menter gymdeithasol ac ymgynghoriaeth greadigol yw Eryri Bywiol. Fe'i sefydlwyd yn 2001 gyda'r nod o gefnogi a datblygu'r sector awyr agored yng ngogledd orllewin Cymru.

Nod yr Urdd yw sicrhau cyfle, trwy gyfrwng y Gymraeg, i holl ieuenctid Cymru ddatblygu'n unigolion cyflawn a'u galluogi i chwarae rhan adeiladol yn y gymdeithas gan feithrin sgiliau personol a chymdeithasol.

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, sy'n gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

- Mae'n diogelu treftadaeth Cymru
- Mae'n helpu pobl i ddeall ac i ofalu am eu hanes
- Mae'n helpu i gynnal cymeriad unigryw Cymru

Croeso Cymru sy'n gofalu am bolisi twristiaeth, yn annog buddsoddiad, yn gwella ansawdd profiadau ymwelwyr â Chymru. Croeso Cymru hefyd sy'n gyfrifol am farchnata Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol.

Wedi'i sefydlu ym 1884, mae gan Brifysgol Bangor draddodiad hir o ragoriaeth academaidd ac mae'n mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau o ran profiad myfyrwyr. Mae tua 11,000 o fyfyrwyr yn astudio yn y Brifysgol, gyda 650 o staff dysgu wedi eu lleoli o fewn tri ar hugain o ysgolion academaidd.

Bwriad Grŵp Llandrillo Menai yw cefnogi economi gogledd Cymru drwy roi i'r bobl leol y sgiliau a'r cymwysterau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y rhanbarth yn gystadleuol ac yn llwyddiannus. Mae'r amrywiaeth eang o gyrsiau, y profiadau dysgu o safon uchel, y cyfleusterau penigamp a'r staff amryddawn sydd gan y Grŵp oll yn cyfrannu at gyflawni'r nodau hyn.

Gyda dros 24,500 o aelodau a 619 o glybiau, Ffederasiwn Cenedlaethol Clybiau Ffermwyr Ifanc (NFYFC) yw un o'r sefydliadau ieuenctid gwledig mwyaf yn y DU.

Mae'r CLA yn sefydliad sy'n agored i aelodaeth gan berchnogion tir a busnesau yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gwarchod buddiannau tirfeddianwyr, ac mae ei haelodau'n berchen ar ac yn rheoli hanner tir gwledig Cymru a Lloegr

Woodland Trust (Coed Cadw) yw'r elusen cadwraeth coetir fwyaf ym Mhrydain. Mae ganddo dros 500,000 o gefnogwyr. Mae am weld DU yn llawn coedwigoedd a choed brodorol ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. Mae gan yr Ymddiriedolaeth dri nod allweddol: i) amddiffyn coetir hynafol sy'n brin, unigryw ac na ellir ei adfer, ii) adfer coetir hynafol sydd wedi'i ddifrodi, gan ddod â darnau gwerthfawr o'n hanes naturiol yn ôl yn fyw, iii) plannu coed a choedwigoedd brodorol gyda'r nod o greu tirweddau gwydn i bobl a bywyd gwyllt.

# > PAM FOD ANGEN CYNLLUN A SUT Y BYDD YN CAEL EI DDEFNYDDIO

Mae Cynllun Eryri yn ddogfen arwyddocaol mewn perthynas â dyfodol Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'n nodi sut y byddwn i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i ofalu am Barc Cenedlaethol Eryri a'r pethau sy'n ei wneud yn arbennig i genedlaethau'r dyfodol. O'r pen mwyaf Gogleddol, lle mae'r mynyddoedd yn cwrdd â'r môr ym Mhenmaen-bach, i'r pen mwyaf deheuol yn Aberdyfi.

## PAM FOD ANGEN CYNLLUN Y PARC CENEDLAETHOL ARNOM NI?

Mae'r Parc Cenedlaethol yn lle arbennig iawn, ac mae rheoli'r ardal ddaearyddol enfawr hon (823 milltir sgwar), a'r galw amrywiol a niferus arni sy'n gwrthdaro yn mynnu ein bod yn ymdrin â hyn yn ofalus ac yn ymroddi llawer iawn o sylw i'r mater. Dyna pam y mae angen y Cynllun hwn arnom. Mae'n nodi sut y byddwn ni a'n partneriaid yn cydweithio i gydbwyso'r galw sy'n gwrthdaro yn ofalus, a diogelu'r ardal a'r Rhinweddau Arbennig rhag niwed. Mae'n nodi sut y byddwn i gyd yn cydweithio gyda'n gilydd i gyflawni 'Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol'.

Er bod y Cynllun yn ddogfen statudol - dogfen sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith drwy gyfrwng Deddf yr Amgylchedd 1995 - rydym wedi ysgrifennu'r Cynllun hwn gydag ymdeimlad dwfn o ddyletswydd ac angerdd tuag at warchod a gofalu am Eryri a'i chymunedau.

## BETH YW PARC CENEDLAETHOL?

Mae Parciau Cenedlaethol yn ardaloedd arbennig o'n gwlad sy'n cael eu diogelu am bod ynddynt gefn gwlad hardd, am eu bywyd gwyllt a'u treftadaeth ddiwylliannol. Nhw yw tlysau a thrysorau naturiol Cymru a'r Deyrnas Unedig. Dyma'r enghreifftiau mwyaf trawiadol a phrydferth o harddwch naturiol garw.

Maent yn cwmpasu ein cynefinoedd a'n bywyd gwyllt prinnaf a mwyaf arbennig. Mae Parciau Cenedlaethol yn dirweddau byw, sy'n anadlu - lle mae rhyngweithiad treftadaeth rhwng pobl a natur yn rhan o'r hyn sy'n gwneud yr ardaloedd hyn mor arbennig. Mae pobl a'u traddodiadau yn rhan o'r tirweddau hyn. Maent yn lleoedd i'w mwynhau, i ddod o hyd i heddwch, i ddod o hyd i antur ac i wneud i ni deimlo'n fyw.

## PWRPASAU'R PARC CENEDLAETHOL

Nodir pwrpasau'r Parciau Cenedlaethol yn ôl y gyfraith o dan Adran 61 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

Y ddau bwrpas statudol ar gyfer Parciau Cenedlaethol sy'n llywio eu dyfodol yw:

- 1. Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol
- 2. Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parciau Cenedlaethol

Pan fydd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn cyflawni'r pwrpasau hyn mae ganddynt hefyd ddyletswydd i geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parciau Cenedlaethol.

Pan fo'r pwrpasau hyn yn gwrthdaro â'i gilydd, yna dylid defnyddio Egwyddor Sandford i roi mwy o bwys ar gadwraeth yr amgylchedd.

### YR HYN A OLYGIR GAN EGWYDDOR SANDFORD

Os oes gwrthdaro rhwng diogelu'r amgylchedd a rhyddid pobl i fwynhau'r amgylchedd, a bod rheolwyr yn methu â'i ddatrys, yna diogelu'r amgylchedd sydd yn derbyn blaenoriaeth pob tro.

## PWYSIGRWYDD CYNLLUN Y PARC CENEDLAETHOL

Mae Parciau Cenedlaethol yn ddynodiad cenedlaethol, sefydledig mewn deddfwriaeth, ac a ddiffinnir gan bwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Mae adran 62 (2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod perthnasol ystyried pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yng nghyd-destun yr holl waith maen nhw'n ei wneud yn y Parciau.

Gyda'i gilydd mae'r ffactorau hyn ill dau yn golygu bod Cynllun Eryri yn genedlaethol bwysig. Felly mae amcanion a pholisïau Cynllun Eryri yn drech na pholisiau rhanbarthol a lleol am eu bod yn cael eu cyflawni yn y Parc Cenedlaethol. Yn wir, dylai gorchmynion y Parc Cenedlaethol gael eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau eraill hyn..

## AR GYFER PWY MAE'R CYNLLUN?

Mae'r Cynllun yn cwmpasu ardal gyfan y Parc Cenedlaethol ac nid Cynllun ar gyfer Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn unig yw hwn:

- **Mae'n Gynllun ar gyfer pawb sy'n gweithio yn ardal y Parc Cenedlaethol sy'n cael effaith ar bwrpasau'r Parc Cenedlaethol.**
- **Mae'r Cynllun ar gyfer yr holl sefydliadau perthnasol sydd â dyletswyddau statudol mewn perthynas ag Eryri.**
- **Mae'r Cynllun yn darparu'r fframwaith polisi strategol ar gyfer sefydliadau perthnasol. Bydd yn eu galluogi i gydymffurfio'n llawn â'u cyfrifoldeb statudol i ystyried pwrpasau'r Parc Cenedlaethol wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan adran 62 (2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.**
- **Mae hwn hefyd yn Gynllun ar gyfer sefydliadau perthnasol o'r sector wirfoddol a phreifat, yn ogystal â rheolwyr tir, cymunedau a busnesau.**

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi datblygu'r Cynllun hwn gyda chymorth mewnbwn gan bob un o'n partneriaid. Mae gan bob un o'r sefydliadau hyn ran hanfodol i'w chwarae wrth edrych ar ôl Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer cenedlaethau'n dyfodol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n gilydd i gyflawni'r Cynllun yn llwyddiannus.





## RÔL AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI (APCE)

Rôl ganolog APCE yw nodi pa gamau sydd eu hangen er mwyn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad cyfreithiol i baratoi Cynllun Eryri. Felly APCE yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen â chynhyrchu'r cynllun ac am ddwyn yr holl fuddiannau amrywiol ynghyd er mwyn gwneud hyn.

## SUT FYDD Y CYNLLUN YN CAEL EI DDEFNYDDIO?

Mae'r Cynllun yn nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer yr ardal. Mae hefyd yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf sef cyfnod y Cynllun.

Bydd yn cael ei ddefnyddio yn y ffyrdd a ganlyn:

- Dod â phartneriaid ynghyd i gyflawni cynllun a rennir.
- Fel sail ar gyfer gosod Cynllun Corfforaethol, Rhaglen Waith Gorfforaethol Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Rheoli Perfformiad trwy gyfrwng hynny.
- Datblygu polisïau'r Parc Cenedlaethol ar bynciau penodol.
- Helpu i wneud penderfyniadau.
- Denu arian cyllido i gyflawni'r deilliannau a'r camau gweithredu a nodwyd.
- Monitro cynnydd yn erbyn y dangosyddion a osodwyd gennym.



## FFYRDD O WEITHIO

Mae llwyddiant Cynllun Eryri yn dibynnu ar ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth. Y pum ffordd o weithio fel y'u nodir yn y Ddeddf Llesiant (gweler hefyd tudalen 20 - 21) yw'r sail ar gyfer creu'r cynllun a sut y caiff ei gyflawni.

### HIRDYMOR

Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd

### CYFANNU / INTEGREIDDIAD

Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill

### YMGLYMIAD / CYNNWYS ERAILL

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu

### CYDWEITHIO

Gweithredu ar y cyd gydag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o'r corff ei hun) a all helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant

### ATAL

Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion

## > PERTHYNAS GYDA'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

Cafodd y Cynllun ei lunio ochr yn ochr gyda Chynllun Datblygu Lleol Eryri. Mae gan y cynlluniau weledigaeth a rennir ac mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio cyflawni elfennau gofodol Cynllun Eryri. Er nad yw yn ddogfen cynllunio defnydd tir, gellir ei ddefnyddio – mewn cydweithrediad gyda'r Cynllun Datblygu Lleol – fel dogfen o bwys yn y dasg o benderfynu ar geisiadau cynllunio o fewn Eryri.

* Gweler y dudalen 158-159 i gael rhagor o wybodaeth am gysylltiadau â chynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol

## > HELPU I GYFLAWNI BLAENORIAETHAU CENEDLAETHOL

Pan gaiff ei weithredu, bydd Cynllun Eryri yn helpu i gyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol ac yn cyflawni nifer o amcanion, nodau a blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru sydd o bwys cenedlaethol. Y rhai mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yng Nghymru ac mewn mannau eraill ym Mhrydain, mae Parciau Cenedlaethol yn cael eu dosbarthu gan Undeb Cadwraeth y Byd (IUCN) fel ardaloedd gwarchodedig Categori V. Mae'r Cynllun hwn yn gyson ag egwyddorion rheoli ar gyfer rheoli Ardaloedd Categori 5.

| NODAU & BLAENORIAETHAU CENEDLAETHOL<br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - nodau | CANLYNIADAU CYNLLUN Y PARC CENEDLAETHOL | | |
|---|---|---|---|
| | Gwarchod yr amgylchedd | Dealltwriaeth & mwynhad | Economaidd & chymdeithasol |
| Cymru lewyrchus | • | • | • |
| Cymru gydnerth | • | | • |
| Cymru iachach | • | • | • |
| Cymru fwy cyfartal | | • | • |
| Cymru o gymunedau cydlynol | | • | • |
| Cymru lle mae diwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu | | • | • |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | • | • | |
| **DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) 2016 - BLAENORIAETHAU CENEDLAETHOL** | | | |
| Darparu atebion sy'n seiliedig ar natur | • | • | • |
| Cynyddu effeithlonrwydd ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau | • | | • |
| Arfer dull gweithredu sy'n seiliedig ar le | • | • | • |

Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru hwyluso Datganiad Ardal ar gyfer gogledd orllewin Cymru, yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth integredig a fydd yn chwarae rhan allweddol wrth alluogi gweithredu cydweithredol yn y rhanbarth.



# > SUT Y DATBLYGWYD Y CYNLLUN HWN

Un o'n hegwyddorion craidd wrth greu'r Cynllun hwn yw gweithio gyda'n gilydd; gwrando ar farn pobl; a sicrhau bod pobl yn gallu dylanwadu ar sut mae'r Cynllun hwn yn edrych. Gwnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn nifer o ffyrdd yn ystod y broses o greu'r cynllun.

Roeddem wirioneddol am sicrhau ein bod yn clywed barn pobl sy'n byw yn ardal y Parc Cenedlaethol, ac fe aethom ati i gynllunio ein hymgynghoriadau gan gadw hyn mewn cof.

| | Y nifer o weithiau y cafwyd rhyngweithiad â phobl |
|---|---|
| Ymgynghoriadau | 2 |
| Digwyddiadau panel arbenigol | 3 |
| Gweithdai | 6 |
| Nifer y lleoliadau yr ymwelwyd â hwy gan y sioe deithiol | 6 |
| Arolygon | 2 |
| Cyfarfodydd Fforwm Eryri | 18 |
| Fideo ymgynghori: nifer a welodd | 47, 495 |
| Nifer a gyrhaeddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol | 235, 479 |
| Erthyglau a newyddion cenedlaethol a lleol | 10 |

# >BE' SY'N GWNEUD ERYRI'N ARBENNIG?





# > BE’ SY’N GWNEUD ERYRI’N ARBENNIG?

Mae gan bob un o’r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, Yr Alban a Lloegr restr wedi’i diffinio’n glir o ‘Rinweddau Arbennig ’. Maent yn nodi beth sy’n gwneud yr ardal yn arbennig ac yn unigryw. Y cyfuniad o’r Rhinweddau Arbennig hyn a arweiniodd at eu dynodi’n Barciau Cenedlaethol.

Ym 1949, bu i lyfr gyda’r teitl “Snowdonia the National Park of North Wales” nodi yn ei ragair y byddai diddordeb mawr yn y cyntaf o Barciau Cenedlaethol Prydain. Mae’n mynd ymlaen i ddweud, ymysg pethau eraill, y byddai’r rheiny oedd yn gyfarwydd gyda’r ardal yn gweld gwerth newydd yn y lle fel man wedi ei warchod i’r genedl am byth. Nodwyd hefyd, y byddai diddordeb neulltuol gan nifer yn yr ystod eang o’r rhinweddau perthynol megis y fflora a ffawna prydferth a’r ddaeareg sy’n gartref iddynt. Yn ychwanegol bydd gan yr hynafiethwyr ddiddordeb yn y bryngaerau, neu’r meini hirion hynafol o wneuthuriad dyn ceir yma, heb sôn am hen gestyll ag eglwysi'r trefi a phentrefi.

Gan droi’r cloc ymlaen 70 mlynedd gwelwn fod y nodweddion diffiniol hynny’n dal mor arwyddocaol heddiw ag yr oeddent adeg hynny, ymysg pethau eraill o fewn Rhinweddau Arbennig yr ardal ac mae naw ohonynt.

1. TIRWEDDAU AMRYWIOL
2. CYDLYNIANT CYMUNEDOL
3. BYWIOGRWYDD YR IAITH GYMRAEG
4. YSBRYDOLIAETH I’R CELFYDDYDAU
5. LLONYDDWCH AC UNIGEDD
6. HAMDDEN A DYSGU
7. TIRWEDDAU HANESYDDOL
8. DAEAREG ENWOG
9. RHYWOGAETHAU A CHYNEFINOEDD RHYNGWLADOL PWYSIG

Mae naw Rhinwedd Arbennig Eryri yn ein helpu i ddeall yr hyn y dylid ei ddiogelu a'i wella. Maen nhw'n ein helpu i adeiladu cynnwys y cynllun hwn fel y gallwn sicrhau ein bod i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i edrych ar ôl a gwella'r pethau sy'n gwneud Eryri yn arbennig, ac maent yn diffinio beth sy'n rhoi ymdeimlad unigryw o le i Eryri.

Gellir dod o hyd i ragor o ddata ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn yr adran o'r enw 'Adroddiad ar Gyflwr y Parc'. Mae hwn yn cynnwys gwybodaeth gyfoes i ddangos darlun clir a llawn o: Newid Hinsawdd; Aer; Dŵr; Tir; Tirwedd; Cadwraeth Natur; Mwynhad Cyhoeddus; Twristiaeth; Hunaniaeth Ddiwylliannol; Cymdeithas a'r Economi: www.eryri.llyw.cymru/looking-after/state-of-the-park

RHA **RHIF.1**

# TIRWEDDAU AMRYWIOL





## Amrywiaeth o dirweddau o ansawdd uchel ac ardaloedd arfordirol o fewn ardal ddaearyddol fach, yn amrywio o'r arfordir i ucheldiroedd tonnog i'r mynyddoedd garw y mae Eryri yn enwog amdanynt.

Mae Eryri yn cynnwys cymysgedd amrywiol o dirweddau y mae llawer ohonynt yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr am eu harddwch naturiol a'u llonyddwch gwych. Mae'r Parc Cenedlaethol yn enwog am ei gefnlenni mynyddig enfawr, ond mae hefyd yn cynnig gosodiadau dyffrynnog ac arfordirol hardd sydd heb eu difetha.

Yn 2019 enwyd Eryri y Parc Cenedlaethol harddaf yn Ewrop.

Ychydig iawn o leoedd sydd yn y byd lle mae'n bosibl profi pob un o'r amgylcheddau hyn o fewn pellter mor fyr i'w gilydd.

Daeareg gymhleth ac amrywiol Eryri yw'r rheswm cychwynnol dros y dirwedd a'r natur amrywiol ynddi. Mae'r ddaeareg hon yn ganlyniad i filiynau o flynyddoedd o newid cyfandirol, llosgfynyddoedd, erydiad, gwaddodiad, hindreuliad a grymoedd pwerus naturiol eraill.

Mae argraff yr Oes Iâ diwethaf wedi creu llynnoedd enfawr, rhaeadrau, dyffrynnoedd gwyrdd eang, corsydd a ffrydiau o afonydd gwyllt. Mae coetiroedd Derw, Ynn, Criafol a Chyll i'w gweld ar wasgar ledled yr ardal, ac mae ffermio mynydd a choedwigaeth ucheldirol ynghyd â chreiriau mwyngloddio yn enghraifft o ryngweithiad dyn a'r dirwedd.

Mae aberoedd prydferth yr afon Dyfi, y Fawddach a'r Dwyryd ynghyd â 23 milltir o forlin ysblennydd a thraethau tywodlyd yn cyfrannu at amrywiaeth gyffredinol y dirwedd unigryw a dramatig hon sydd wedi ysbrydoli artistiaid, gwyddonwyr ac yn ddiamheuaeth y trigolion a'r ymwelwyr ers canrifoedd.

# FFEITHIAU

**9 CADWYN O FYNYDDOEDD.**

**15 COPA UWCHLAW 3000 TROEDFEDD.**

**23 MILLTIR O ARFORDIR YSBLENNYDD YSGUBOL.**

- MAE'R PARC CENEDLAETHOL YN CWMPASU 823 MILLTIR SGWÂR O DIRWEDDAU AMRYWIOL, SY'N GOLYGU MAI HWN YW'R TRYDYDD MWYAF AR DRAWS PRYDAIN GYFAN.
- MAE GLAWIAD CYFARTALOG O 4,473MM Y FLWYDDYN YN DISGYN AR GRIB GOCH ERYRI, GAN EI WNEUD YN UN O'R MANNAU GWLYPAF YN Y DU. MEWN GWIRIONEDD, ERYRI YW'R LLE GWLYPAF YNG NGHYMRU GYDA DROS 3000MM O LAW Y FLWYDDYN AR GYFARTALEDD.
- MAE'R RHAEADR EWYNNOL YM METWS-Y-COED WEDI BOD YN DENU YMWELWYR ERS CANNOEDD O FLYNYDDOEDD. AR HYN O BRYD MAE'N UN O'R ATYNIADAU NATURIOL MWYAF POBLOGAIDD YM MHRYDAIN, GYDA TUA CAN MIL O YMWELWYR YN MYND YNO BOB BLWYDDYN.
- LLYN TEGID (1.88 MILLTIROEDD $^2$) YW'R LLYN NATURIOL MWYAF YNG NGHYMRU A LLYN TRAWSFYNYDD (1.85 MILLTIROEDD $^2$) YW'R AIL LYN MWYAF YNG NGHYMRU.




# LLEOEDD ARBENNIG

## 1
### CRIB NANTLLE
Golygfeydd anhygoel ac mae'n gymharol hawdd i'w gerdded

## 2
### LLYN IDWAL
Lle cafodd Charles Darwin ei ysbrydoli yn 1931

## 3
### CASTELL Y GWYNT
Caer naturiol a ffurfiwyd gan natur



## 4
### BEDDGELERT A CHEUNANT ABERGLASLYN
Dilynwch llwybr yr hen bysgotwyr neu ewch ar Drên Ucheldir Cymru

## 5
### CNICHT
Mae rhai yn cymharu i'r Matterhorn - iodlo yn Gymraeg...pam ddim?

## 8
### BWLCH Y SYCHNANT
Ar ymylon gogleddol Eryri gyda golygfeydd dros Conwy, Llandudno a'r Gogarth enwog (a enwyd ar ôl yr hen air Norwyaidd am sarff y môr)

## 6
### CARNEDDAU
Lle mae merlod Cymreig gwyllt yn dal i redeg yn rhydd



## 7
### RHAEADR DDU
Dwy raedr drawiadol (y ddwy o'r un enw, un yn Y Ganllwyd a'r llall ym Maentwrog) yn cwmpo dros 18 medr ac yn cymryd eu henw o'r graig ddu maent yn arllwys dros.





RHA **RHIF.2**

# CYDLYNIANT CYMUNEDOL



## Yr ymdeimlad cadarn o gydlyniant cymunedol, a bywiogrwydd sy'n cyfuno i roi ymdeimlad cryf o le.

Mae disgrifio ymdeimlad o le, a pherthyn, yn dasg anodd, ond efallai mai'r ffordd orau yw disgrifio emosiwn cadarnhaol a deimlir wrth fod yn rhan o gymuned sy'n meddu ar ymdeimlad cryf ohoni'i hun. Mae harddwch a natur barhaol Eryri wedi cael eu cerfio trwy hanes gan luoedd cyfunol natur a gweithgaredd dynol. Mae ein cymunedau wedi cael eu ffurfio a'u siapio gan eu hamgylchedd gwydn a hardd, ac rydyn ni'n cynrychioli un o gadarnleoedd olaf trigolion Oes yr Iâ gwreiddiol Prydain. Bu cryn newid o du dylanwadau o fewn y Parc a thu hwnt. Mae'r llif hwn yn parhau i fod yn hanfodol wrth ddiffinio, arallgyfeirio a chryfhau hunaniaeth ein cymunedau yn Eryri.

## Beth all greu 'ymdeimlad o le' a pherthyn?

- **Hunaniaeth gref sy'n cael ei theimlo'n ddwys gan drigolion ac ymwelwyr**
- **Ymlyniad a gofal dynol syfaenol**
- **Cysylltu'r gymuned â'u hamgylchedd, eu mamwlad a'u hanes a rennir**
- **Y cyfuniad o rinweddau sy'n gwneud lle ac mae pobl yn teimlo'n arbennig, yn unigryw ac yn cael eu gwerthfawrogi**

O fewn ffiniau'r Parc, mae 24 pentref bach a 5 tref a'r Bala a Dolgellau yw ein dwy brif ganolfan. Mae'r ddwy dref yn drefi marchnad hynafol pwysig ynddynt eu hunain. Yn Eryri mae tua 58% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg ac mae ein treftadaeth draddodiadol yn ffynnu gydag eisteddfodau lleol, cymdeithasau a grwpiau llenyddiaeth Gymraeg sy'n cyfrannu at lwyddiant cadw hen draddodiadau lleol. Bydd gweithgareddau cymunedol a ffyrdd newydd o fyw yn cael eu galw'n 'draddodiadau' rhyw ddydd ... er enghraifft ein ffeiriau bwyd rheolaidd fel Marchnad Eryri, a digwyddiadau chwaraeon awyr agored fel Ras Ryngwladol Yr Wyddfa.

Mae ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd lle mae newidiadau wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd ac mae hynny'n eu gwneud yn aneddiadau unigryw, sy'n rhannu cysylltiadau cyffredin. O fasnachwyr hynafol yr Oes Efydd i hanes y Porthmyn mwy diweddar. Mae masnach a masnachu yn parhau i fod yn ganolog i weithgareddau yr ardal, sy'n creu traddodiadau newydd sy'n aml yn seiliedig ar dwristiaeth a phroffil uchel Eryri fel cyrchfan ysbrydoledig. Mae'r paratoadau ar gyfer y twristiaid ar gyfer Gŵyl Banc y Gwanwyn yn cynnwys llawer mwy o bobl na dyfodiad ŵyn y Gwanwyn neu 'Hel' y defaid sy'n digwydd yn yr hydref, er bod y gweithgareddau traddodiadol hyn yn parhau i fod yn hanfodol ac yn cael eu gwerthfawrogi gan drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.

# FFEITHIAU

**MAE 58% O DRIGOLION YN ERYRI YN SIARAD CYMRAEG O'I GYMHARU Â 21% YNG NGHYMRU GYFAN.**


- MAE BRON I 1 ALLAN O BOB 5 O BOBL YN ERYRI YN HUNANGYFLOGEDIG, SY'N FWY NA DWBL Y CYFARTALEDD CENEDLAETHOL. MAE LLAWER O'R BUSNES HWN YN CANOLBWYNTIO AR AMAETH A LLETYGARWCH.
- Y CABAN OEDD CANOLBWYNT BYWYD DIWYLLIANNOL Y CHWARELWYR YN YSTOD YR UN CYFNOD.
- YN YSTOD Y CHWYLDRO DIWYDIANNOL YN Y 18FED A'R 19EG GANRIF, CAFODD Y DIWYDIANNAU LLECHI A MWYNGLODDIO EFFAITH SYLWEDDOL AR EIN DIWYLLIANT, TIRWEDD A'N CYMUNEDAU. YN YR UN MODD AC Y GWNAETH DIRYWIAD DIWYDIANNAU HYN AR RADDFA FAWR YNG NGHANOL I DDIWEDD YR 20FED GANRIF.
- YN ERYRI, ROEDD SYSTEM HAFOD YN BODOLI A BARHAODD AM GANNOEDD O FLYNYDDOEDD, OND FE DDAETH I BEN YN SGIL CAU'R UCHELDIROEDD A THROSGLWYDDO TIR COMIN I BERCHNOGAETH BREIFAT. YN GYFFREDINOL YNG NGHYMRU, ROEDD 20% O'R HOLL DIR, SYDD BRON YN GYFAN GWBL YN UCHELDIR, WEDI EI AMGÁU RHWNG 1760 A 1830.
- ROEDD EGLWYSI A CHAPELI YN ALLWEDDOL I FYWYD CYMUNEDOL YN Y 18FED, 19EG A HANNER CYNTAF YR 20FED GANRIF

# LLEOEDD ARBENNIG

## 1

## BETWS Y COED

Mae pentref deiliog Betws y Coed yn adnabyddus fel cyrchfan artistiaid Fictoraidd ac fe'i adwaenir hefyd fel arhosfan coetsis hanesyddol ar y daith o Gaergybi i Lundain.



## 2

## DOLGELLAU

Mae Dolgellau yn dref hanesyddol syfrdanol, yn bennaf oherwydd ei chrynodiad uchel o adeiladau rhestredig - tua 200 ohonynt! Fe fu, ac i raddau helaeth, mae'n dal i fod yn ganolbwynt gweinyddol Awdurdod Lleol ar gyfer Sir Feirionydd gynt, ardal Gwynedd bellach.



## 3

## BALA

Tref farchnad fach yw'r Bala lle mae'r Afon Dyfrdwy yn llifo allan o Lyn Tegid. Roedd hefyd yn ganolfan wlân bwysig o'r 18fed ganrif gyda'r trigolion yn gwau hyd at 200,000 pâr o sanau bob blwyddyn! Oherwydd lleoliad glan y llyn y dref a chysylltiadau â thwf Methodistiaeth Galfinaidd Gymreig, gellid ystyried Bala yn 'Genefa Cymru'. Mae hefyd yn ganolfan ryngwladol ar gyfer chwaraeon dŵr, yn enwedig hwylio, canŵio a rafftio dŵr gwyn.

## 4

## 'TREFI A PHENTREFI PORTH' ERYRI

Mae rhan mwy o rhain yn gorwedd ychydig y tu allan i'r Parc Cenedlaethol ac mae'r rhain yn lleoedd sydd yn aml yn darparu'r pwynt 'hopian i ffwrdd' i ymwelwyr - Bala, Bethesda, Conwy, Llanberis a Machynlleth i enwi ond ychydig.





# BYWIOGRWYDD

RHA **RHIF.3**

# YR IAITH GYMRAEG

**Mae bywiogrwydd y Gymraeg fwyaf amlwg yn Eryri oherwydd mae'n parhau i fod yn ddewis iaith mewn llawer o amgylcheddau cymdeithasol a phroffesiynol. Mae'n amlwg mewn enwau lleoedd lleol, y bywyd gwyllt a'r hanes sydd ynghlwm iddi ac felly mae'n rhan annatod o natur unigryw treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yr ardal.**

Mae Eryri yn rhan o hen deyrnas Gwynedd ac mae'n gadarnle i'r iaith Gymraeg.

Y Gymraeg yw un o'r ieithoedd byw hynaf yn Ewrop. Mae cysylltiad agos rhwng Llydaweg a Chernyweg gyda'r Wyddeleg, Gaeleg Yr Alban a Manaweg yn deillio o'r un iaith yn wreiddiol. Mae'n iaith gynhenid i Ynysoedd Prydain, sydd wedi gorfod cystadlu â'r Lladin, Normanaidd-Ffrangeg a Saesneg. Er ei bod wedi dirywio ar rai adegau yn ein hanes, mae'r Gymraeg wedi goroesi a hynny'n aml yn erbyn y llanw a bellach mae ganddi statws warchodedig drwy gyfrwng deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Mae ymwybyddiaeth gynyddol o fanteision 'ymennydd dwyieithog'; gyda chydnabyddiaeth ehangach bod y Gymraeg wrth wraidd yr hyn sy'n gwneud Cymru ac Eryri yn unigryw a'i bod yn ased amhrisiadwy i'w meithrin ar gyfer y genedl gyfan.

Mae'r iaith Gymraeg, sef iaith arweinwyr chwedlonol fel Llywelyn Fawr ac Owain Glyndŵr, wedi bod ac yn parhau i fod yn rhan annatod o'n hunaniaeth ac wrth wraidd bywyd teuluol bob dydd. Mae iaith a diwylliant Cymru wedi parhau i esblygu ac mae bellach yn rhan annatod o ddiwylliant newydd, cynhwysol, bywiog a chyfoes. Mae gwyliau celfyddydol, cerddoriaeth, bwyd a diod yn sbarduno hynny, yn enwedig ymysg y genhedlaeth iau sy'n cofleidio manteision gweithio a chymdeithasu'n amlieithog.

Mae hanes a diwylliant ymhobman yn Eryri ac mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan 58% o'r boblogaeth gyda'r ganran mor uchel â 85% mewn rhai cymunedau.


Os ydych chi'n ymweld â'r ardal fe fyddwch yn sicr o weld, clywed a hefyd cael y cyfle i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.



# FFEITHIAU

**MAE'R GYMRAEG YN IAITH FRODOROL YN YNYSOEDD PRYDAIN AC FE ELLIR DADLAU MAI HON YW'R IAITH BYW HYNAF YN EWROP.**

- MAE'R GYMRAEG YN CAEL EI CHYDNABOD FEL IAITH GYNHENID GAN UNESCO.
- MAE YSGOLION GWYNEDD A CHONWY YN PARATOI PLANT I FYW MEWN CYMDEITHAS GWBL DWYIEITHOG
- MAE'R GYMRAEG YN CAEL EI SIARAD Â'I HADDYSGU MEWN RHANNAU O BATAGONIA, YR ARIANNIN.
- YN NEDDF UNO HARRI VIII YM 1536, FE YMGORFFORWYD CYMRU YN GYFREITHIOL YN LLOEGR GYDA'R SAESNEG YN UNIG IAITH SWYDDOGOL IDDI.
- ROEDD DEDDF YR IAITH GYMRAEG 1967 YN RHOI'R HAWL I BOBL GYFLWYNO TYSTIOLAETH YN Y GYMRAEG YN LLYSOEDD CYMRU AC I GAEL FFURFLENNI SWYDDOGOL YN GYMRAEG AM Y TRO CYNTAF.




- OCHR YN OCHR Â'R TWF MEWN ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG A DIWYGIADAU CYFREITHIOL, GAN GYNNWYS MESUR Y GYMRAEG (2011) A SEFYDLODD STATWS SWYDDOGOL YR IAITH AC HEFYD CYMRAEG 2050, YMGYRCH I GYRRAEDD MILIWN O SIARADWYR CYMRAEG ERBYN 2050.
- Y MABINOGI YW STRAEON RHYDDIAITH CYNHARAF LLENYDDIAETH PRYDAIN. LLUNIWYD Y STRAEON MEWN CYMRAEG CANOL YN Y 12FED I'R 13EG GANRIF O DRADDODIADAU LLAFAR CYNHARACH.
- ROEDD JRR TOLKIEN, AWDUR BYD ENWOG, YN TEIMLO BOD ASTUDIAETH O'R GYMRAEG YN HANFODOL I'W DDEALLTWRIAETH O HANES YNYSOEDD PRYDAIN, GAN DDWEUD, 'WELSH IS OF THIS SOIL, THIS ISLAND, THE SENIOR LANGUAGE OF THE MEN OF BRITAIN; WELSH IS BEAUTIFUL.' 'DEFNYDDIODD Y GYMRAEG YN EI NOFELAU FEL SYLFAEN UN O IEITHOEDD Y CORACHOD, SINDARIN.

# LLEOEDD ARBENNIG

## 1

Mae'r Gymraeg ysgrifenedig cynharaf, dyddiedig 700 OC, wedi goroesi fel arysgrif ar garreg goffa yn eglwys Cadfan Tywyn ar ffin y Parc Cenedlaethol.




## 2

Yn Nhŷ Mawr Wybrnant yng Nghoedwig Gwydyr, Betws y Coed y cafodd y Beibl ei gyfieithu i'r Gymraeg gan yr Esgob William Morgan ym 1588. Roedd hwn yn gyflawniad sylweddol gan ei fod yn caniatáu i Gymry ddarllen y Beibl yn eu hiaith frodorol a thrwy hynny gynorthwyo gyda goroesiad yr iaith.

## 3


Mae enwau lleoedd hanesyddol Cymru yn cipio ysbryd lleoedd, yn tanio'r dychymyg ac weithiau'n ail greu'r bywyd beunyddiol, y trafferthion, y brwydrau a gogoniant yr oes a fu.

- Moel Cynghorion
- Castell y Gwynt ar Glyder Fawr
- Dinas Emrys = Cadarnle Myrddin

## 4



Nant Gwrtheyrn yw'r Ganolfan Iaith Gymraeg ar ochr ogleddol Pen Llŷn, daflaid carreg i ffwrdd o'r Parc Cenedlaethol.



## 5

Bwlch y Saethau ar Llwybr Watkin yr Wyddfa, lle cafodd y Brenin Arthur ei anafu'n angheuol.

# YSBRYDOLIAETH AR GYFER Y CELFYDDYDAU

RHA **RHIF.4**

## Mae Eryri yn le sydd wedi ysbrydoli diwylliant mwyaf nodedig y genedl, sef gwerin, celfyddyd, llenyddiaeth a cherddoriaeth dylanwad sy'n parhau ar draws yr holl weithgareddau creadigol hyd heddiw.

Ar draws yr holl ddisgyblaethau creadigol, mae cwestiynau arddull ac estheteg tirlun a chynnwys wedi'u gosod yn erbyn y goblygiadau cymdeithasol a diwylliannol; Cynrychiolir yr ardal hynod o ysbrydoledig hon o Gymru wledig ar draws cyfnodau o drefoli, diwydiannu a bellach digido yn yr Oes Wybodaeth.

Mae traddodiadau hynafol Cymreig o ganu gwerin a barddoniaeth wedi parhau'n gryf yn Eryri ers y dyddiau pan oedd y beirdd yn diddanu yn llysoedd y Tywysogion. Mae fersiynau modern yn cynnwys digwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol a gwyliau a drefnwyd yn lleol fel y Sesiwn Fawr yn Nolgellau lle mae bandiau Cymreig a Cheltaidd yn perfformio ac yn rhannu gyda chynulleidfa fyd-eang.

Ysbrydolodd y golygfeydd o'n copaon  nifer o feirdd Rhamantaidd Seisnig y 18fed a'r 19eg ganrif, yn enwedig Shelley a Wordsworth. Mae gwaith nifer fawr o feirdd yn adlewyrchu'r dirwedd bwerus hon, yr un mwyaf adnabyddus yng Nghymru yw Hedd Wyn, y bugail a fu farw yn Pilckem Ridge ym 1917 ar ddiwrnod cyntaf Brwydr Passchendaele, tra'n gwasanaethu gyda'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Mae'n cael ei goffáu mewn ffilm am ei fywyd, a gafodd ei henwebu am Oscar ym 1996 ac mae cartref ei blentyndod yn Yr Ysgwrn ger Trawsfynydd ar agor i'r cyhoedd hefyd.

Yn yr un modd, mae topograffi trawiadol Eryri wedi dylanwadu ar feirdd modern fel y Prifardd, Myrddin ap Dafydd. Yng ngeiriau Myrddin: "Rwy'n crwydro'n rheolaidd yn y Parc, ym mhob tymor ac ym mhob math o dywydd. Mae harddwch a hanes yn cydblethu'n y golygfeydd ac nid o dan awyr las yn unig y dewch chi o hyd i ryfeddodau Eryri. Mae olion gweithgarwch dynol a chymdeithas, yn crafu byw a goroesi yn rhan enfawr o'r apêl i mi."

Mae artistiaid a gwneuthurwyr printiau wedi bod yn ymweld â'r ardal ers dros 250 mlynedd. Maen nhw'n amrywio o'r artist tirlunio Cymreig arloesol Richard Wilson a'i olygfa enwog o'r Wyddfa o Nantlle, i J.M.W. Turner a aeth ar drywydd drama, gan fwynhau'r tywydd stormus, newidiol a'r effeithiau golau syfrdanol a gynhyrchai hyn. Yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif, ymwelodd J.D. Innes yn rheolaidd â'r ardaloedd anghysbell rhwng Ffestiniog a'r Bala. Mae artistiaid Cymreig hefyd wedi cael eu dylanwadu gan y dirwedd, fel Kyffin Williams, Charles Wyatt Warren, William Selwyn a gwaith dramatig artistiaid newydd fel Lisa Eurgain Taylor. Mae Lisa yn cael ei hysbrydoli gan ein mynyddoedd trawiadol, mae hi'n eu trawsnewid yn olygfeydd dychmygus, hudol arallfydol. Mae ei phaentiadau hi yn cyfleu gobaith mewn byd ansicr, gyda phwyslais ar bwysigrwydd peidio â chymryd pethau'n ganiataol a diogelu'r byd naturiol bob amser.

Mae eraill, a ysbrydolwyd eto gan y tirluniau, yn defnyddio'r deunyddiau naturiol a natur i greu darnau gwych, mewn aur, llechi, pren a gwlân ar ffurf cerflunwaith, crochenwaith, gemwaith a chelf er enghraifft.

Mae eitemau a gynhyrchir gan bobl yn ystod eu hamser hamdden bellach yn ddarn o grefft ... gan gynnwys eitemau llechi a gerfiwyd gan y chwarelwyr.

Mae'r mynyddoedd sy'n diffinio'r ardal hon wedi dod yn symbolau diwylliannol cryf iawn. Mae chwedlau a chwedloniaeth o gwmpas y mynyddoedd, llynnoedd, afonydd a rhinweddau arwyddocaol eraill wedi'u cydblethu â'r enwau lleoedd hanesyddol a'r gweithiau artistig.



# FFEITHIAU

**ENILLWYD CADAIR YR EISTEDDFOD GAN HEDD WYN WEDI IDDO FARW AC MAE'R GADAIR YN CAEL EI HADNABOD FEL 'Y GADAIR DDU'.**

- MAE FFILMIAU HOLLYWOOD WEDI DEFNYDDIO LLEOLIADAU TRAWIADOL YN ERYRI, GAN GYNNWYS 'CLASH OF THE TITANS,' 'TOMB RAIDER,' 'KING ARTHUR', 'HIGHLANDER' A LLAWER MWY O FFILMIAU.
- MAE DELWEDDAU O ERYRI WEDI CAEL EU HANFON O GWMPAS Y BYD ERS DROS 100 MLYNEDD.
- 'MILIYNAU O DDELWEDDAU' ... MAE FFOTOGRAFFIAETH DDIGIDOL WEDI CHWYLDROI'R BYD. YR WYDDFA YW'R MYNYDD YR YMWELIR AG O FWYAF O BELL FFORDD YM MHRYDAIN (600,000 + O BOBL Y FLWYDDYN), AC FELLY MAE'N DEBYGOL MAI'R RHAIN YW'R GOLYGFEYDD SYDD FWYAF TEBYGOL O GAEL EU TYNNU A'U RHANNU FWYAF HEFYD O'N HOLL DIRWEDDAU, FELLY RYDYM YN CYMRYD DEGAU O FILIYNAU O FFOTOGRAFFAU BOB BLWYDDYN, AR FFONAU CLYFAR YN BENNAF...AC MAE POB CAMERA A FFOTOGRAFFYDD AMATUR, YN CIPIO GOLYGFA, GOLAU A PHERSBECTIF YCHYDIG YN WAHANOL.
- KYFFIN WILLIAMS YW'R 'DYN A BEINTIODD YN GYMRAEG' AC MAE EI BAENTIADAU YN YSTOD Y BLYNYDDOEDD DIWETHAF WEDI GWERTHU AM HYD AT £50K!


# LLEOEDD ARBENNIG

## DILYNWCH YN ÔL TROED Y DYLUNWYR MAWR, ARTISTIAID, ACTORION A CHREFFTWYR ...



1

Yr Ysgwrn cartref plentyndod Hedd Wyn, sydd bellach yn cael ei hedrych ar ôl gan y Parc Cenedlaethol.



2

Mae Chwarel Dinorwig (Llanberis) yn gefnlen ddramatig i lawer o ffilmiau.

3

Cae'r Gors yw man geni yr awdur Kate Roberts yn Rhosgadfan, ar gyrion y Parc.



4

Cartrefi bryniog chwarelwyr fel Rhiw-bach, yn uchel ar lethrau'r Manod Mawr.

5

Y Lasynys Fawr, y tu allan i Harlech, oedd cartref yr awdur, Ellis Wynne, a gofiwyd yn bennaf yn sgil 'Gweledigaethau'r Bardd Cwsg', sy'n gampwaith Cymreig.



# LLONYDDWCH AC UNIGEDD - ARDALOEDD HEDDYCHLON

RHA **RHIF.5**

## Mae'n rhoi cyfle i bobl ddeall a mwynhau'r Parc Cenedlaethol yn weithredol, tra'n cynnal ardaloedd o lonyddwch ac unigedd, gan hyrwyddo agweddau ar iechyd, lles a myfyrdod personol.

Y ddydiau yma, mae llawer ohonom yn byw mewn byd sy'n ffynnu ar fod yn brysur, yn gynhyrchiol ac yn orlawn o amserlenni. Rydym yn normaleiddio byw mewn diwylliant swnllyd 'rownd y ril'. Mae technoleg yn golygu fod eraill yn gallu cysylltu â ni drwy'r adeg ac mae ein 'dyfeisiau' wastad wrth law, yn barod i ddarparu ffynhonnell gyson o wybodaeth, adloniant a mynnu ein sylw. Mae ein synhwyrau'n cael eu pledu'n rheolaidd. Mae cyfnodau o dawelwch neu ddistawrwydd sy'n digwydd yn naturiol yn rhywbeth sy'n gynyddol brin a gwerthfawr.

Mae bod ar eich pen eich hun neu gael amser a'r lle i fyfyrio a bod yn unig yn hanfodol er lles ein hiechyd meddwl. Mae treulio amser yn ymdrochi mewn natur yn cynnig llu o fanteision pellach. Profwyd ei fod yn cael effaith therapiwtig am ei fod yn lleddfu straen, mae'n adfer sylw a'r gallu i ganolbwyntio. Mae bod yn weithgar yn yr awyr agored hefyd yn cynnig heriau personol a all arwain at ddatrys problemau creadigol a chynyddu hunan hyder. Mae'n rhoi lle i bobl gamu'n ôl, pwyso a mesur problemau gyda meddwl clir, datrys materion anodd a rhoi eglurder i'n meddyliau, ein gobeithion a'n breuddwydion..

Mae llonyddwch yn dal i fodoli mewn sawl rhan o Eryri, yn ystod y dydd, yn ei mynyddoedd mawr, anghysbell a garw; ac yn ystod y nos,  bydd yr awyr dywyll enfawr, ysbrydoledig yn cael ei datgelu. I ni ac i ymwelwyr, mae Eryri yn cynnig y ddihangfa berffaith, lle i anadlu ac adfer.

Nid yw cydnabod y buddion hyn yn beth newydd...

"Thousands of tired, nerve-shaken, over civilised people are beginning to find out that going to the mountains is going home; that wildness is a necessity" (John Muir 'Father of The National Parks' 1838-1914).

Mewn byd a ddylai fod yn gynyddol bryderus am ddatrys problemau a chynhyrchiant cynaliadwy, yna ...

"It makes sense that meditation, and indeed any other state of enforced silence and solitude, can be a perquisite to creative thought and idea generation. Art-making is often linked to the pop-psychological notion of being "in the zone" – a sort of trance-like creative state analogous to that achieved through meditation, yoga, or other focusing pursuits that link the mind and body in a state of near silence." (Emily Gosling - Creative Review 2018)


Am filoedd o flynyddoedd, mae pererinion a bobl yn chwilio am ddealltwriaeth, goleuedigaeth ysbrydol, diogelwch a heddwch wedi teithio i a thrwy Eryri.


# FFEITHIAU

**MAE ERYRI YN 823 MILLTIROEDD$^2$ O RAN MAINT AC MAE GANDDI BOBLOGAETH O TUA 26,000 O BOBL**

**MAE LLUNDAIN FAWR YN 607 MILLTIROEDD $^2$ AC MAE GANDDI BOBLOGAETH O TUA 8,500,000 O BOBL.**

- MAE ERYRI YN WARCHODFA AWYR DYWYLL Y BYD. MAE HON YN WOBR FAWREDDOG A RODDIR GAN Y GYMDEITHAS AWYR DYWYLL RYNGWLADOL I GYRCHFANNAU DETHOL SYDD WEDI PROFI BOD ANSAWDD EU HAWYR NOSOL YN RHAGOROL A BOD YMDRECHION GWIRIONEDDOL YN CAEL EU GWNEUD I LEIHAU LLYGREDD GOLAU.
- LLYGREDD SŴN. DYMA I CHI BETH RHYFEDD! ... O BELL, MAE AFON EWYNNOG SY'N RHUO AR ÔL GLAW TRWM YN SWNIO'N DEBYG IAWN I FFORDD BRYSUR BELL! FODD BYNNAG, MAE NATUR (GAN GYNNWYS NI EIN HUNAIN) WEDI'I HADDASU'N WELL O LAWER I YMDOPI Â'R CYNTAF O'R RHAIN.





- BU JOHANNES ITTEN AC OKSAR SCHLEMER O'R BAUHAUS BYD ENWOG YN YMARFER MYFYRDOD AC YN YMGORFFORI EU HETHOS YN EU DYSGEIDIAETH.
- NODODD STOC LLYFRGELL ASEDAU ADOBE DAWELWCH A LLONYDDWCH' FEL Y CYNTAF YN EU RHAGLEN DUEDDIADAU GWELEDOL FLYNYDDOL, SY'N SEILIEDIG AR FEWNWELEDIAD A GWAITH YN Y DIWYDIANT SY'N YMGYSYLLTU Â DEFNYDDWYR.
- MAE YMCHWIL DIWEDDAR YN AWGRYMU BOD MEDDYGON TEULU LEDLED Y WLAD YN FWY AWYDDUS I YMDRIN Â DULL GWEITHREDU O RAGNODI CYMDEITHASOL SY'N SEILIEDIG AR "FWY NA MEDDYGINIAETH", AC MAE HYNNY'N AML YN CYNNWYS ARGYMELL GWEITHGAREDDAU AWYR AGORED AMRYWIOL.

# LLEOEDD ARBENNIG

## LLE TAWEL NATURIOL - ERYRI

## DIHANGFA RHAG POPETH DIGIDOL

## DEWCH I GANFOD EICH LLE ARBENNIG CHI EICH HUN

## 1

Mae yna 1,497 milltir o lwybrau cyhoeddus yn Eryri.



## 2

Ardaloedd helaeth o goetiroedd brodorol, coed hynafol, dyffrynnoedd afonol a llynnoedd i gerdded o'u hamgylch a cewch le i feddwl ac i chwarae yn eu plith.

## 3

Lle mae'r mynyddoedd yn cwrdd â'r môr, chwiliwch am yr awyr fawr agored a'r gorwelion eang, ac ymdrochwch yn y golygfeydd.



## 4

Ar drywydd heddwch mewnol....dilynwch ôl-troed hynafol ein cyndeidiau ar hyd llwybrau sy'n bodoli ers miloedd o flynyddoedd; ar ddiwedd y dydd edrychwch tua'r gorllewin ... lle mae'r machlud yn cyffwrdd y môr.

RHA **RHIF.6**

# HAMDDEN A DYSGU



## Cyfleoedd helaeth ar gyfer hamddena, dysgu a hamdden ar gyfer pobl o bob oed a gallu.

Mae ehangder y cyfleoedd posibl i fynd allan a bod yn actif yn Eryri yn ddi-ddiwedd. Mae Gogledd Eryri yn adnabyddus am y cyfleoedd i gerdded bryniau, mynydda a dringo ac mae'n adnabyddus hefyd achos fe ddaeth timau Everest i hogi eu sgiliau dringo yma. Cafodd y dringfeydd cyntaf a gofnodwyd ym Mhrydain yn Eryri, ei gwneud gan fotanegwyr Fictoraidd a oedd yn chwilio am flodau alpaidd arctig sy'n anodd dod o hyd iddynt.

Ar wahân i'r gweithgareddau clasurol hyn, mae Eryri hefyd yn adnabyddus am gyfleoedd i fod yn egnïol ac yn anturus o fewn tirweddau gwych; o feicio mynydd a ffyrdd, rhedeg a dringo iâ i gerdded a dringo clogfeini yn y gaeaf yn ogystal ag archwilio mwyngloddiau.

Rydym yn cynllunio i helpu i wneud gweithgareddau yn Eryri yn hygyrch i gymaint o bobl â phosibl. Un fenter o'r fath yw Llwybr Cylchdaith Yr Wyddfa a fydd, unwaith y'i cwblheir, yn llwybr o tua 42km o amgylch godre'r Wyddfa. Bydd y llwybr cerdded yn agos at orsafoedd ar Reilffordd Ucheldir Cymru fel bod yr opsiwn i ddefnyddio'r llwybr aml-ddefnyddwyr hwn i un cyfeiriad a defnyddio trafnidiaeth arall i gwblhau'r siwrnai wrth ddod yn ôl. Bydd y llwybr  yn cynnig manteision iechyd a lles i drigolion gan ddarparu dolen gyswllt ychwanegol rhwng cymunedau gwledig.

Mae Eryri wedi hen sefydlu fel un o'r cyrchfannau beicio mynydd gorau ym Mhrydain. Mae Coed y Brenin yn enwog am ei lwybrau beicio mynydd a chyfleusterau ymwelwyr o'r radd flaenaf. Mae Antur Stiniog, sydd wedi'i leoli yng nghalon Eryri, yn gartref i chwe llwybr i lawr allt a beicio rhydd sy'n amrywio o rai hawdd i eithafol a'r peth gorau yw eu bod yn cynnwys gwasanaeth cludo i ben uchaf y llwybr beicio. Mae Penmachno, sy'n agos at Fetws-y-Coed, yn cynnig marchogaeth naturiol drwy gydol y flwyddyn mewn coetiroedd hynafol hardd.

Yn ogystal â gweithgareddau sy'n seiliedig ar fryniau a beiciau, mae gennym ddigonedd o chwaraeon dŵr, yn amrywio o syrffio a chaiacio môr, i arforgampau a hwylfyrddio, yn ogystal â rafftio dŵr gwyn, cerdded ceunentydd, caiacio, canŵio, rhwyf fyrddio a nofio dŵr agored. Mae Llyn Tegid yn ganolbwynt arbennig o bwysig ar gyfer chwaraeon dŵr yn y Parc Cenedlaethol.

Mae gweithgareddau eraill ychydig yn fwy hamddenol, fel pysgota, yr un mor gyffrous a hygyrch gyda chronfeydd dŵr, llynnoedd, afonydd, aberoedd a glannau amrywiol sy'n cynnig cyfoeth o gyfleoedd pysgota bras, plu a môr. Mae rhai o gyrsiau golff gorau ym Mhrydain hefyd yn bodoli o gwmpas y Parc, yn enwedig y rhai enwog yn Harlech ac Aberdyfi a ddyluniwyd gan James Braid.


Yn fwy diweddar o gwmpas Eryri mae gweithgareddau adrenalin a grëwyd gan ddyn, yn amrywio o ZipWorld i gampwaith peirianneg anhygoel a wnaed gan ddyn yn Surf Snowdonia - lagŵn syrffio mewndirol. Mae'r safleoedd hyn yn defnyddio tirwedd diwydiannol hanesyddol ar ffiniau'r Parc Cenedlaethol.




# > FFEITHIAU

MAE GAN BARC CENEDLAETHOL ERYRI 1497 MILLTIR O LWYBRAU CYHOEDDUS.

- AR DDIWRNOD CLIR AR BEN YR WYDDFA EFALLAI Y GWELWCH 18 LLYN, 14 COPA, IWERDDON, YNYS MANAW A HYD YN OED ARDAL Y LLYNNOEDD.
- SEFYDLODD COED Y BRENIN EI ENW YN Y 1990AU FEL CANOLFAN FEICIO MYNYDD BWRPASOL GYNTAF PRYDAIN ... MAE LLAWER O BOBL ERAILL HEFYD YN AWR YN DOD I FWYNHAU GWEITHGAREDDAU FEL CERDDED, RHEDEG LLWYBRAU, CYFEIRIANNU A GEOGELCU.
- FE ENWODD CROESO CYMRU LYN TRAWSFYNYDD FEL UN O BUM LLYN PYSGOTA GORAU CYMRU.



# LLEOEDD ARBENNIG



1

Cerdded, rhedeg neu feicio ar hyd Aber godidog y Fawddach o'r Bermo i Ddolgellau.

2

Mae Lon Gwyrfai yn enghraifft o'r hyn y gellir ei gyflawni trwy greu llwybr rhagorol ar gyfer aml-ddefnyddwyr ac mae'n hawdd cael mynediad at y llwybr oddi ar ffyrdd ac maen cysylltu Rhyd Ddu a Beddgelert, mae'r math hwn o gyfleuster yn caniatáu i bawb fwynhau'r golygfeydd trawiadol a chael y cyfle i fod yn egnïol ac yn agos at natur yng nghanol y Parc Cenedlaethol.






3

Beiciwch i fyny dyffryn tawelach Nantlle i Ryd Ddu a mwynhewch olygfeydd bendigedig o'r Wyddfa gerllaw Llyn Nantlle wrth i chi gychwyn ar eich dringfa i galon y Parc.





# RHA **RHIF.7** TIRWEDDAU HANESYDDOL

## Mae'r berthynas newidiol rhwng pobl a natur dros amser wedi cynhyrchu tirweddau o harddwch ac amrywiaeth mawr yn Eryri; ased cenedlaethol sy’n hanfodol i’n hunaniaeth ac i’n ‘naws am le’ a’n lles unigol.

Mae amrywiaeth a’r argraff a wnaed yn sgil gweithgareddau dynol ar dirwedd Eryri i’w gweld ym mhob man. O’r henebion carreg enigmatig o’r cyfnod cynhanesyddol a chestyll ac abatai godidog y cyfnod canoloesol, i rinweddau cyffredin a nodweddiadol fel ffiniau caeau a all yn aml fod yn rhai hen iawn. Ond mae’r dirwedd yn fwy na dim ond golygfeydd deniadol neu’n gofnod o’r gorffennol; mae hefyd yn darparu lle i ni fyw, gweithio a chynnal ein hunain, trwy ffermio, coedwigaeth, twristiaeth ac yn y blaen, prosesau sy’n ffurfio, ac yn parhau i ffurfio’r dirwedd.

Mae tirluniau a threfluniau Eryri wedi cael eu crefftio gan lawer o weithgarwch dynol o’r cyfnod Neolithig hyd heddiw. Mae ein pensaernïaeth gynhenid yn ein gwahaniaethu. Mae digwyddiadau hanesyddol, ffyrdd o fyw, traddodiadau a chredoau yn cael eu cipio ar ffurf henebion, safleoedd ac adeiladau, ym mhatrymau aneddiadau ac mewn caeau, ac mewn enwau lleoedd. Mae cysylltiadau byw â’n treftadaeth ni yn cael eu cynnal mewn arferion rheoli tir, sgiliau adeiladu traddodiadol a’r iaith sy’n parhau i gael eu hymarfer heddiw.

Mae rhai o’r llefydd mwyaf parhaol ac annwyl yn rhai a adeiladwyd fel mynegiant o gred megis y siambrau mawr claddu o’r Oes Neolithig yn Ardudwy, y crugiau enigmatig, y carneddau, y cylchoedd a’r meini hirion o’r Oes Efydd wedi’u gwasgaru ar draws ffiniau’r mynyddoedd, eglwysi canoloesol yng nghefn gwlad, a chapeli trefi a phentrefi o’r bedwaredd ganrif ar bymtheg.



O gwmpas y mannau cysegredig hyn lluniwyd cefnlenni i ddiwallu anghenion bywyd bob dydd. Am o leiaf 2000 o flynyddoedd, mae arwyddion digamsyniol amaethyddiaeth - systemau caeau a chlostiroedd - wedi'u gosod ar y dirwedd bron ym mhob man, yr olion cynharaf yn wan yn awr ond yn weladwy ochr yn ochr â'r rhwydwaith o waliau a ychwanegwyd gan wellwyr amaethyddol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. O fewn y caeau roedd yna anheddau - aneddiadau tai crwn Oes yr Haearn a adawyd, yna o ddiwedd y cyfnod canoloesol ymlaen, y ffermydd, ysguboriau yn y caeau a'r bythynnod sy'n dal i fod yn greigleoedd i aneddiadau heddiw.

Ochr yn ochr ag amaethyddiaeth, mae'r dirwedd hefyd yn dwyn nod gweithgarwch diwydiannol: canfod a gweithio cerrig a llechi, echdynnu metelau a mwynau, a chynhyrchu brethyn gwlân. Er mwyn diwallu anghenion y diwydiant, cododd aneddiadau newydd, ac fe ail-luniwyd hen rai, a chafodd llwybrau cludiant newydd eu hychwanegu at rwyll llwybrau cynnar yn dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn-hanesyddol.

Mae adeiladau traddodiadol Eryri yn adlewyrchu buddsoddiad mewn cyfnod o ffyniant a heddwch, ond mae'r dirwedd hefyd yn cynnwys tystiolaeth o goncwest ac amddiffyniad, o fryngaerau'r Oes yr Haearn, y caerau a gwersylloedd y Rhufeiniaid, i gestyll tywysogion Cymru a brenhinoedd Lloegr a hyd yn oed i rwystrau gwrth-danc yr Ail Ryfel Byd a geir ar draeth Y Friog a Bwlch yr Oerddrws. Mae rhai o'r rhain wedi cael eu cynnwys mewn straeon: roedd Tomen y Mur (Mur Castell) a Harlech yn llysoedd yn y Mabinogi.

Mae cenedlaethau o awduron, beirdd ac arlunwyr wedi cael ysbrydoliaeth o'n tirwedd, ac mae eu gwaith yn ychwanegu dyfnder at yr ymdeimlad o le. Yn y geiriau ac yn yr enwau pob dydd hefyd, fe wneir miloedd o gysylltiadau anweledig â'r hanes sydd ym mhobman o'n cwmpas.



# FFEITHIAU

**MAE 14 O ARDALOEDD CADWRAETH YM MHARC CENEDLAETHOL ERYRI SYDD WEDI'U DYNODI AM EU DIDDORDEB PENSAERNÏOL A HANESYDDOL ARBENNIG, GAN GYNNWYS DEUNYDDIAU A DDEFNYDDIWYD, HANES, MANYLION PENSAERNÏOL, TIRLUNIO CALED A MEDDAL.**

- MAE  SAFLE TREFTADAETH Y BYD UNESCO YN BODOLI YN HARLECH, CAERNARFON, BIWMARES A CHONWY, A ELWIR GYDA'I GILYDD YN 'GESTYLL A MURIAU TREF Y BRENIN EDWARD YNG NGWYNEDD'.
- ROEDD MYNYDDOEDD YN UN O NIFER O RINWEDDAU NATURIOL A OEDD  YN FAWR EU PARCH YN Y CYFNOD CYNHANESYDDOL YNGHYD AG OGOFÂU, AFONYDD, LLYNNOEDD A FFYNHONNAU.
- AR LAWER O GOPAON MYNYDDOEDD UCHEL ERYRI MAE YNA DWMPATHAU SEREMONÏOL A CHLADDU A ADEILADWYD O GERRIG TUA 2500 O FLYNYDDOEDD YN ÔL. CREDIR EU BOD YN MARCIO LLE MAE'R MANNAU CYSEGREDIG LLE'R OEDD HYNAFIAID AC YSBRYDION YN TRIGO'N Y DIRWEDD. GELLIR GWELD LLAWER OHONYNT O'R CYMOEDD YMHELL ODDI TANYNT. MAE'R MYNYDDOEDD YNG NGOGLEDD ERYRI YN CAEL EU HENW GANDDYNT HYD YN OED; FEL Y CARNEDDAU.
- MAE'R GAIR 'DINAS' YN ENW HANESYDDOL AC YN CYFEIRIO AT GADARNLE NEU LE CAEROG.
- MAE YMCHWIL GAN Y PROSIECT CYMUNEDOL DARGANFOD HEN DAI CYMREIG WEDI DATGELU TAI PRESWYLIEDIG SY'N DYDDIO I DROS 500 MLYNEDD YN ÔL.


# LLEOEDD ARBENNIG

## 1

Aneddiadau a chaeau cynhanesyddol helaeth. Mae'r tai cynnar a'r ffiniau tir hyn wedi'u gwasgaru'n eang ar draws ochrau dyffrynnoedd Eryri a'i chyrion ucheldirol sy'n edrych dros yr arfordir. Maent ymhlith y rhai sydd wedi'u cadw orau a'r rhai mwyaf cymhleth yn Ewrop ac fe'u hadeiladwyd tua 2000 o flynyddoedd yn ôl.

## 2

Mae Bryn Cader Faner (Talsarnau) yn un o henebion harddaf o'r Oes Efydd ym Mhrydain. Mae'r heneb gladdu a seremonïol hon gyda'i chylch o slabiau'n codi o dwmpath o gerrig yn dyddio i oddeutu 4000 o flynyddoedd yn ôl. Mae'n gorwedd mewn lleoliad ucheldirol dramatig ar lwybr hynafol ar draws mynyddoedd y Rhinog, gan gysylltu'r arfordir â chymoedd Eden (Trawsfynydd) a Dyfrdwy (Y Bala) a thu hwnt. Wrth ddynesu atynt, mae'r cerrig symudliw fel pelydrau'r haul yn codi.



## 3

Y gaer Rufeinig yn Nhomen y Mur (Trawsfynydd). Gyda'i nodweddion cysylltiedig sy'n cynnwys tir gorymdeithio, baddondy, amffitheatr fach a thwmpathau claddu mae hon yn dirwedd filwrol sydd wedi'i chadw'n eithriadol o dda o 77AD i 130AD. Parhaodd ei arwyddocâd strategol a diwylliannol wedi'r ymadawiad; adeiladodd y Normaniaid gastell ymgyrch o bridd a phren ymysg ei adfeilion ac mae'n gartref i Lleu Llaw Gyffes yn chwedlau canoloesol y Mabinogi.



## 4

Cestyll mynydd Tywysogion Gwynedd. Daeth Llywelyn Fawr (1173 - 1240) yn rheolwr ar y rhan fwyaf o Gymru. Roedd ei gestyll ef yn Nolwyddelan, Dolbadarn (Llanberis) a Chastell y Bere (Tywyn) ynghyd â Chwm Prysor (Trawsfynydd) a Chastell Carndochan (Llanuwchllyn) yn amddiffyn y porfeydd brenhinol pwysig, yn rheoli llwybrau trwy'r mynyddoedd, ac yn amddiffyn ffiniau teyrnas hynafol Gwynedd.



# DAEAREG BYD ENWOG

RH **RHIF.8**



## Daeareg gymhleth, amrywiol ac adnabyddus, hanfodol wrth ddylanwadu ar ddisgyblaethau daeareg a daearyddiaeth yn rhyngwladol.


Mae tirwedd Eryri a natur a'r gweithgareddau ynddi yn seiliedig ar ei hanes daearegol.

Mae'n stori dditectif gymhleth o gyfandiroedd gwrthdrawiadol, llosgfynyddoedd, ffurfio mynyddoedd, newidadau yn lefel y môr a rhewlifiant a fu oll yn rhan o greu Eryri fel ag y mae heddiw. Mae'n anodd dadansoddi ein golygfeydd mynyddig yn gyfan gwbl, a deall sut yn union y crëwyd tirwedd syfrdanol fel hwn. Fodd bynnag, gydag arweinydd gwybodus neu hyd yn oed arweinlyfr neu 'app' da, gallwn ddechrau dadlennu a deall pam a sut y datblygodd y dirwedd dros filoedd o flynyddoedd. Gallwn weld rhai o'r creigiau a grëwyd gan losgfynyddoedd neu ddyddodion gwaddodol. Gallwn ddysgu sut i ddehongli rhinweddau a'r arwyddion i ddeall sut yr adeiladwyd mynyddoedd a rhewlifau ar lawr gwlad ... mae'r dystiolaeth o'n cwmpas pan fyddwch chi'n gwybod be' i chwilio amdano!

Mae gweithgaredd Oes yr Iâ wedi gwneud llawer i ffurfio'r dirwedd yn Eryri. Fe wnaeth y rhewlifoedd a oedd ar eu hanterth 18,000 o flynyddoedd yn ôl sgrafellu dyffrynnoedd siâp U mawr mewn lleoedd fel Llanberis a Nant Gwynant yn y gogledd a Thal y Llyn yn y de.

Mae Eryri yn cyflwyno tirwedd amrywiol iawn sy'n cynnwys copaon mynyddoedd a chribau, dyffrynnoedd dwfn a llwyfandiroedd rhostirol. Mae'r creigwelyau daearegol yn cael eu tra arglwyddiaethu gan greigiau gwaddodol a folcanig Cambrian, Ordofigaidd a Silwraidd. Mae ardal fawr o dywodfeini a siâl Cambria, a adwaenir fel Cromen Harlech, yn sail i'r Rhinogydd ac yn ymestyn i'r dwyrain i Goed y Brenin ac i'r de tuag odre Cader Idris. Mae brasgreigiau gwaddod yn ffurfio rhai o'r copaon uchaf yn y Rhinogydd a rhai o'r ffurfiannau creigiau hynaf ym Mhrydain.

O amgylch Cromen Harlech, datblygodd canol- leoedd folcanig mawr ar wahanol gyfnodau yn ystod y cyfnod Ordofigaidd, a bu'r rhain yn ffrwyno llawer iawn o lafa a llwch sydd bellach wedi'i cadw mewn ardaloedd ucheldirol fel y Rhobell Fawr (705m) a Chader Idris (893m) yn y de, ac ymhellach i'r gogledd o amgylch Yr Wyddfa (1085m) a'r Carneddau. Ynghyd â'r gweithgaredd folcanig hwn hefyd roedd ymwthiadau igneaidd eang a chyfansoddiad granitig a basaltig sydd bellach yn ffurfio rhinweddau nodedig, sy'n gwrthsefyll erydiad ar hyd a lled y dirwedd.



Bu cyfnod mawr o adeiladu mynyddoedd yn y cyfnod Defonaidd cynnar i ganolig, a chanlyniad hynny oedd creu'r llechi pwysig yn ardaloedd Bethesda, Llanberis, Nantlle, Blaenau Ffestiniog a Chorris. Trawsnewidiodd y defnydd diwydiannol o lechi o ganol y 18fed i ganol yr 20fed ganrif dirlun yr ardaloedd hyn i adael etifeddiaeth o chwareli llechi a gweddillion mwyngloddio sy'n adnabyddus yn rhyngwladol.

Creodd gweithgarwch folcanig hynafol lawer o fathau o adneuon mwynau yn yr ardal ac mae mwyneiddiad copr, plwm a sinc yn nodwedd arbennig o ardal Eryri. Daeth y dyddodion hyn hefyd yn ganolbwynt i lawer o archwilio ac fe achosodd hynny i olion nodweddion gael eu gadael yn y dirwedd. Cloddiwyd manganîs o amgylch ochrau Cromen Harlech, ac fe gafwyd copr ac aur o wythiennau cwarts sy'n brigo tua'r gorllewin a'r gogledd o Ddolgellau. Gyda'i gilydd fe'i hadnabyddir fel llain aur Dolgellau, - profodd yr ardal fwyngloddio hon gyfnod euraidd mawr yn ystod hanner olaf y 19eg ganrif pan ddarganfuwyd dyddodion aur sylweddol ym mwyngloddiau Clogau a Gwynfynydd.

Mae hanes rhewlifol yr ardal wedi arwain at olygfeydd ucheldir cyfoethog ac ysblennydd iawn a welwn heddiw, gyda dyffrynnoedd siâp U sydd wedi'u gor-ddyfnhau a achoswyd gan rewlifoedd yn ymestyn allan o graidd yr ucheldir i lawr llethrau a dyffrynnoedd fel Nant Ffrancon a Nant Peris . Mae yna gyfoeth o nodweddion clasurol megis cymoedd neu bentyrrau uchel, cribau sydd mor finiog ag 'ymyl cyllell,' llynnoedd argae marian, llinynnau rhewlifol, 'moutonees roche,' rhaeadrau dramatig ac yn y blaen.


Chwaraeodd Eryri ran allweddol yn natblygiad daeareg fel gwyddoniaeth ac mae'r tir heriol iawn wedi cael dylanwad mawr ar batrwm trafnidiaeth, ffermio, diwydiant, twristiaeth a diwylliant ledled yr ardal.



# FFEITHIAU

**500 MILIWN O FLYNYDDOEDD YN ÔL ROEDD EDRYCHIAD YR WYDDFA YN WAHANOL IAWN... ROEDD AR WELY'R MÔR, AC MAE'R DARNAU O FFOSILAU CRAGEN A DDARGANFUWYD AR Y COPA YN BRAWF O HYNNY.**


- CRIB GOCH YW'R GRIB FINIOG ENWOG AC FE'I CRËWYD WRTH I DDAU DDYFFRYN CROG RHEWLIFOL GAEL EU CREU GEFN WRTH GEFN.
- MAE AUR O FWYNGLAWDD CLOGAU GER DOLGELLAU WEDI CAEL EI DDEFNYDDIO MEWN MODRWYAU PRIODASAU BRENHINOL ERS PRIODAS Y FAM FRENHINES YM 1923.
- ROEDD Y GRONYNNAU BACH A GREODD Y GARREG LAID GYNTAF A NEWIDIODD I LECHEN DRWY WASGEDD DWYS O BLATIAU TECTONIG GWRTHDRAWIADOL, YN DEBYGOL O FOD WEDI CAEL EU DYDDODI AR GYFARTALEDD O TUA 0.1MM Y FLWYDDYN .. BYDDAI ANGEN O LEIAF 1 MILIWN O FLYNYDDOEDD I GREU 100 METR!



# LLEOEDD ARBENNIG

## 1

Chwarel Vivian, Llanberis ... pan edrychwch i fyny ar wyneb y chwarel uchel, cofiwch am y dyddodion 0.1mm y flwyddyn!



## 2


Mae Cwm Idwal yn un o'r enghreifftiau gorau o dirwedd rewlifol ddaearegol ym Mhrydain ar gyfer cadwraeth a hamddena.

## 3

Mae Pedol Yr Wyddfa yn cwmpasu 'grisiau' o bedwar cwm rhewlifol a dyma ganolbwynt pensaernïaeth creigiau rhagorol Eryri.

## 4

Dywedir fod Crib Goch, yn atgoffa y rhai sy'n edrych arno o'r grib coch sydd ar ben ceiliog. Mae'r dirwedd hon yn cynnwys rhai o'r dilyniannau uchaf, ac felly ieuengaf, o greigiau folcanig Ordofigaidd sydd yn y golwg yn Eryri heddiw.





RHA **RHIF.9**

# CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU RHYNGWLADOL BWYSIG

**Mae 17 Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn Eryri; mwy nag mewn unrhyw barc cenedlaethol arall yng Nghymru a Lloegr; a 56 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r bioamrywiaeth aruthrol yn adlewyrchu amrywiaeth y dirwedd, y ddaeareg, yr hinsawdd a'r dulliau rheoli tir. Mae cyfoeth planhigion ac anifeiliaid yn sylfaenol i hanes, diwylliant, iaith, economi a lles parhaus yr holl bobl sy'n byw yn yr ardal ac yn ymweld â hi.**

Mae nifer dibendraw o dirluniau a morweddau yn bodoli o fewn ardal gymharol fach, ac mae hyn yn cyfuno i ddarparu amrywiaeth o gynefinoedd, cynefinoedd sy'n croesi-drosodd a choridorau bywyd gwyllt. Mae hyn yn gwneud Eryri yn gyfoethog iawn o ran bioamrywiaeth. Mae'r llu o ffawna a fflora hyn yn cael eu bwydo gan dywydd mwyn, llaith yn ysgubo i mewn o'r Iwerydd, a chanlyniad hyn yw miloedd o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid.

Mae rhai rhywogaethau a chynefinoedd yn genedlaethol a rhyngwladol bwysig, er enghraifft, y rhai sy'n weddill o Oes Iâ ddiwethaf ac sy'n rhoi cipolwg ar y cynefinoedd lled-Arctig. Eryri yw'r pwynt mwyaf deheuol ym Mhrydain ar gyfer llawer o rywogaethau o'r fath. Ymysg y planhigion a'r anifeiliaid mwyaf prin ac adnabyddus a ddeuir o hyd iddynt yn y copaon uchel, mae Lili'r Wyddfa yn unigryw, yn ogystal â Chwilen yr Wyddfa neu Chwilen Ddeiliog yr Enfys.

Mae gennym dirwedd ucheldirol syfrdanol o lwyfandiroedd, clogwyni, a sgrïau, dyffrynnoedd afonydd coediog a llynnoedd. Mae rhostiroedd, cynefinoedd clogwyni alpaidd a sgri yn gyffredin ac mae'r rhain yn cynnal y grŵp unigryw o blanhigion arctig alpaidd uwch ac is. Mae'r rhain hefyd yn cynnwys gweunwellt y mynydd (Poa alpina), y tormaen gopog, tormaen alpaidd, eurinllys alpaidd, coed alpaidd alwminiwm a phlwycin alpaidd. Mae mwsoglau a llysiau'r afu yn ffynnu yma o ganlyniad i'r lleithder cymharol, ac yn y mannau helaeth hynny o sgri creigiau igneaidd, deuir o hyd i fryoffytau a chennau, gyda rhywogaethau planhigion cysylltiedig fel y mwsogl ffynidwydden, y rhostwellt llosg a *Cornicularia narmoerica* hefyd.

Yn ogystal â'i hafonydd a'i llynnoedd rhewlifol, mae gennym hefyd nifer sylweddol o lynnoedd mynydd bach wedi'u gwasgaru ar hyd a lled yr ucheldiroedd. Mae poblogaethau mawr o'r llyriad dŵr arnofiol prin, sy'n tyfu mewn dŵr llonydd ac mae angen amodau penodol  i oroesi. Mae'r ardal hefyd yn gartref i'r *Euphrasia cambrica a E. rivularis* endemig; sy'n ddim ond ymysg nifer o'r rhywogaethau blaenoriaeth a nodwyd yn y Parc.


Mae'r prif orchudd ucheldirol y tu hwnt i'r copaon gogleddol yn cynnwys gweundir grug a glaswelltir asidaidd yn bennaf, ynghyd â phlanhigfeydd o goetiroedd conifferaidd helaeth. Mae llawer o'r gweundir hwn yn cynnwys rhostiroedd, glaswelltir asidaidd a gorgors ac mae o werth ecolegol sylweddol; cydnabyddir hyn yn SoDdGA Eryri, Migneint-Arenig-Dduallt, Rhinog, Cader Idris a Berwyn.

Mae'r coetir conifferaidd yn gyffredinol o werth ecolegol llai ond gall ddal i fod yn bwysig ar gyfer bioamrywiaeth, fel yng Nghoed y Brenin ac yng Nghoedwig Gwydir. Fodd bynnag, mae coetir collddail 'brodorol' o amrywiaeth llawer uwch yn dal i fod yn amlwg hefyd, yn enwedig ar dir is ac ar ochrau dyffrynnoedd. Ers yr 1980au yn enwedig, mae rheoli cadwraeth wedi cynyddu, gydag ail-goedwigo gweithredol o'r math hwn o gynefin coedwigol.

Mae rhai enghreifftiau o'r rhywogaethau anifeiliaid sy'n galw Eryri yn gartref iddynt, yn cynnwys yr ystlum pedol lleiaf (*Rhinolophus hipposideros*), bele'r coed (*Martes martes*), y Frân Goesgoch (*Pyrrhocorax pyrrhocorax*), Llinos y Mynydd (*Carduelis flavirostris*), yr Gylfyner (*Falco peregrinus*) a'r Misglod Perlog Dŵr Croyw (*Margaritifera margaritifera*).


Mae cynefinoedd lled-naturiol hefyd yn helaeth ar draws sawl rhan o Eryri, gyda ffermio dwys cymharol isel, yn aml mae porfeydd defaid yr haf yn bodoli ar draws llawer o ardaloedd eraill. Mae rhai ardaloedd o borfa a glaswelltir traddodiadol, ac yn nodedig, dim ond ychydig y mae amaethyddiaeth wedi ei "wella" neu darfu arnynt, ac maent yn cael eu cydnabod fel mannau gwerthfawr; mae yna ysgogiad cynyddol i warchod yr ardaloedd bio-amrywiol hyn ymhellach hefyd.

Mae'r ystod o gynefinoedd yn y Parc, o Ardaloedd Cadwraeth Lleol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol i Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Aber y Ddyfi (sy'n Safle Biosffer y Byd arfaethedig) i gyd yn cael eu cydnabod a'u gwarchod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.



# >FFEITHIAU

**CYDNABUWYD ERYRI FEL UN O 165 O ARDALOEDD PLANHIGION PWYSIG YM MHRYDAIN.**



- MAE TUA 20 Y CANT O BARC CENEDLAETHOL ERYRI WEDI'I DDYNODI'N ARBENNIG GAN GYFRAITH YM MHRYDAIN AC EWROP ER MWYN GWARCHOD EI FYWYD GWYLLT UNIGRYW.
- MAE LILI'R WYDDFA YN BLANHIGYN CAIN, ARCTIG-ALPAIDD SYDD Â BLODAU GWYN HARDD A DAIL TEBYG I LASWELLT. FE'I COFNODIR YN RHEOLAIDD FEL UN SY'N TYFU'N UCHEL YM MYNYDDOEDD ERYRI OND NI CHOFNODWYD EI FOD YN BODOLI YN UNMAN ARALL YM MHRYDAIN.
- MAE 18% O BARC CENEDLAETHOL ERYRI YN GOEDIOG.
- MAE DAU SAFLE RAMSAR YNG NGHWM IDWAL A LLYN TEGID, SY'N WLYPTIROEDD RHYNGWLADOL BWYSIG.



# LLEOEDD ARBENNIG

1

SoDdGA
Moel Hebog.



2

Coedydd Nantgwynant a Choedydd Aber, sy'n cynnwys coetiroedd collddail 'brodorol'.




3

Mae Llyn Tegid, y llyn naturiol mwyaf yn y Parc, yn cynnal nifer o rywogaethau prin Eryri, fel y Gwyniad, is-rywogaeth unigryw o'r pysgod gwyn Ewropeaidd, a gafodd eu caethiwo yn y llyn ar ddiwedd yr Oes Iâ ddiwethaf, 10,000 mlynedd yn ôl, a'r Falwen Ludiog, sy'n unigryw i Lyn Tegid.

4

Mae gan Gymru ei goedwigoedd glaw ei hun sy'n llawn amrywiaeth o fywyd gwyllt a diwylliant. Cyfeirir at yr ardaloedd arbennig hyn yn fwy cyffredin fel Coedwigoedd Glaw Celtaidd. Diolch i arian sylweddol gan raglen LIFE yr UE a Llywodraeth Cymru, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn arwain prosiect gwerth £7 miliwn gyda'r nod o sicrhau dyfodol tymor hir y coedwigoedd derw mawreddog hyn.





**Rydym yn hyderus y byddwch yn cytuno bod y Rhinweddau Arbennig hyn yn gwneud Eryri yn eithriadol. Mae ein Rhinweddau Arbennig yn dangos y cysylltiad anwahanadwy cynhenid rhwng pobl, eu hanes, eu hamgylchedd, eu tirwedd a'u dyfodol.**

Nid yw gofalu, amddiffyn a gwella'r gwerthoedd craidd hyn heb ei heriau.


Rydym wedi sicrhau bod Rhinweddau Arbennig ein Parc Cenedlaethol wedi aros wrth galon ein Partneriaeth. Gallwch eu gweld yn y camau y cytunwyd arnynt ar dudalennau 94-153 ochr yn ochr â phob un o'r camau yr ydym yn mynd i'w cymryd dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn sicrhau bod Eryri yn parhau i fod yn eithriadol.

# >LLE RYDYM AM GYRRAEDD



Ysgrifennwyd y Cynllun hwn gyda'r bwriad o gyflawni yn effeithiol yn flaenoriaeth yn ein meddyliau.

Mae cysylltiad agos rhwng y Weledigaeth, y Canlyniadau, y Polisïau, y Camau Gweithredu a'r dangosyddion yn y Cynllun hwn.



## GWELEDIGAETH
**Sut Barc Cenedlaethol yr hoffwn ni ei weld**

## CANLYNIADAU HIRDYMOR
**Y pethau ehangach sydd angen digwydd er mwyn cyflawni'r Weledigaeth**

25 mlynedd

## CANLYNIADAU
**Y pethau penodol sydd angen digwydd er mwyn cyflawni'r deilliannau hirdymor.**

5 mlynedd

## POLISIAU
**Yr hyn y bydd angen i ni ei wneud er mwyn cyflawni'r deilliannau**

5 mlynedd

## CAMAU GWEITHREDU
**Prosiectau penodol, amserlen, sefydliadau arweiniol, targedau**

5 mlynedd

## DANGOSYDDION
**Offer i fesur a monitro cynnydd.**

# > EIN GWELEDIGAETH HIRDYMOR AR GYFER ERYRI

## ERYRI EITHRIADOL

Parc Cenedlaethol sy'n gyfoethog yn ddiwylliannol, gydag economi werdd lewyrchus, profiad ymwelwyr o'r radd flaenaf sy'n cyfrannu'n fawr iawn at les ein cenedl.

Erbyn 2045 bydd Eryri yn parhau i fod yn dirlun gwarchodedig ac esblygol, wedi'i ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol a hanesyddol cyfoethog, amrywiol a chydnerth; yn darparu buddion lles yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Bydd pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn cael eu cyflawni trwy economi amrywiol a ffyniannus sydd wedi addasu ar gyfer heriau newid yn yr hinsawdd ac yn seiliedig ar adnoddau naturiol – rhinweddau'r dirwedd, cyfleoedd ar gyfer dysgu a mwynhad, y dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog a chynhwysol sy'n ffynnu, bydd gweithio mewn partneriaeth yn dangos ei bod yn bosib cyflawni mwy trwy gydweithio.

Bydd cymunedau wedi mabwysiadu atebion arloesol mewn byd sy'n newid - bydd economi carbon isel wedi cryfhau cyswllt trigolion â'r amgylchedd, gan ddarparu gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol o fri yn rhyngwladol ac fel lle i'r enaid gael llonydd.

## DEILLIANNU HIRDYMOR AR GYFER ERYRI

Mae ein prif ddeilliannau hirdymor wedi'u cysylltu'n agos â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol:

- **Amgylchedd Eryri: Rydym yn gofalu am ein hasedau naturiol a hanesyddol a'n hamgylchedd trawiadol yn llwyddiannus.**
- **Iechyd a lles Eryri: Mae Eryri yn darparu cyfoeth o gyfleoedd ar gyfer dysgu a darganfod ac yn gwella lles ein cenedl ar yr un pryd.**
- **Cymunedau ac Economi Eryri: Lle gwych i fyw a gweithio**

Drwy bob un o'r rhain, mae ein Rhinweddau Arbennig yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn.

# > CYNLLUN ERYRI

## CYNLLUN PARTNERIAETH Y PARC CENEDLAETHOL AR GYFER ERYRI


Datblygwyd y Cynllun hwn trwy gyfres o ymgynghoriadau manwl gyda phawb sydd â diddordeb neu sydd â pherthynas â'r Parc Cenedlaethol. Mae'n cynrychioli'r hyn y mae busnes, cymunedau a sefydliadau yn teimlo sy'n bwysig.

Mae ein trafodaethau a'n hymgynghoriadau trylwyr wedi cynhyrchu cyfres o 'ddeilliannau', sy'n nodi sut yr ydym am i bethau droi allan yn y dyfodol. O dan y deilliannau hyn mae yna gamau gweithredu cysylltiedig. Dyma'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r deilliannau. Fel partneriaeth, rydym wedi trafod a chytuno ar y camau gweithredu hyn a phwy fydd yn eu cyflawni. Credwn y bydd hyn yn sicrhau'r llwyddiant gorau posibl ar gyfer y Cynllun Partneriaeth hwn.

Felly, beth mae'r weledigaeth tymor hir yn edrych fel mewn manylder? Yr ydym wedi cael trafodaethau a chyd drefnu gweithdai gyda phartneriaid allweddol, rhanddeiliaid a chymunedau lleol. Rydym wedi nodi'r hyn sy'n gweithio nawr a sut y gallai pethau newid yn y dyfodol. Mae'r elfennau hyn i gyd wedi ein helpu i ddeall sut mae llwyddiant yn edrych. Teimlwn fod y weledigaeth a'r amcanion tymor hir manwl isod yn ddyheadol eto'n gyraeddadwy.

# > CANLYNIADAU ALLWEDDOL

## Y PRIF NEWIDIADAU YR YDYM AM EU GWELD YN SGIL CYNLLUN ERYRI




Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## AMGYLCHEDD ERYRI

Calyniad tymor hir: Rydym yn gofalu am ein hasedau naturiol a hanesyddol a'n hamgylchedd trawiadol yn llwyddiannus

**A1**. Cyflawnir egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy

**A2**. Cynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cadernid ecosystemau.

**A3**. Rydym yn barod am effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn lleihau ein hôl troed carbon.

**A4**. Mae Eryri ar y blaen yn rhyngwladol wrth fynd i'r afael â lledaeniad rhywogaethau goresgynnol a phlâu a chlefydau sy'n effeithio ar rywogaethau brodorol.

**A5**. Mae cymunedau, busnesau ac ymwelwyr yn chwarae rhan weithredol wrth ofalu am dirweddau, cynefinoedd, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

**A6**. Mae Eryri yn enghraifft flaenllaw yng Nghymru o sut i ofalu am a hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol.

**A7**. Mae ein Rhinweddau Arbennig wedi'u diogelu'n dda.

### PWRPASAU A DYLETSWYDD PARCIAU CENEDLAETHOL

**PWRPASAU STATUDOL 1 Y PARC CENEDLAETHOL:**
**GWARCHOD A GWELLA'R HARDDWCH NATURIOL, Y BYWYD GWYLLT A'R DREFTADAETH DDIWYLLIANNOL.**

## IECHYD A LLESIANT ERYRI

Calyniad tymor hir: Mae Eryri yn darparu cyfoeth o gyfleoedd ar gyfer dysgu a darganfod ac yn gwella lles ein cenedl ar yr un pryd

**B1.** Mae'r Parc Cenedlaethol yn cael effaith bositif ar lesiant.

**B2.** Gall preswylwyr ac ymwelwyr gael mynediad at amrywiaeth o lwybrau yn y Parc Cenedlaethol sydd â'r nod o wella iechyd corfforol a meddyliol.

**B3.** Mae ein Rhinweddau Arbennig yn cael eu cydnabod a'u deall yn eang

**B4.** Cyflawnir opsiynau cynaliadwy ar gyfer parcio a chludiant.

**B5.** Mae ein cyfleusterau i ymwelwyr o ansawdd uchel ac yn sensitif i'r dirwedd.

### PWRPASAU A DYLETSWYDD PARCIAU CENEDLAETHOL

**PWRPAS STATUDOL 2 Y PARC CENEDLAETHOL:**
**HYRWYDDO CYFLEOEDD I'R CYHOEDD DDEALL A MWYNHAU RHINWEDDAU ARBENNIG Y PARC CENEDLAETHOL.**

## CYMUNEDAU AC ECONOMI ERYRI

Canlyniad tymor hir: Lle gwych i ddatblygu, byw a gweithio

**C1.** Mae iaith, diwylliant a threftadaeth Eryri yn cael eu dathlu, eu cefnogi a'u cryfhau.

**C2.** Mae swyddi a chyfleoedd yn annog pobl i aros yn yr ardal.

**C3.** Rydym yn gweithredu atebion ar gyfer tai fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu

**C4.** Cefnogir cymunedau lleol i ffynnu ym mhob agwedd ar lesiant

### PWRPASAU A DYLETSWYDD PARCIAU CENEDLAETHOL

**DYLETSWYDD Y PARC CENEDLAETHOL TRWY GYFLAWNI PWRPASAU 1 A 2:**
**CEISIO MEITHRIN LLES ECONOMAIDD A CHYMDEITHASOL CYMUNEDAU LLEOL YN Y PARC CENEDLAETHOL**

# >Y MANYLION





# SUT BYDDWN YN CYRRAEDD Y NÔD:

## BETH FWRIADWN EI WNEUD ER MWYN CYFLAWNI'R WELEDIGAETH

Yma fe welwch fanylion yr hyn yr ydym ni a'n Partneriaid wedi cytuno i'w gyflawni, wedi eu gosod o dan ein penawdau canlyniadau hirdymor, sydd yn perthyn yn agos i bwrpasau'r Parc Cenedlaethol.

# AMGYLCHEDD ERYRI

## RYDYM YN GOFALU AM EIN HASEDAU NATURIOL A HANESYDDOL A'N HAMGYLCHEDD TRAWIADOL YN LLWYDDIANNUS

### Ble'r ydym yn awr?

- Mae 96% o dirwedd diwylliannol Eryri wedi ei raddio gan LANDMAP fel uchel neu o ansawdd eithriadol.
- Mae 94% o dirwedd daearegol Eryri wedi ei raddio fel uchel neu o ansawdd eithriadol.
- Mae yna  47 safle SGBRh (Safle Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol) yn y Parc Cenedlaethol.
- Mae 18% o'r Parc Cenedlaethol o dan goed.
- Mae ardal o faint  400 cae rygbi wedi ei glirio o'r *Rhododendron ponticum*.
- Mae mawn ucheldir yn y Parc Cenedlaethol yn storfa carbon enfawr (17 miliwn tunnel fetrig), ac mae 30% o dir mawn Cymru yn Eryri.

### OND

- 17.8% yn unig o unedau SoDdGA o fewn Eryri sydd yn cael eu rheoli'n addas, mae'r ffigwr hwn wedi gostwng o 23.7% yn 2012.
- Bu cynnydd o 15% yn niferoedd ymwelwyr yn y bum mlynedd diwethaf, sydd yn rhoi pwysau cynyddol ar y tirwedd a'r amgylchedd o fewn y Parc Cenedlaethol .
- Amcangyfrifir mai £10 miliwn fydd y gôst o reoli'r cyfan o'r Rhododendron ymledol yn y Parc Cenedlaethol.
- 33.3% o goed y Parc Cenedlaethol sydd yn goed cynhennid.
- Mae 98.8% o unedau ACA ac AADd Eryri angen sylw.
- Mae 16% o adeiladau rhestredig y Parc Cenedlaethol o dan fygythiad.

## Ble’r ydym am fod erbyn 2025?

- Cyflawnir egwyddorion Twristiaeth Gynaliadwy.
- Cynnal a chryfhau bioamrywiaeth a chynyddu cadernid ecosystemau.
- Ein bod yn barod am effeithiau newid hinsawdd ac yn lleihau ôl troed carbon.
- Bod Eryri ar flaen y gâd yn rhyngwladol o ran mynd i’r afael â rhywogaethau ymledol, pla a haint sydd yn effeithio ar y rhywogaethau cynhenid.
- Bod cymunedau, busnesau ac ymwelwyr yn chwarae rhan weithredol mewn gofalu am dirweddau, cynefinoedd, bywyd gwyllt a threftadaeth hanesyddol y Parc Cenedlaethol.
- Bod Eryri yn arwain gweddill Cymru o ran gofalu am a hyrwyddo ein treftadaeth ddiwylliannol a’r amgylchedd hanesyddol.
- Bod ein Nodweddion Arbennig yn cael eu diogelu’n ddigonol.

## Isod fe welwch bob un o’r canlyniadau hyn wedi eu hegluro’n fanylach trwy bolisïau, gweithredoedd, y modd y byddwn yn mesur ein gwaith a phwy fydd yn datblygu’r syniadau hyn...

# TWRISTIAETH GYNALIADWY

Mae croesawu ymwelwyr i'n rhan arbennig ni o'r byd wedi bod yn rhan o fywyd yr ardal ers canrifoedd. Er hynny, mae'r cynnydd diweddar yn nifer yr ymwelwyr i'r Parc Cenedlaethol yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd mewn ardaloedd poblogaidd fel yr Wyddfa, Dyffryn Ogwen a Llyn Tegid. Mae hyn yn cynnwys erydu llwybrau, chwalu carneddau, sbwriel, problemau traffig a pharcio, a gorlenwi.

Bwriad Cynllun Eryri yw lleihau unrhyw effeithiau negyddol a gaiff ymwelwyr ar yr amgylchedd trwy gyfres o fesurau fydd yn mynd i'r afael â gwraidd y broblem. Yn gyntaf, caiff cyfres o egwyddorion arweiniol eu datblygu a'u gweithredu er mwyn diffinio beth sydd yn gynaladwy o safbwynt rheoli ymwelwyr. Bydd yr egwyddorion arweiniol hyn yn cynnwys trothwyon lle bydd angen cynllun rheoli ardal ar gyfer y mannau fydd yn cael ei heffeithio – megis Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa. Byddwn yn archwilio ac yn gweithredu dulliau newydd o ariannu mesurau lliniaru i sicrhau arlwy twristiaeth gynaliadwy uchelgeisiol.

## CANLYNIAD A1

## CYFLAWNIR EGWYDDORION TWRISTIAETH GYNALIADWY.

*GWELER TUDALEN 157 AM DDIFFINIAD Y CENHEDLOEDD UNEDIG (CU) O DWRISTIAETH GYNALIADWY

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A1.1. Datblygu egwyddorion arweiniol a throthwyon ar gyfer effaith ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r tirwedd. Bydd yr egwyddorion yn dangos lle bydd angen camau pellach ar ffurf cynllun rheoli ardal.** | 1, 4, 5, 6 & 9 | > Datblygu map gwres<br>> Archwilio ymarfer gorau mewn ardaloedd eraill<br>> Diffinio trothwyon ac egwyddorion<br>> Dewis ardaloedd treialu er mwyn peilotio'r cynllun<br>> Lle bydd yr amgylchedd yn caniatau ac awydd gan aelodau'r gymdeithas i gynyddu nifer yr ymwelwyr, archwilio dewisiadau ar gyfer ail ddosbarthu ymwelwyr i ffwrdd o ardaloedd sy'n cael eu gorlenwi. | APCE<br>Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)<br>Fforwm Eryri<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Gwynedd | Erbyn diwedd 2021 caiff map gwres ei gynhyrchu, caiff trothwyon ac egwyddorion eu diffinio. Caiff sail resymegol, methodoleg a chanlyniadau eu cyflwyno mewn adroddiad canfyddiadau. Caiff strategaethau eu sefydlu ar sail egwyddorion arweiniol y cytunir arnynt. |
| **A1.2. Sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal yn ddigonol er mwyn rheoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith ar sail nifer y rhai sydd yn defnyddio'r llwybrau.** | 6 | > Sefydlu grŵp gweithredol aml-sefydliad i gydlynu rheolaeth<br>> Parhau i gyllido ac archwilio ffynonellau newydd (e.e. rhoddion)<br>> Cynyddu'r defnydd o wirfoddolwyr ar gyfer gwaith cynnal a chadw<br>> Sefydlu perthynas gyda chontractwyr lleol ar gyfer gwaith mwy arbenigol | APCE<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>CNC<br>Cymdeithas Eryri<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Gwynedd<br>Grwpiau Gwirfoddol<br>Ramblers Cymru | Cynhelir asesiadau cynnydd, caiff gwaelodlinau eu sefydlu a chaiff ffynonellau cyllid eu meintioli. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A1.3. Cymryd camau pragmatig ac yn rhagweithiol er mwyn lleihau sbwriel.** | 1 & 6 | › Archwilio manteision pecynnu mwy cynaladwy yn ein siopau<br>› Archwilio sefydlu 'parthau di-blastig' yn Eryri ac adnabod dewisiadau eraill posibl<br>› Archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu pentref/ardal adlenwi dŵr yn rhad ac am ddim yn y Parc Cenedlaethol<br>› Gweithio gydag ymgyrchwyr lleihau sbwriel presennol a gweithredu ar raddfa leol.<br>› Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda gwirfoddolwyr er mwyn cadw'r Parc Cenedlaethol yn rhydd oddi wrth sbwriel<br>› Gweler hefyd: A1.5 | APCE<br>Cymdeithas Eryri<br>Cyngor Gwynedd<br>CBS Conwy<br>CNC<br>Cadw Cymru'n Daclus Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Plas y Brenin | Bydd astudiaethau ymarferoldeb yn adnabod pa rwystrau a gweithdrefnau fydd eu hangen ar gyfer sefydlu newidiadau pell gyrhaeddol o ran ymddygiad pobl. Gydol cyfnod y Cynllun, caiff ymgyrchoedd lleihau sbwriel eu lansio'n llwyddiannus a chaiff eu heffaith ei fonitro.<br><br>Cynnal astudiaethau canfyddiad i fesur barn pobl am sbwriel yn yr ardal. |
| **A1.4. Lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r tirwedd.** | 6 | › Llunio arolwg o drafnidiaeth cyhoeddus a pharcio yn ardaloedd yr Wyddfa ac Ogwen er mwyn llunio a gweithredu argymhellion<br>› Sefydlu a chytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer gweithgor trafnidiaeth a pharcio i Eryri<br>› Gweithio gyda phartneriaid i geisio canfod dulliau teithio mwy gwyrdd.<br>› Gweithio gyda thirfeddianwyr i adnabod meysydd parcio ychwanegol sydd yn gymwys o fewn y tirwedd, yn unol â pholisïau y CDLl ac fel rhan o'r cynlluniau rheoli traffig.<br>› Cynyddu'r wybodaeth am ddewisiadau teithio mwy cynaladwy ar gyfer ymwelwyr<br>› Gweler hefyd polisi A3.1 | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Trafnidiaeth Cymru<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru<br>Llywodraeth Cymru | Bydd gweithgor wedi ei sefydlu erbyn 2022.<br><br>Bydd argymhellion Adolygiad cynhwysfawr Partneriaeth Yr Wyddfa o Barcio a Thrafnidiaeth yn cael eu hehangu i gwmpasu ardal gyfan y Parc Cenedlaethol. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A1.5: Lleihau unrhyw effeithiau negyddol ynghlwm wrth weithgareddau hamdden.** | 6 | › Gweithio gyda phartneriaid perthnasol er mwyn sicrhau agwedd gydlynol ar gyfer sicrhau rheolaeth gynaladwy dros ddigwyddiadau a drefnir<br>› Gweithio o fewn partneriaethau cenedlaethol i rannu arfer da<br>› Cynnal a gweithredu Strategaeth Hamdden i reoli mewn ffordd gynaliadwy unrhyw wrthdaro rhwng grwpiau defnyddwyr<br>› Mynd i'r afael â gweithgareddau gyrru oddi ar y ffordd anghyfreithlon neu niweidiol trwy weithio gyda grwpiau defnyddwyr cyfreithlon ac Uned Troseddau Gwledig Heddlu Gogledd Cymru, i annog defnydd cynaliadwy o'r rhwydwaith<br>› Rhoi sylw i fynediad a gwersylla heb awdurdod er mwyn rhwystro ardaloedd a ddiogelir rhag dirywio<br>› Hwyluso perthnasoedd gwaith da rhwng defnyddwyr a rheolwyr tir e.e. tanlinellu peryglon cŵn oddi ar dennyn a gweithgareddau amhriodol eraill.<br>› Hybu'r Côd Morol, a monitro effeithiolrwydd.<br>› Gweler hefyd Canlyniad B5 | APCE<br>CNC<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cymdeithas Eryri<br>ACA Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS)<br>Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Conwy a Gwynedd | Erbyn diwedd 2020 bydd diweddariad o 'Canllawiau ar gyfer Digwyddiadau Cystadleuol, Hamdden ac Elusen a drefnir o fewn y Parc Cenedlaethol' ar gael ar wefan APCE, gyda mewnbwn oddi wrth bartneriaid perthnasol. Mae'r Partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â digwyddiadau anghyfreithlon a bydd prosesau ar y gweill i ystyried opsiynau ar gyfer safleoedd ACA gyda nodweddion penodol yn cael eu cofnodi fel rhai 'anffafriol' oherwydd effaith y gweithgareddau hamdden. |

# BIOAMRYWIAETH

Rydym yn ymfalchïo mewn diogelu rhywogaethau prin a phwysig a llawer o ardaloedd cadwraeth dynodedig o fewn Eryri. Ond mae'r dirywiad cynyddol mewn bioamrywiaeth, nid yn unig yn y Parc Cenedlaethol ond ledled Prydain ac yn fyd eang, yn dod yn fwy amlwg o hyd. Mae'r ffactorau sydd yn cyfrannu tuag at hyn yn cynnwys newid hinsawdd, rhywogaethau ymledol a rhai arferion rheolaeth tir.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri eisoes yn gweithio'n agos gyda nifer o sefydliadau sy'n bartneriaid er mwyn gweithredu ystod o brosiectau yn y maes hwn, megis: Statws Gwarchodfa Awyr Dywyll, Cynllun Rheoli Cynaladwy (SMS) Afon Eden, SMS Uwch Gwyrfai, SMS Mawdiroedd Cymru, Buzz Eryri, Cynllun Deorfa Eryri, Cynlluniau'r Grid Cenedlaethol, a'r Bartneriaeth Rhododendron yn ogystal â 3 brosiect mawr newydd sef Partneriaeth Tirwedd y Carneddau (hyd at 2024), phrosiect Fforestydd Glaw Celtaidd LIFE (hyd 2025) a LIFE Afon Ddyfrdwy (hyd 2025). Gan mai 0.5% yn unig o'r tir y mae'n gofalu amdano sydd yn eiddo'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid er mwyn cydlynu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol gyda phwyslais ar gynnal, adnewyddu ac ehangu cynefinoedd, rhywogaeth, nodweddion amgylcheddau hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach.

## CANLYNIAD A2

## CYNNAL A GWELLA BIOAMRYWIAETH A CHYNYDDU CADERNID ECOSYSTEMAU.

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o’r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A2.1. Cydlynu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol yn canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion hanesyddol yr amgylchedd a nwyddau cyhoeddus ehangach.** | 1, 6, 7, 8 & 9 | › Dod â’r rhanddeiliaid at ei gilydd i ffurfio consensws<br>› Diffinio nwyddau cyhoeddus Eryri<br>› Llunio datganiad uchelgais<br>› Ymgymryd â’r broses enfawr o fapio tir a chreu’r darlun presennol o'r holl gynefinoedd o fewn y Parc Cenedlaethol<br>› Ymchwilio defnydd tir a phatrymau newid er mwyn gallu llunio gwell penderfyniadau<br>› Asesu beth sydd wedi llwyddo/heb fod yn llwyddiant mewn cynlluniau rheoli tir blaenorol<br>› Creu a mireinio cynllun nwyddau cyhoeddus<br>› Diffinio rôl partneriaid yn y gwaith o weithredu’r cynllun<br>› Uwch sgilio’r gweithlu lleol er mwyn cyflawni’r cynllun yn llwyddiannus | Llywodraeth Cymru a’r holl bartneriaid<br><br>*Yn ddibynnol ar ganlyniadau ymgynghoriad Ffermio Cynaladwy a’n Tir Ni a thrafodaethau Brexit* | Erbyn diwedd 2025 rydym yn anelu at sefydlu fforwm a datganiad uchelgais cyffredinol. Byddwn wedi lunio cofrestr asedau o nwyddau cyhoeddus ac yn mapio tir. Byddwn yn ystyried arferion rheoli tir presennol a blaenorol, yn asesu eu cryfderau er mwyn creu a mireinio cynllun nwyddau cyhoeddus y bydd y bartneriaeth yn hyderus i’w gweithredu |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o’r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A2.2. Delio gyda dirywiad mewn bioamrywiaeth trwy gynnal, adfer, ehangu a chysylltu.** | 1, 4, 7, 8 & 9 | > Gwneud y mwyaf o gyfleoedd ariannu er mwyn sicrhau bod buddsoddiad yn cyrraedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a thargedau cynefinoedd a rhywogaethau Adran 7<br>> Gweithio mewn Partneriaeth i gytuno ar weithdrefnau pori addas lle byddant yn hanfodol ar gyfer cynnal/adfer nodweddion cymwys safleoedd ACA, AADd a Ramsar i statws cadwraeth ffafriol e.e. ACA Eryri fel ardal flaenoriaeth<br>> Bydd gofynion rheoli penodol ar gyfer safleoedd a ddiogelir yn genedlaethol ac ar lefel Ewrop<br>> Cydlynu cynhyrchiad o Cynllun Gweithredu Adferiad Natur (NRAP) ar gyfer Eryri i gynnwys y data mwyaf diweddar a thargedau bioamrywiaeth penodol.<br>> Mae gweithgareddau dehongli yn annog deall a diogelu bioamrywiaeth ymysg cymunedau lleol ac ymwelwyr<br>> Sefydlu Partneriaeth Natur Leol i arwain ar faterion bioamrywiaeth ar gyfer Eryri | APCE<br>CNC<br>Llywodraeth Cymru<br>Yr holl bartneriaid perthnasol | Gydol y Cynllun bydd prosiectau dynodedig yn cael eu dilyn hyd y diwedd a llunir adroddiadau arnynt fel bo’n addas, gan dargedu gofynion rheoli safleoedd a ddiogelir a rhywogaethau a chynefinoedd Adran 7. Lle bo hynny’n bosibl, bydd Cytundebau Rheoli Tir mewn lle erbyn 2025.<br>Erbyn 2020 bydd Swyddog Bioamrywiaeth wedi ei benodi fel pwynt canolog ar gyfer gweithgareddau dehongli, a chyd-lynnu ac yn gweithio ochr yn ochr gyda swyddogion prosiectau penodol.<br>Erbyn 2022 bydd Partneriaeth Natur Leol wedi'i sefydlu a bydd NRAP wedi'i chynhyrchu drwy bartneriaeth ar draws y Parc. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o’r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A2.3: Sicrhau bod ansawdd dŵr a’r amgylchedd morol yn cael eu cynnal a’u gwella.** | 1 & 9 | › Gwella ansawdd dŵr trwy fonitro, gorfodi, addysgu a gwella arferion rheoli tir<br>› Defnyddio’r drefn cynllunio i ddiogelu ansawdd dŵr<br>› Cefnogi grwpiau lleol sydd yn gweithio i wella ansawdd dŵr e.e. prosiect Tir Afon a gwaith Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a’r Sarnau<br>› Parhau i gefnogi chynghori prosiectau LIFE a HLF sydd yn anelu at wella safleoedd dŵr croyw a dŵr morol o fewn y Parc Cenedlaethol | CNC<br>Dŵr Cymru<br>ACA Pen Llŷn a’r Sarnau (PLAS)<br>APCE<br>Llywodraeth Cymru | Caiff ein prosiect Afon Eden ei ddilyn i’r diwedd a chaiff statws y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) ei gynnal a’i wella ar draws y Parc. Erbyn diwedd 2020 bydd y CDLl yn cynnwys testun perthnasol i ansawdd dŵr mewn datblygiadau newydd. |
| **A2.4: Adfer, ehangu a gwella maint ac amrywiaeth o ran rhywogaethau coed a choedlannau cynhenid** | 1 & 9 | › Mapio coed a choedlannau hynafol<br>› Parhau i ddatblygu cynlluniau plannu addas o fewn y Parc<br>› Ailgysylltu ardaloedd coediog sydd wedi eu darnio<br>› Cynyddu nifer y coed brodorol ar dir sydd yn eiddo’r Parc Cenedlaethol<br>› Archwilio’r posibilrwydd o sefydlu arboretwm brodorol<br>› Annog rheolaeth o’r radd flaenaf dros goetiroedd presennol er mwyn diogelu eu cyflwr ecolegol | APCE<br>Coed Cadw<br>Coed Cymru<br>Undebau Amaethyddol<br>CNC<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>RSPB<br>Dŵr Cymru<br>Llywodraeth Cymru | Trwy gyfrwng nifer o brosiectau a gynllunir dros y pum mlynedd nesaf, caiff safleoedd eu harchwilio o safbwynt cymhwyster ac addasrwydd a chyflwynir adroddiadau arnynt. Caiff cynlluniau plannu eu datblygu.<br>Bydd prosiect Fforestydd Glaw Celtaidd LIFE yn arwain ar nifer fawr o’r amcanion hyn hyd 2025. Bydd adolygiad i weld beth sydd wedi ei ddysgu wedi digwydd erbyn diwedd 2025. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A2.5: Sicrhau nad yw unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â rheolaeth yn cael unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safle (oedd) Ewropeaidd, SoDdGA, a nodweddion gwarchodedig ardaloedd eraill.** | 1 & 9 | > Mae pob prosiect - naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill - yn destun asesiad yng ngoleuni'r fframwaith deddfwriaethol perthnasol sy'n berthnasol. | Pob Partner | Bydd unrhyw botensial ar gyfer effeithiau andwyol ar nodweddion a ardaloedd gwarchodedig yn y Parc Cenedlaethol o weithgareddau rheoli generig yn destun asesiad llawn unwaith y bydd y manylion ar gael a chyn i unrhyw waith ddechrau. |

# NEWID HINSAWDD

Mae modelau newid hinsawdd yn rhagweld y bydd Eryri yn gweld cyfnodau hirach o sychder a gwres yn yr haf, a glaw trwm, stormydd a thywydd mwynach yn y gaeaf. Gall y newidiadau hyn effeithio ar allu'r Parc Cenedlaethol i gynnal rhai o'i Rinweddau Arbennig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ac hefyd wedi ymrwymo i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Bydd yn ofynnol i ni i gyd ail werthuso ein ffordd o fyw a gweithio. Mae Cynllun Eryri yn gosod allan ein targedau ar gyfer lleihau a dadleoli allyriadau carbon a briodolir i'r ardal, ond hefyd yn cynllunio mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau newid hinsawdd.

## CANLYNIAD A3

## RYDYM WEDI PARATOI AR GYFER EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD AC YN LLEIHAU EIN HÔL TROED CARBON.

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A3.1. Lleihau allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri** | 1, 2, 6, 8 & 9 | › Cyfrannu'n broactif tuag at gynllun gweithredu lleihau allyriadau Llywodraeth Cymru<br>› Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn lleoliadau strategol o fewn y Parc Cenedlaethol<br>› Gweithredu mesurau trafnidiaeth a theithio mwy gwyrdd i leihau allyriadau carbon.<br>› Annog cymunedau i sefydlu eu cynlluniau hwythau.<br>› Hyrwyddo a chefnogi gwelliannau o ran effeithiolrwydd ynni mewn adeiladau newydd a thraddodiadol yn unol â pholisi cynllunio<br>› Partneriaid i asesu cynaladwyedd y prif adeiladau o fewn y Parc Cenedlaethol<br>› Parhau i gefnogi cynlluniau ynni gwyrdd sydd yn eiddo'r cymunedau pan fyddant ar raddfa ac mewn lleoliad addas – yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol<br>› Sefydlu llinellau sylfaen ar gyfer gosod targedau allyriadau yn y dyfodol | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Ynni Cymunedol<br>Cyd Ynni<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cymdeithas Eryri<br>Menter Môn<br>Grŵp Cynefin<br>Adra<br>Datblygiadau Egni Gwledig (DEG)<br>Canolfan Ecoleg a Heidroleg (CEH)<br>Prifysgol Aberystwyth | Bydd llinellau sylfaen ar gyfer mesur allyriadau carbon yn y dyfodol yn cael eu sefydlu erbyn 2023, yn seiliedig ar gyngor gosod targedau gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Erbyn diwedd y Cynllun byddwn wedi cyfrannu'n llwyddiannus tuag at gynllun lleihau allyriadau Llywodraeth Cymru, wedi gosod rhagor o bwyntiau gwefru cerbydau trydan a - trwy gyfrwng ceisiadau cynllunio - wedi monitro nifer y cartrefi sydd yn uwchraddio i ddulliau ynni adnewyddol newydd. Gweler hefyd bolisi B4.1 ar gyfer dulliau gwella trafnidiaeth |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A3.2. Diogelu a chynyddu swm y carbon a gedwir yn Eryri** | 8 & 9 | › Parhau i ddefnyddio a gwella dalfeydd carbon naturiol o fewn y Parc Cenedlaethol<br>› Lleihau a - lle bo'n bosibl – cildroi erydiad a diraddiad mawndiroedd, gan gynnwys cau ffosydd yn yr ucheldiroedd ac adfer mawndir amaethyddol yn yr ardaloedd ïs<br>› Sicrhau ymrwymiad hirdymor i goetiroedd amrywiol a reolir yn dda<br>› Ymchwilio i wrthbwyso carbon a chwilio am gefnogaeth ariannol er mwyn gwrthbwyso carbon<br>› Annog cynnal tir glas parhaol ac osgoi aflonyddu ar bridd | APCE<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA)<br>Undeb Amaethwyr Cenedlaethol (NFU)<br>Undeb Amaethwyr Cymru(FUW) | Erbyn diwedd 2022, byddwn wedi cynyddu nifer y prosiectau Côd Mawndir a Chôd Coed a Choetiroedd a gefnogir gennym. Gydol cyfnod y Cynllun bydd APCE yn monitro camau adfer mawndir, yn gofalu am blannu coetiroedd mewn safleoedd addas ac hefyd yn monitro cyflwr coetiroedd presennol ac yn gwella cynefinoedd gwrychoedd, yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth i gynghori ar ddulliau pori addas. |
| **A3.3. Gweithredu mesurau lliniaru newid hinsawdd** | Y Cyfan | › Archwilio'r posibilrwydd o fabwysiadu trefn Indecs Peryglon Hinsawdd (CVI) o ran asedau naturiol a diwylliannol y Parc Cenedlaethol<br>› Sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal i safon fydd yn gwrthsefyll amlder stormydd trwy Bolisi A1.2 | APCE<br>Yr holl bartneriad perthnasol | Erbyn diwedd 2021 byddwn yn gweithio gyda Thirweddau Dynodedig eraill sydd eisoes yn defnyddio dulliau CVI, i fapio asedau a llunio astudiaeth posibilrwydd o fewn y Parc Cenedlaethol. Caiff ein llwybrau ucheldir eu monitro yn gyson ar gyfer manylebau newydd neu uwchraddedig. |

# RHYWOGAETHAU YMLEDOL

Mae rhywogaethau ymledol anfrodorol (INNS) yn broblem fyd-eang. Hwy sydd yn bennaf gyfrifol am ddiflaniad a diraddiad cynefinoedd. Gyda'r cynnydd a ddisgwylir mewn tymheredd yn sgil Newid Hinsawdd, mae'n debygol iawn y bydd rhywogaethau ymledol yn dod yn fwy o broblem. Gall effeithiau gwleidyddol Brexit hefyd ychwanegu at yr heriau arwyddocaol hyn.

Gall arolygon a phartneriaethau newydd sydd ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn gynnig arweiniad ar gyfer diogelu'r cynefinoedd a'r rhywogaethau gwerthfawr sydd yn amlwg yn ein hardal. Mae Cynllun Eryri yn amlinellu'r modd y caiff y rhai hyn eu datblygu a'u hatgyfnerthu dros y 5 mlynedd nesaf.

## CANLYNIAD A4

**MAE ERYRI AR FLAEN Y GAD YN RHYNGWLADOL O RAN MYND I'R AFAEL YN LLWYDDIANNUS Â RHYWOGAETHAU, PLA A HEINTIAU YMLEDOL.**

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o’r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A4.1. Codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o’r modd y gallant gymryd camau i rwystro rhywogaethau ymledol rhag sefydlu ac ehangu** | 5 & 9 | › Sicrhau bod gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol sydd yn mynd i’r afael â rhywogaethau ymledol yn deall natur y problemau ac yn defnyddio dulliau ystyrlon<br>› Monitro a chofnodi lleoliad a graddfa rhywogaethau ymledol<br>› Codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o rywogaethau anfrodorol (INNS) ar y tir, mewn dŵr croyw ac yn nŵr y môr a’r effaith a gânt | APCE<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cymdeithas Eryri<br>Prifysgol Bangor<br>ACA PLAS<br>Coed Cadw<br>Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru<br>Prifysgol Aberystwyth<br>Cofnod<br>Gweithgor Rhywogaethau Ymledol Anfrodorol Cymru | Cofnodir gostyngiad yn nifer a chwmpas daearyddol rhywogaethau goresgynnol.<br>Bydd digwyddiadau addysgol wedi eu trefnu gyda grwpiau penodol a bydd arolygon adborth yn cael eu monitro ar gyfer gwelliannau yn y ddarpariaeth. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A4.2. Parhau i ehangu gwaith presennol y Bartneriaeth er mwyn rheoli a lleihau graddfa rhywogaethau ymledol** | 5 & 9 | > Parhau gyda gwaith Partneriaeth *Rhododendron ponticum* trwy weithredu'r Cynllun Partneriaeth Rhododendron<br>> Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag ymlediad Rhododendron, Jac y Neidiwr a Chlymog Japan yn ogystal ag eraill gaiff eu blaenoriaethu neu a ddaw i'r amlwg<br>> Sicrhau bod cyfarwyddyd clir a chadarn ar gyfer adrodd am unrhyw fygythiadau posibl | APCE<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cymdeithas Eryri<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>CLA<br>NFU<br>FUW<br>Llywodraeth Cymru<br>Coed Cadw | Gydol cyfnod y Cynllun byddwn yn cefnogi camau'r Bartneriaeth ac yn sicrhau lleihad yn y gorchudd gan rywogaethau ymledol.<br>Caiff y canllawiau ym Mesurau Rheoli ar gyfer Rhywogaethau Ymledol sydd wedi lledaenu'n eang gan DEFRA eu dilyn yn ofalus, a chaiff y cyhoedd eu diweddaru trwy gyfrwng y wê ac ymgyrchoedd addysgiadol pan / os bydd angen.<br>Bydd adolygiad i weld beth sydd wedi ei ddysgu wedi digwydd erbyn diwedd 2025. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A4.3. Ehangu ar y camau er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw haint neu bla sydd yn effeithio ar rywogaethau brodorol** | 5 & 9 | › Cefnogi cynllun bioddiogelwch morol Pen Llŷn a'r Sarnau<br>› Cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu gwaith i atal ymlediad a heintiau eraill sydd yn bresennol neu yn dod i'r amlwg | PLAS<br>CNC<br>Llywodraeth Cymru<br>APCE<br>Coed Cymru<br>Coed Cadw<br>Undebau ffermio | Trwy weithio mewn Partneriaeth byddwn yn gweld cyhoeddi manylion am leihâd mewn achosion ac am iechyd planhigion.<br>Bydd adolygiad i weld beth sydd wedi ei ddysgu wedi digwydd erbyn diwedd 2025. |

## ENNYN DIDDORDEB POBL MEWN DIOGELU'R AMGYLCHEDD

Rydym yma fel Partneriaeth i warchod Eryri. Heb ennyn diddordeb pobl ym mhwysigrwydd hyn, ni allwn lwyddo. Ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain. Mae llwyddiant ein hymgyrch yn gorwedd yn ein gallu i gysylltu gyda'n cynulleidfa darged ac ennyn eu diddordeb yn y fath fodd fel eu bod yn cael eu gwefreiddio – i'n helpu ni i warchod Rhinweddau Arbennig a gwerthfawr y Parc Cenedlaethol hwn. Mae ein Cynllun yn dangos sut y bwriadwn wneud hyn yn well byth dros y pum mlynedd nesaf.

### CANLYNIAD A5

**CYMUNEDAU, BUSNESAU AC YMWELWYR YN CHWARAE RHAN WEITHREDOL MEWN GWARCHOD TIRWEDDAU, CYNEFINOEDD, BYWYD GWYLLT A THREFTADAETH DDIWYLLIANNOL Y PARC CENEDLAETHOL.**

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A5.1. Chwilio am gyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anhygyrch a grwpiau difreintiedig ymddiddori a dysgu am amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a'r modd y gallant hwy helpu i ofalu amdanynt.** | 2, 5 & 9 | › Gwerthuso'r cyfleoedd sydd gennym ar gyfer cymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anhygyrch a difreintiedig ac ehangu ar y cynnig.<br>› Codi ymwybyddiaeth ynghylch effeithiau erydu a'r hyn y gall cerddwyr ei wneud i helpu.<br>› Ennyn diddordeb busnesau a chymunedau mewn cynorthwyo yn y gwaith o leihau effaith goleuni ar yr awyr dywyll a bioamrywiaeth | APCE<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Partneriaeth Awyr Agored<br>CNC<br>Cymdeithas Eryri<br>Ramblers Cymru<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru(CGGC)<br>Cynghorau Gwirfoddol Cymru (CGC)<br>Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) | Erbyn diwedd 2021 byddwn wedi sefydlu gwaelodlin perthynas gyda phob grŵp, ac wedi gweithio gyda'n Cydlynydd gwirfoddoli a'r Swyddog Awyr Dywyll i ehangu gwelededd y Parc Cenedlaethol ym mhob ardal.<br><br>Bydd adolygiad yn cael ei gynnal cyn 2025 i werthuso llwyddiant. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A5.2. Cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli fydd o gymorth i ddiogelu a gwella'r amgylchedd a'r dreftadaeth ddiwylliannol.** | 2, 5 & 7 | > Parhau i ddatblygu ac ehangu'r cynllun Parcmyn Ifanc (Young Rangers)<br>> Archwilio cysylltiad gydag ysgolion lleol er mwyn cynnig cyfleoedd Bagloriaeth Cymru ar gyfer Cyfnodau Allweddol 4 & 5 ac elfennau gwirfoddoli Cynllun Gwobr Tywysog Cymru<br>> Ymchwilio cydweithio gyda chynlluniau dychwelyd i'r gwaith er mwyn cynyddu ymhellach cyfleoedd i breswylwyr ddod i gysylltiad â'r Parc | APCE<br>Partneriaeth Awyr Agored<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>CNC<br>Cymdeithas Eryri | Bydd wardeniaid APCE a'r Cydlynydd Gwirfoddoli yn arwain ar yr elfennau hyn gan adrodd yn ôl i'r Awdurdod yn flynyddol er mwyn mesur cynnydd.<br>Bydd cynnydd yn nifer y gwirfoddolwyr yn cael ei gofnodi. |
| **A5.3. Darparu mesurau o dan Ganlyniad B3 a fydd – trwy wybodaeth, marchnata a brandio – yn cynnwys rhanddeiliaid fwyfwy yn y gwaith o ofalu am amgylchedd y Parc Cenedlaethol.** | 8 & 9 | > Gweler camau o dan Ganlyniad B3 | Gweler Canlyniad B3 | Gweler Canlyniad B3 |

# TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL A'R AMGYLCHEDD HANESYDDOL

**Mae treftadaeth ddiwylliannol a hunaniaeth Eryri mor arwyddocaol â'r tirwedd a bioamrywiaeth. Mae ein treftadaeth ddiwylliannol wedi esblygu dros ganrifoedd o gydweithio rhwng dyn a'r tir trwy gyfrwng amaethyddiaeth, chwarelydda a chloddio yn ogystal â'i gysylltiadau anniriaethol trwy chwedlau, storïau ac enwau penodol.**

Bwriad Cynllun Eryri yw chwilio am ddealltwriaeth ddyfnach a gwarchodaeth bellach i'r asedau hyn sydd  yn ganolog i'n ffordd o fyw.

## CANLYNIAD A6

**MAE ERYRI YN ENGHRAIFFT ARWEINIOL YNG NGHYMRU O'R MODD I OFALU AM Y DREFTADAETH DDIWYLLIANNOL A'R AMGYLCHEDD HANESYDDOL A'U HYRWYDDO.**

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o’r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A6.1. Cefnogi trwsio ac adfer adeiladau rhestredig** | 8 | > Archwilio ffynonellau cyllid sydd ar gael i gefnogi trwsio ac adfer, cymeriad hanesyddol a hanes lleol.<br>> Defnyddio arolwg Cadw (bob 5 mlynedd) o gyflwr adeiladau rhestredig er mwyn darparu cyllid wedi ei dargedu ar gyfer adeiladau sydd mewn perygl<br>> Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi a datblygu sgiliau traddodiadol yn lleol; bydd hyn yn ei dro o gymorth i wella cyflwr adeiladau hanesyddol<br>> Bydd Partneriaeth y Carneddau yn gweithredu ar y naw prif thema yn ei phrosiect sydd yn cynnwys treftadaeth naturiol a diwylliannol y rhanbarth<br>> Archwilio’r posibilrwydd o weithredu methodoleg Peryglon Hinsawdd ar asedau naturiol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol yn unol â pholisi A3.2 | APCE<br>Cadw<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Amgueddfa Lechi Cymru<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Grwpiau Hanes Lleol a Grwpiau Archeoleg<br>Enwebiad Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru<br>Grŵp Llywio’r Bartneriaeth a phartneriaid perthnasol | Byddwn yn sicrhau lleihâd yn nifer yr adeiladau rhestredig sydd mewn perygl seiliedig ar arolwg Cadw, ac yn gweithio gyda’n partneriaid i ddatblygu strategaeth ar gyfer gweithdai sgiliau traddodiadol.<br>Bydd prosiectau penodol yn ystyried defnydd a dehongliad addas mewn adrannau dynodedig o’n amgylchedd hanesyddol. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A6.2. Cefnogi perchnogion Henebion Cofrestredig i'w diogelu yn well** | 8 | › Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ffynonellau cyllid addas ar gael<br>› Defnyddio bas data Cadw ar gyflwr henebion, gweithio gyda phartneriiad i sefydlu rhaglenni gwaith wedi eu blaenoriaethu i wella cyflwr a (lle bo'n addas) mynediad a dehongli mewn henebion cofrestredig. | APCE<br>Cadw<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cyngor Gwynedd<br>Grwpiau Hanes Lleol a Grwpiau Archeoleg | Gydol cyfnod y Cynllun byddwn yn sicrhau bod y bas data presennol yn cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu cyllid a rhaglenni gwaith dynodedig. |
| **A6.3. Datblygu a gweithredu prosiectau graddfa tirwedd sydd o fantais i'r amgylchedd hanesyddol** | 8 | › Datblygu prosiectau fydd yn gwella mynediad i'r amgylchedd hanesyddol, teimlad o le ac ardaloedd cadwraeth dynodedig o fewn y Parc Cenedlaethol<br>› Parhau i ddatblygu prosiectau fydd yn gwella cymeriad trefol o fewn y Parc Cenedlaethol<br>› Cydweithio ar flaenoriaethau allweddol a phrosiectau ar y cyd yn ymwneud â Harlech yng Nghynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd ' Cestyll a Muriau Trefol y Brenin Edward yng Nghymru'<br>› Cydweithio ar flaenoriaethau allweddol yn ymwneud â'r Parc Cenedlaethol wrth enwebu 'Diwydiant Llechi Tirwedd Diwylliannol Gogledd Cymru' ar gyfer Rhestr Safleoedd Treftadaeth y Byd | APCE<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cadw<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Grwpiau Hanes Lleol a Grwpiau Archeoleg | Erbyn 2021 byddwn wedi sefydlu Fframwaith Monitro Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol, ac wedi cwblhau ail gyfnod Menter Treftadaeth Trefwedd Dolgellau.<br>Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn cydweithio ar flaenoriaethau allweddol yn ymwneud â Threftadaeth Ddiwylliannol o fewn y Parc Cenedlaethol ac ar ei gyrion.<br>Bydd Partneriaeth y Carneddau yn gweithredu ar y naw prif thema yn ei phrosiect sydd yn cynnwys treftadaeth naturiol a diwylliannol y rhanbarth. |

# TIRWEDD A THAWELWCH

Mae harddwch naturiol a thawelwch Eryri yn rhan annatod o'i Rhinweddau Arbennig. Cafodd tirwedd heddiw ei lunio gan filenia o brosesau naturiol a dylanwadau dynol, ac mae yn dirwedd sydd yn byw ac yn anadlu. Mae pwysau gan weithgareddau hamdden, newid hinsawdd, seilwaith anaddas a datblygiadau yn debygol o niweidio nodweddion arbennig yr ardal.

Nôd Cynllun Eryri yw ceisio diogelu a chyfoethogi tirwedd yr ardal trwy nifer o fesurau proactif.

## CANLYNIAD A7

## MAE EIN RHINWEDDAU ARBENNIG WEDI EU DIOGELU'N DDA.

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A7.1. Trwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Lleol, gwella gosodiad a sicrhau lleoliad addas i ddatblygiadau yn y tirwedd** | 1 & 5 | › Sicrhau bod natur, lleoliad a gosodiad, uchder, ffurf a graddfa'r datblygiad yn cydweddu gyda maint a chymeriad y safle a'r ardal y lleolir ef ynddi.<br>› Gwarchod Safleoedd Treftadaeth Byd dynodedig a rhai yn yr arfaeth e.e. Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru<br>› Defnyddio Canllawiau Cynllunio Atodol: Tirweddau a Morweddau Eryri, Canllawiau Cynllunio Atodol: Asesu Sensitifrwydd a Gallu Tirwedd ac adnodd LANDMAP i asesu effaith ceisiadau cynllunio ar y tirwedd<br>› Penodi Pensaer Tirwedd i gynorthwyo swyddogion Rheoli Datblygu i asesu effaith ceisiadau cynllunio ar y tirwedd | APCE | Caiff Pensaer Tirwedd ei benodi cyn diwedd 2020.<br>Bydd canllawiau yn y CDLl – cânt eu monitro yn flynyddol a defnyddir hwy i asesu ceisiadau cynllunio. |
| **A7.2. Trwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Lleol, sicrhau bod datblygiadau mawr newydd yn diogelu'r golygfeydd i mewn i'r Parc Cenedlaethol ac allan ohono** | 1 & 5 | › Sicrhau bod unrhyw gynnig am ddatblygiad mawr yn cael ei archwilio yn drwyadl - hyn yn cynnwys asesiad o'r effaith ar bwrpasau'r Parc Cenedlaethol.<br>› Ystyried y dirwedd ac effaith weledol cynigion sydd gerllaw ffin y Parc Cenedlaethol a'r modd y gall y rhain effeithio ar bwrpasau'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys y golygfeydd i mewn i'r Parc Cenedlaethol ac allan ohono | APCE | Bydd canllawiau yn y CDLl a bydd APCE yn gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau cyfagos er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A7.3. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys canllawiau clir ynghylch seilwaith anaddas ar gyfer datblygiadau mawr, megis ceblau ynni uwchlaw daear o fewn y ffin, ac yn annog - lle bo hynny'n bosibl -tanddaearu ceblau presennol sydd wedi eu lleoli yn anaddas** | 1 & 5 | › Mae'r CDLl yn cynnwys polisi sydd yn rhwystro datblygiadau mawr anaddas o fewn y Parc Cenedlaethol<br>› Annog tanddaearu llinellau sydd uwchlaw'r ddaear<br>› Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'r Grid Cenedlaethol i leihau effaith weledol llinellau uwchlaw daear o fewn y Parc Cenedlaethol<br>› Bydd yr Awdurdod yn caniatáu datblygiadau telegyfathrebu cyn belled na fyddant yn niweidio amwynder gweledol a chymeriad tirwedd yr ardal<br>› Annog gweithredwyr telegyfathrebu i liniaru a/neu leihau effeithiau llinellau trosglwyddo presennol – defnyddio seilwaith cyfathrebu sydd yn addas i'r tirwedd<br>› Mae'r Awdurdod yn annog:<br>- Defnyddio safleoedd sydd yn amgylcheddol dderbyniol,<br>- Rhannu safle, mast, tŵr neu unrhyw strwythur sydd yno eisoes a<br>- Rhannu sianel tanddaearol sydd yno'n barod neu wedi ei chynllunio gyda darparwr arall<br>› Disgwylir bod y mast, antenâu ac unrhyw strwythur arall wedi eu dylunio'n dda ac yn cynrychioli'r opsiwn amgylcheddol gorau, yn ymarferol ac yn amgylcheddol | APCE | Bydd canllawiau yn y CDLl ar gyfer gwell tirlunio mewn datblygiadau presennol a newydd |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **A7.4. Trwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Lleol, sicrhau bod goleuo yn y datblygiadau newydd yn cymryd i ystyriaeth statws Gwarchodfa Awyr Dywyll Rhyngwladol a Diogelu a Gwella Safleoedd Daearegol a Geomorffig Rhanbarthol Pwysig (RIGS) a geoamrywiaeth yn gyffredinol** | 1, 5 & 8 | › Trwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Lleol a'r canllawiau Cynllunio Atodol ar oleuadau ymwthiol, sicrhau na fydd y cynigion yn cael effaith niweidiol ar y Warchodfa Awyr Dywyll<br>› Gweithredu'r polisïau hynny yn y CDLl sydd yn sicrhau nad yw cynigion datblygu yn cael effaith niweidiol ar nodweddion daearegol o bwys(RIGS) | APCE | Mae'r canllawiau yn y CDLl |
| **A7.5. Meithrin gwell dealltwriaeth o Rinwedd Arbennig llonyddwch ac unigedd** | 1 & 5 | › Ymchwil a chymhwyso methodoleg newydd o fesur llonyddwch o fewn y Parc Cenedlaethol.<br>› Diffinio llonyddwch fel y'i cymhwysir i Barc Cenedlaethol Eryri trwy gynnwys yn yr arolwg ymwelwyr a thrigolion i ddarganfod profiad llonyddwch yn Eryri<br>› Parhau i gysylltu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i annog gostyngiadau yn nifer y gweithgareddau hedfan isel sy'n digwydd dros Eryri | APCE | Bydd methodolegau newydd wedi cael eu hystyried a'u cynnwys ym mhroses fapio'r a diogelu'r rhinwedd arbennig hwn.<br>Cyflawnir diffiniad o dawelwch a dealltwriaeth o brofiad defnyddwyr o'r Rinwedd Arbennig hwn trwy arolwg defnyddwyr.<br>Bydd cyfarfodydd cyswllt wedi digwydd yn rheolaidd. |
| **A7.6. Sefydlu cofrestr risg ar gyfer asedau diriaethol ac anghyffyrddadwy'r Parc Cenedlaethol.** | Y cyfan | › Cynnal ymarfer o gadw cofrestr risg gan groesgyfeirio â Pholisi A3.3, gan sicrhau y rhagflaenir parodrwydd a mesurau lliniaru.<br>› Gweithio gyda phartneriaid allweddol i ystyried gwersi o bandemig COFID-19. | APCE | Erbyn 2022 bydd cofrestr risg ar gyfer asedau diriaethol ac anghyffyrddadwy'r Parc Cenedlaethol wedi cael ei chynhyrchu. |

# IECHYD A LLESIANT YN ERYRI

## MAE ERYRI YN DARPARU CYFOETH O GYFLEOEDD AR GYFER DYSGU A DARGANFOD AC YN GWELLA LLES EIN CENEDL AR YR UN PRYD

### Ble'r ydym yn awr?

- Ystyrir bod 80.5% o'r bobl sydd yn byw yn Eryri yn mwynhau iechyd da (o gymharu â 77.7% ar gyfer Cymru gyfan).
- O'r ymwelwyr â Pharc Cenedlaethol Eryri, daw 75% ohonynt yno i fwynhau'r dirwedd, cefn gwlad neu'r traethau.
- Mae cynlluniau gwirfoddoli ymarferol fel y rhai a gydlynir gan Gymdeithas Eryri yn annog y rhai nad ydynt o bosibl yn arfer mynd i'r Parc i wneud hynny.
- Mae bron 700, 000 o'r boblogaeth leol o fewn cyrraedd hwylus i'r Parc Cenedlaethol felly mae cyfleoedd sylweddol i ddefnyddio amgylchedd y Parc Cenedlaethol er mwyn gwella iechyd poblogaeth Gogledd Cymru.
- Mae gwefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cynnwys bron 2 filiwn o ymweliadau tudalen yn y flwyddyn ddiwethaf a 1.3 miliwn o'r rhai hynny yn ymweliadau tudalen unigryw.
- Yn 2018-19 cwblhaodd gwirfoddolwyr y Parc Cenedlaethol 1952 diwrnod o waith gwirfoddol a bu 905 o wirfoddolwyr yn helpu i gwblhau prosiectau sy'n gofalu am y Parc Cenedlaethol.

### OND

- Dosberthir 53% o oedolion Gwynedd a Chonwy fel dros bwysau neu yn or-dew.
- Mae gan Ogledd Cymru gyfradd 30% yn uwch na gweddill Cymru o bobl ifanc gydag anhwylderau iechyd meddwl.
- Mae rhai cymunedau yn y Parc Cenedlaethol yn anghysbell ac ymhell oddi wrth wasanaethau ac adnoddau – gall hyn wneud pobl yn unig ac ynysig ac arwain at ddirywiad yn eu cyflwr meddyliol a chorfforol.
- Ar gyfartaledd mae gan Eryri lefel uwch o bobl hŷn na gweddill Cymru.
- Mae ymwelwyr â'r ardal yn aml yn credu mai'r Wyddfa ('Snowdon') a olygir wrth sôn am 'Eryri' (Snowdonia).
- Mae gor-ddefnydd wedi bod ar fannau parcio, trafnidiaeth ac adnoddau mewn safleoedd allweddol yn y Parc Cenedlaethol dros y 5 mlynedd diwethaf, gan roi pwysau sylweddol ar ein preswylwyr.

## Ble'r ydym am fod erbyn 2025?

- Mae'r Parc Cenedlaethol yn cael effaith bositif ar lesiant.
- Gall preswylwyr ac ymwelwyr ddefnyddio nifer o lwybrau yn y Parc Cenedlaethol ac mae hyn yn anelu at wella iechyd corfforol a meddyliol.
- Mae ein Rhinweddau Arbennig yn cael eu cydnabod a'u deall gan gynulleidfa eang.
- Rydym wedi cyflawni opsiynau cynaladwy ar gyfer parcio a thrafnidiaeth.
- Mae ein cyfleusterau ar gyfer ymwelwyr o safon uchel ac yn sensitif i'r amgylchedd.

## Isod fe welwch bob un o'r Canlyniadau hyn wedi eu hegluro mewn mwy o fanylder trwy bolisïau a gweithredoedd, y modd y byddwn yn mesur ein gwaith a phwy fydd yn symud y syniadau hyn yn eu blaenau...

# LLESIANT

**Mae Cymru eisoes wedi gweithredu deddfwriaeth arloesol i hyrwyddo'r modd yr ydym yn byw ein bywydau, ac sydd yn canolbwyntio ar lesiant pobl yn gyffredinol. Mae Parciau Cenedlaethol yn enwedig yn darparu cyfleoedd ar gyfer gwella iechyd meddyliol a chorfforol pobl.**

Mae Cynllun Eryri yn sicrhau y bydd iechyd meddyliol a chorfforol ein cymunedau a'r poblogaeth yn gyffredinol yn gwella trwy fanteisio'n helaethach ar yr amgylchedd hanesyddol.

## CANLYNIAD B1

## MAE'R PARC CENEDLAETHOL YN CAEL EFFAITH BOSITIF AR LESIANT.

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **B1.1: Cynyddu'r gwaith gyda phartneriaid, gwasanaethau iechyd a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus trwy gynlluniau rhagnodedig sydd o fudd i gymdeithas.** | 2 & 5 | > Adnabod cynulleidfaoedd targed<br>> Casglu data ar y rhwystrau y mae'r bobl hyn yn eu wynebu a cheisio cyfleoedd i ddileu'r rhwystrau hyn yn barhaol<br>> Adnabod a hyrwyddo cynlluniau sydd eisoes ar y gweill o fewn y Parc Cenedlaethol<br>> Sefydlu cynlluniau rhagnodedig newydd (ynghŷd â threfn gyfeirio) o fewn ac o amgylch y Parc Cenedlaethol ar gyfer y cynulleidfaoedd targed, yn seiliedig ar ymarfer gorau a chanlyniadau ymchwil | APCE<br>Let's Get Moving Gogledd Cymru<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Ramblers Cymru<br>Partneriaeth Awyr Agored<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>CNC<br>Chwaraeon Cymru<br>Prifysgol Bangor | Erbyn diwedd 2020 byddwn wedi cwblhau'r gwaith ymchwil sydd ei angen ac wedi adnabod cynlluniau i'w hyrwyddo'n eang ar draws y Parc Cenedlaethol.<br>Erbyn diwedd y Cynllun, ein bwriad yw sefydlu cynlluniau cymdeithasol penodol i'w treialu gyda'r Parc Cenedlaethol yn bartner mewn o leiaf un prif gynllun yn gweithio tuag at strategaeth llesiant ffurfiol. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **B1.2: Hyrwyddo a threfnu ystod eang o weithgareddau fydd yn gwella llesiant pobl** | 2 & 5 | > Datblygu adnodd ar-lein yn ymwneud â gweithgareddau a llwybrau o fewn y Parc Cenedlaethol, wedi eu targedu a'u teilwrio ar gyfer y cynulleidfaoedd a ganfyddir o dan Bolisi B1.1<br>> Sicrhau darpariaeth ddigonol o ran mynediad at ddyfroedd mewndirol ar gyfer gweithgareddau dŵr, yn enwedig yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol.<br>> Parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol gan gynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol (gweler hefyd bolisi A5.2)<br>> Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer pobl anabl<br>> Ar gyfer pobl anabl a grwpiau difreintiedig, hyrwyddo gweithgareddau o fewn y Parc Cenedlaethol fydd yn gwella'u dealltwriaeth o'r Rhinweddau Arbennig<br>> Annog cyfleoedd ar gyfer cymdeithasu o fewn yr amgylchedd naturiol | APCE<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Partneriaeth Awyr Agored<br>WCVA<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br>Menter Iaith<br>Amgueddfa Lechi Genedlaethol<br>Ymddiriedolaeth Archeolegol<br>Chwaraeon Cymru | Erbyn diwedd 2021, bydd adnoddau ar gael trwy wefan y Parc Cenedlaethol.<br>Erbyn 2025 bydd Cydlynydd Gwirfoddoli APCE yn adrodd ar y ddarpariaeth gynyddol o gyfleoedd i wirfoddolwyr a bydd tystiolaeth o gynlluniau a phrosiectau perthnasol ar gael. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi B1.3: Cynllunio prosiect yn seiliedig ar y berthynas hir a chyfatebol rhwng pobl Eryri a'r tir** | Y Cyfan | > Casglu grŵp o arbenigwyr yn y maes i adnabod ffyrdd posibl o weithredu'r prosiect hwn<br>> Adeiladu ar waith Partneriaeth Tirwedd y Carneddau sef y Prosiect Hanes Llafar<br>> Hyrwyddo gweithdai gyda nifer o gynrychiolwyr cymunedau er mwyn trafod y dulliau gorau o fynegi'r cysylltiadau cynhenid hyn<br>> Cefnogi a chynghori (fel bo angen) datblygiad y prosiect hyd ei ddiwedd, yn unol â phenderfyniad preswylwyr lleol | APCE<br><br>Holl bartneriaid perthnasol ac aelodau'r gymuned | Erbyn 2021 byddwn yn sicrhau bod sesiwn mapio meddwl wedi digwydd a bod cysylltiadau wedi eu gwneud gyda chynrychiolwyr perthnasol o'r gymuned.<br><br>Ar gyfer dathlu 70 mlynedd ers dynodi Parc Cenedlaethol Eryri, bydd gweithdai wedi eu cynnal a bydd y prosiect wedi ei lansio ac yn cael ei gydlynu hyd ei derfyn. |

## MYNEDIAD

Ar gyfartaledd mae poblogaeth Eryri yn fwy iach ac actif na phoblogaeth Cymru gyfan; fodd bynnag, mae'n eglur bod rhai pobl yn cael eu rhwystro rhag mwynhau a dysgu am Rinweddau Arbennig Eryri oherwydd nam corfforol neu anfantais cymdeithasol. Ein nod yw gwella a hyrwyddo hygyrchedd llwybrau o fewn y Parc Cenedlaethol fel y gall pawb fwynhau a gwerthfawrogi'r hyn sydd yn gwneud Eryri yn eithriadol.

### CANLYNIAD B2

**GALL PRESWYLWYR AC YMWELWYR DDEFNYDDIO AMRYWIAETH O LWYBRAU YN Y PARC CENEDLAETHOL GYDA GOLWG AR WELLA IECHYD Y CORFF A'R MEDDWL.**

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o’r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **B2.1. Creu cynllun a chanolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal llwybrau hirion sydd wedi eu diffinio’n glir, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnydd (yn arbennig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), llwybrau a hyrwyddir a llwybrau cyswllt rhwng trefi a phentrefi** | 5 & 6 | › Adnabod cynulleidfaoedd targed ar gyfer llwybrau yn unol â pholisi B1.1<br>› Adolygu Strategaeth Hamdden y Parc Cenedlaethol a sicrhau ei bod yn cyflawni Canlyniad B2 ac yn cynnwys safonau cenedlaethol ar gyfer arwyddion, celfi a hygyrchedd<br>› Ymestyn llwybrau hygyrch trwy symud rhwystrau a chaniatáu mynediad i bawb lle bo’n bosibl, a darparu dewisiadau cyfyngol o leiaf o ran celfi<br>› Llunio arolwg ymhlith pobl leol, rhanddeiliaid ac ymwelwyr er mwyn asesu eu hanghenion a’u gofynion o safbwynt mynediad yn eu hardal leol, ac hefyd unrhyw rwystrau y maent yn eu wynebu wrth fynd allan i’r awyr agored<br>› Yn seiliedig ar y canlyniadau creu cynllun map ar gyfer datblygu llwybrau, gan gynnwys archwilio dewisiadau ar draws y Parc Cenedlaethol mewn ardaloedd megis Bala - Traws, Bala - Dolgellau (yn amodol ar gydymffurfio â gweithred A2.5) a chanfod sut y gellir gwella mynediad ar gyfer pobl anabl i’r safleoedd mwyaf poblogaidd yn y Parc Cenedlaethol<br>› Adnabod ffynonellau arian a dilyn ceisiadau am gyllid er mwyn gwireddu’r cynllun<br>*parhad ar y dudalen nesaf...* | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>CNC<br>Fforymau Mynediad Lleol<br>Cymdeithas Eryri<br>Llwybr Llechi Eryri | Caiff y cynllun gweithredu yn y golofn 'Trosolwg o'r camau' ei weithredu dros y 5 mlynedd nesaf fel bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau erbyn 2025. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o’r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| | | *parhad o'r dudalen flaenorol*<br>› Cefnogwch lwybrau pellter hir sydd eisoes yn bodoli fel Llwybr Llechi Eryri, Ffordd Cambrian, Taith Ardudwy, Ffordd y Pererinion, Cylchdaith yr Wyddfa, Llwybr Gogledd Cymru, Llwybr Arfordir Cymru ayyb. | | |
| **B2.2. Sicrhau bod gwaith Hawliau Tramwy yn cael ei flaenoriaethu’n effeithiol a bod cyfrifoldebau a safonau yn eglur, gydag APCE yn canolbwyntio ei adnoddau ar lwybrau aml-ddefnyddwyr a llwybrau’r ucheldir** | 6 | › Creu cynllun blaenoriaethau a chynnal llwybrau i sicrhau bod adnoddau yn cael eu rheoli yn effeithiol ac wedi eu targedu<br>› Parhau i weithredu’r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Conwy a’i adolygu yn rheolaidd. Cytuno ar MD gyda Chyngor Gwynedd a’i weithredu<br>› Sicrhau bod yr holl bartneriaid sydd yn cwblhau gwaith Hawliau Tramwy o fewn y Parc Cenedlaethol yn gweithio i’r safonau a nodir yn y strategaeth mynediad o dan Bolisi B2.1 | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>CNC<br>Ramblers Cymru | Erbyn diwedd 2021, bydd y Cynllun Cynnal wedi ei lunio a’i weithredu. Bydd cytundebau mewn lle gyda Chyngor Gwynedd.<br>Erbyn diwedd 2022, bydd y ddogfen safonau mewn lle ac wedi ei harwyddo gan bartneriaid penodol.<br>Bydd arolygon system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) yn darparu data mesuradwy ar gyfer rhwydwaith llwybrau Conwy. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **B2.3. Gwella cyfleoedd mynediad ar gyfer pobl anabl a grwpiau sydd wedi eu heithrio o gymdeithas**<br><br>**Gweler hefyd bolisi B2.1** | 5 & 6 | › O ran mynediad i'r Parc Cenedlaethol, ymchwilio i'r rhwystrau a wynebir gan y cyhoedd, gan gynnwys pobl anabl, rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a grwpiau eraill sydd wedi'u hallgáu<br>› Datblygu camau o dan Bolisi B2.1 i wella cyfleoedd mynediad ar gyfer pobl anabl a grwpiau sydd wedi eu heithrio<br>› Gweithio gyda grwpiau targed ac elusennau penodol yng nghyfnod cynnar dylunio'r prif brosiectau mynediad | APCE<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Chwaraeon Cymru | Erbyn diwedd 2025, bydd y gwaith ymchwil wedi ei gwblhau.<br><br>Byddwn yn sicrhau cynnydd mesuradwy yn y ddarpariaeth fydd ar gael erbyn diwedd cyfnod y Cynllun. |

# GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Eryri  yw'r trydydd Parc Cenedlaethol mwyaf adnabyddus ym Mhrydain, ac mae nifer yr ymwelwyr yn cynyddu 2.4%  bob blwyddyn. Er hynny, mae yna ddryswch cyffredinol dros ystyr yr Wyddfa (Snowdon) ac Eryri (Snowdonia), ac mae dealltwriaeth ymwelwyr o Rinweddau Arbennig diwylliannol a hanesyddol y Parc yn gyfyngedig.

I ddathlu'r hyn sydd yn gwneud Eryri yn eithriadol, mae'r Cynllun yn amlinellu strategaeth i hyrwyddo dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r ardal ysbrydoledig hon yn ei chyfanrwydd, a thrwy'r holl dymhorau.

## CANLYNIAD B3

**CAIFF EIN RHINWEDDAU ARBENNIG EU CYDNABOD YN EANG ER MWYN EGLURO PWYSIGRWYDD PARC CENEDLAETHOL ERYRI.**

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **B3.1. Datblygu strategaeth marchnata brand ar gyfer Eryri yn seiliedig ar y Rhinweddau Arbennig a'i gweithredu yn gyson ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat** | Y Cyfan | › Gan ddefnyddio dealltwriaeth a gwybodaeth lleol, creu darlun cadarn a chlir o hunaniaeth ddiwylliannol a hanesyddol y Parc Cenedlaethol<br>› Yn dilyn datblygu egwyddorion ar gyfer Rheoli Ymwelwyr (gweler Polisi A1.1), datblygu strategaeth marchnata/brand ar gyfer Eryri wedi ei seilio ar hyrwyddo a diogelu ei Rhinweddau Arbennig. Dylai'r strategaeth ystyried: 'Brand Cymru' gan Croeso Cymru; cynulleidfaoedd targed a marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg; mynd i'r afael â gorlenwi ac effaith ar yr amgylchedd mewn mannau poblogaidd; pwysleisio elfennau eco a gwyrdd, mwynhâd tawel; manteision yr amgylchedd i lesiant; hyrwyddo diwylliant lleol, yr Iaith Gymraeg, bwyd a diod Cymreig<br>› Creu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol a Dehongli ar gyfer y Parc Cenedlaethol ochr yn ochr â'r brand marchnata (uchod)<br>› Datblygu cyfleoedd ar gyfer gwella profiadau i ymwelwyr trwy gyswllt gydag agweddau hanesyddol a diwylliannol e.e. safleoedd Treftadaeth y Byd, llwybrau llechi, hanes mynydda a hyrwyddo enwau lleoedd Cymraeg a'r iaith Gymraeg.<br>› Datblygu gwybodaeth ac adnoddau fydd yn dathlu safleoedd amlwg mewn llenyddiaeth a diwylliant Cymreig, ac annog parch a dealltwriaeth tuag at yr iaith Gymraeg<br>*parhad ar y dudalen nesaf...* | APCE<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cadw<br>Cyngor y Celfyddydau<br>Menter Iaith<br>Amgueddfa Lechi Genedlaethol<br>Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd | Erbyn diwedd 2021, byddwn wedi gweithio gyda'n partneriaid i greu strategaeth marchnata a brandio newydd yn seiliedig ar wybodaeth leol, a byddwn wedi datblygu strategaeth ddehongli yn sgil hyn.<br>Gan ddefnyddio gwefan wedi ei dylunio o'r newydd a darluniau, sefydlu nifer o brosiectau i gryfhau agweddau hanesyddol, diwylliannol a llenyddol o fywyd yr ardal.<br>Bydd adolygiad o'r brand newydd yn cael ei gynnal erbyn 2025. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| | | *parhad o'r dudalen flaenorol*<br>› Archwilio'r posibilrwydd o lansio cystadleuaeth flynyddol ar gyfer 'Prifddinas diwylliant Eryri' (gan ddefnyddio gwersi o'r model Dinas Diwylliant). Bydd y dref/pentref buddugol yn derbyn arian i hyrwyddo a threfnu gweithgareddau diwylliannol am y flwyddyn<br>› APCE i wella a moderneiddio ei wefan yn unol â'r strategaeth marchnata a brandio newydd<br>› Comisiynu ffotograffau newydd o'r ardal i adlewyrchu egwyddorion y strategaeth marchnata a brandio newydd: fideos cyfryngol; ffilmiau drôn; ffeiliau gpx o lwybrau ayyb. | | |
| **B3.2. Annog ymwelwyr i ddod ar wahanol amseroedd o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleihau'r pwysau yn ystod y cyfnod prysuraf ac er mwyn helpu busnesau i oresgyn anawsterau tymhorol** | Y Cyfan | › Hyrwyddo tymor y gaeaf a 'lliwiau'r hydref'. Defnyddio darluniau tymhorol ar wefannau<br>› Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyfleoedd yn sgil "Ffordd Cymru"<br>› Defnyddio enghreifftiau sydd gennym ar gyfer ystyried y syniad o deithiau thematig fydd yn hyrwyddo Rhinweddau Arbennig Eryri | APCE<br>Croeso Cymru<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Plas y Brenin<br>Eryri-Bywiol | Bydd y syniadau blaengar hyn mewn lle erbyn diwedd 2021 |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **B3.3. Defnyddio'r strategaeth marchnata fel man cychwyn, datblygu cynllun ar y cyd gyda phartneriaid ynghylch y wybodaeth yr ydym yn ei ddarparu ar gyfer ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid mewn ymddygiad.** | Y Cyfan | › Adnabod y gynulleidfa darged ar gyfer gwybodaeth a newid mewn ymddygiad<br>› Adnabod pa fath a pha fformat gwybodaeth sydd fwyaf effeithiol, a pha ieithoedd y mae mwyaf o alw amdanynt<br>› Datblygu cynllun ar y cyd i gynnwys canllawiau ar sut y byddwn yn darparu gwybodaeth cyn, yn ystod ac yn dilyn ymweliad, yn ogystal â rhesymoli'r gymysgedd a'r defnydd o ddulliau modern a thraddodiadol o ddarparu gwybodaeth<br>› Gwella gwybodaeth ar gyfleoedd hamdden gan dargedu grwpiau penodol yn unol â'r strategaeth brand a'r cynllun gwybodaeth, a llenwi unrhyw fylchau yn y wybodaeth<br>› Gweithio gyda busnesau twristiaeth i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth am y Parc yn unol â'r strategaeth brand a'r cynllun gwybodaeth e.e. trwy gynllun llysgennad | APCE<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Croeso Cymru<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Partneriaeth Awyr Agored<br>Chwaraeon Cymru<br>Eryri-Bywiol<br>GAT<br>CNC<br>Yr holl bartneriaid | Erbyn diwedd 2020, bydd cynulleidfaoedd targed wedi eu hadnabod fel rhan o gynhyrchu'r wefan newydd.<br>Bydd cynllun llysgennad peilot wedi ei sefydlu a bydd y gwersi gaiff eu dysgu yn cael eu cymhwyso ar draws y Parc Cenedlaethol.<br>Bydd y strategaeth brandio yn cyfrannu at y Cynllun ar y cyd ac yn ychwanegu at y wybodaeth a ddarperir erbyn diwedd 2022.<br>Bydd adolygiad o'r brand newydd yn cael ei gynnal erbyn 2025. |

# PARCIO A THRAFNIDIAETH

Gall trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell fod yn heriol, yn enwedig mewn mannau prysur megis ardaloedd Ogwen a'r Wyddfa lle mae parcio wedi dod yn broblem sylweddol. Gall hyn effeithio'n drwm ar gymunedau, diogelwch y ffordd, y tirwedd a phrofiad yr ymwelwyr.

Trwy ddefnyddio'r prosiect peilot a sefydlwyd gan Bartneriaeth Y Wyddfa, caiff datrysiadau blaengar eu sefydlu ledled y Parc Cenedlaethol er mwyn sicrhau methodoleg esmwyth a holistig trwy ddulliau cadarn a chydweithredol.

## CANLYNIAD B4

## CAIFF DEWISIADAU CYNALADWY AR GYFER PARCIO A THRAFNIDIAETH EU GWEITHREDU .

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **B4.1. Gwella cynaladwyedd ac argaeledd trafnidiaeth ar gyfer ymwelwyr a phreswylwyr a mynd i'r afael â phroblemau parcio** | 1 & 6 | › Adolygu systemau trafnidiaeth cyhoeddus mewn ardaloedd poblogaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion a gofynion preswylwyr ac ymwelwyr<br>› Sefydlu partneriaethau ymroddgar i sicrhau bod yna refeniw digonol i gynnal gofynion trafnidiaeth cyhoeddus<br>› Defnyddio trafnidiaeth cyhoeddus fel modd o drosglwyddo gwybodaeth i ymwelwyr<br>› Gwella perthnasoedd gwaith gyda busnesau, mentrau cymdeithasol, cymunedau a thir feddianwyr, gan annog datrysiadau ar sail cymunedol<br>› Sicrhau bod teithiau trafnidiaeth cyhoeddus wedi eu cysylltu'n sicr gyda llwybrau a hyrwyddir gennym<br>› Cefnogi mesurau teithio llesol fel y nodir yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Trafnidiaeth Cymru<br>Holl dirfeddianwyr sy'n bartneriaid<br>Bwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru<br>Llywodraeth Cymru | Gweithio gyda'r holl argymhellion yr Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen 2020 i weithredu mesurau ar draws y Parc Cenedlaethol. Adolygu ac addasu mesurau yn ôl yr angen erbyn 2025. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o’r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **B4.2. Archwilio a sefydlu cyfleoedd i annog trafnidiaeth fwy gwyrdd** | 1 & 6 | › Asesu effaith ymwelwyr ar yr amgylchedd o safbwynt allyriadau carbon er mwyn annog symudiad tuag at ddefnyddio technolegau mwy gwyrdd ar gyfer teithio megis ceir, bysiau a beiciau trydan<br>› Gwella gwybodaeth a marchnata o safbwynt teithio i’r Parc a theithio o’i gwmpas, gan sicrhau bod y dewisiadau mwyaf cynaladwy yn cael eu hyrwyddo a’u hamlygu<br>› Defnyddio technoleg smart er mwyn annog newid arferion (e.e. Cynllun Menter)<br>› Fel ym Mholisi A3.1 gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn mannau strategol yn y Parc Cenedlaethol ar gyfer ymwelwyr a theithwyr | APCE<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Croeso Cymru<br>Partneriaeth Ogwen | Gweithio gyda'r holl argymhellion yr Adolygiad Parcio a Thrafnidiaeth Yr Wyddfa ac Ogwen 2020 i weithredu mesurau ar draws y Parc Cenedlaethol. Adolygu ac addasu mesurau yn ôl yr angen erbyn 2025.<br>Bydd ffordd newydd o fesur cyfraniad ac effaith ymwelwyr ar yr ardal mewn lle erbyn 2021 a bydd yn asesu ffactorau amgylcheddol. |

# ERYRI FEL CYRCHFAN

Mae twristiaeth yn y Parc Cenedlaethol yn dymhorol iawn gyda 20% o ymwelwyr yn dod yn ystod mis Awst yn unig. Nid yw'r adnoddau yn gallu ymdopi gyda'r niferoedd cynyddol gydag arolwg ymwelwyr diweddar yn dangos bod un o bob tri yn graddio'r meysydd parcio a'r toiledau fel 'gwael' yn y mannau mwyaf poblogaidd yn y Parc. Er bod llawer o bobl yn trefnu eu hymweliad ymlaen llaw ar-lein, mae cyfran sylweddol hefyd yn debygol iawn o ymweld â Chanolfan Ymwelwyr tra byddant yma.

Mae Cynllun Eryri yn archwilio'r cyfleoedd i ail-feddwl y 'tymor ymwelwyr' ac ystyried y Parc fel cyrchfan o ansawdd uchel gydol y flwyddyn trwy fabwysiadu syniadau gwreiddiol a dulliau monitro eglur, yn seiliedig ar ein Rhinweddau Arbennig.

## CANLYNIAD B5

## MAE EIN CYFLEUSTERAU YMWELWYR O ANSAWDD UCHEL AC YN PARCHU'R DIRWEDD.

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o’r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **B5.1. Cyfleusterau ymwelwyr yn derbyn cyllid a buddsoddiad digonol i gyrraedd a gwella ar ddisgwyliadau ymwelwyr** | Y Cyfan | > Asesu cyfleusterau ymwelwyr (canolfannau, toiledau ayyb) o fewn y Parc Cenedlaethol ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau<br>> Trwy gyfrwng arolwg ymwelwyr, monitro’r farn ar gyfleusterau a gweithredu ar unrhyw argymhellion<br>> Asesu posibiliadau a chynaladwyedd ehangu Canolfannau Gwybodaeth a Chanolfannau Ymwelwyr i fod yn ganolfannau cymunedol / llesiant | APCE<br>CNC<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Croeso Cymru<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru<br>Cymdeithas Eryri | Erbyn diwedd 2021, bydd canlyniadau’r asesiad cyfleusterau wedi eu derbyn, a bydd astudiaeth posibilrwydd ehangu rôl y canolfannau croeso wedi ei chwblhau.<br>Bydd canlyniadau'r arolwg ymwelwyr yn dylanwadu ar flaenoriaethau'r dyfodol. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o’r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **B5.2. Cefnogi gweithgareddau sydd yn cydfynd â Rhinweddau Arbennig Eryri – yn enwedig tawelwch – a hyn yn annog ymwelwyr i newid amser eu gwyliau a dod yn ystod yr hydref a’r gaeaf er mwyn ysgafnu’r pwysau yn y tymor prysur** | Y Cyfan | › Cefnogi a hyrwyddo gweithgareddau a mentrau perthnasol i’r statws Awyr Dywyll<br>› Cefnogi a hyrwyddo mentrau perthnasol i dwristiaeth gaeaf<br>› Gwella a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer mynediad i’r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol ehangach | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol<br>Croeso Cymru<br>CNC<br>Cadw | Bydd ein Swyddog Awyr Dywyll yn gweithio i hyrwyddo dealltwiaeth o’r elfen bwysig hon yn Eryri, gan gyflwyno adroddiad perthnasol yn flynyddol. Erbyn diwedd 2021, bydd ein Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol a Dehongli yn cynnwys hyrwyddo’r amgylchedd hanesyddol yn unol â’r tymhorau (gweler polisi B3.1). |
| **B5.3. Llety o ansawdd uchel, yn gweddu i'r dirwedd, yn cwrdd â disgwyliadau a gofynion ymwelwyr ac yn helpu i gynyddu gwariant y pen** | Y Cyfan | › Ymchwilio i’r gofynion a’r bylchau o ran llety ymwelwyr o ansawdd uchel gan gynnwys llety fforddiadwy<br>› Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd i ddatblygu Cynllun Rheolaeth Cyrchfan y Cyngor<br>› Trwy gyfrwng Cynllun Datblygu Lleol, cefnogi datblygu a hyrwyddo llety ymwelwyr o ansawdd uchel sydd yn addas i'r dirwedd ac yn cwrdd â gofynion y farchnad | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Erbyn diwedd 2020 bydd gwaith ymchwil wedi ei gwblhau a bydd y CDLl yn cynnwys y canllawiau hyn. |

# > CYMUNEDAU AC ECONOMI ERYRI
## LLE GWYCH I DDATBLYGU, BYW A GWEITHIO

### Ble'r ydym yn awr?

- Mae 58.6% o boblogaeth Eryri yn siarad Cymraeg – mewn rhai cymunedau mae'r ffigwr mor uchel ag 80%
- Mae amcangyfrif o'r gwariant fesul ymwelydd yn Eryri yr 2il uchaf o holl Barciau Cenedlaethol ym Mhrydain
- Mae gan Eryri raddfa diweithdra ïs na'r cyfartaledd cenedlaethol (3.1% o gymharu â 4.3% yn genedlaethol)
- Mae bron un o bob pump o'r boblogaeth yn hunan gyflogedig, sydd fwy na dwywaith y cyfartaledd cenedlaethol
- Mae 38% o'r swyddi yn Eryri yn gysylltiedig â'r amgylchedd
- Mae nifer fawr o gyfleoedd ar gyfer cynnwys rhagor o bobl mewn gwasanaethau lleol, cysylltu gyda natur a darparu hybiau a gweithgareddau cymunedol

### OND

- Dwyfor Meirionnydd sydd â'r cyflog cyfartalog blynyddol isaf ym Mhrydain
- Mae prisiau tai ar y funud chwe gwaith yr incwm cyfartalog yng Nghonwy a 7 gwaith yr incwm cyfartalog yng Ngwynedd
- Mae cysylltedd band eang ar draws y Parc wedi cynyddu'n eithriadol dros y pum mlynedd diwethaf, ond yn parhau ymysg yr arafaf yng Nghymru
- Mae 17 ardal o fewn neu yn rhannol o fewn y Parc Cenedlaethol yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau
- Amcangyfrifir y bydd poblogaeth Eryri yn gostwng 6.6% erbyn 2030
- Mae cyfrifiad 2011 yn dangos bod lleihad o 3.5% wedi bod yn y defnydd o'r iaith Gymraeg yn Eryri ers 2001

## Ble'r ydym am fod erbyn 2025?

- Yr iaith, y diwylliant a'r dreftadaeth yn cael eu dathlu, eu cefnogi a'u cryfhau.
- Swyddi a chyfleoedd yn annog pobl i aros yn yr ardal.
- Rydym yn gweithio i ddatrys yr angen am dai fforddiadwy i'w prynu neu i'w rhentu.
- Caiff cymunedau lleol eu cefnogi i ffynnu ym mhob agwedd o lesiant.

## Isod fe welwch bob un o'r Canlyniadau hyn wedi eu hegluro yn fanylach trwy bolisïau a gweithredoedd, y modd y byddwn yn mesur ein gwaith a phwy fydd yn datblygu'r awgrymiadau hyn...

# IAITH A DIWYLLIANT

Mae cymunedau'r Parc Cenedlaethol ymhlith y mwyaf amlwg o ran bod yn Gymraeg eu hiaith. Mae llawer ohonom yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith gwaith ac oherwydd bod yr iaith yn un o'r Rhinweddau Arbennig, mae ein Partneriaeth yn ei hyrwyddo hi ac yn cynrychioli y rhai sydd eisoes yn ei siarad, y dysgwyr a'r rhai sydd yn awyddus i'w dysgu. Er hynny, mae data cyfrifiad yn dangos lleihad o 3.5% yn nifer y rhai sydd yn siarad Cymraeg. Mae amryw o ffactorau yn gyfrifol am hyn gan gynnwys siaradwyr Cymraeg yn ymfudo allan, y mewn fudo o siaradwyr di-Gymraeg, diffyg adeiladau a gweithgareddau o fewn y gymuned lle gall pobl ddod at ei gilydd, mynediad at addysg ddwyieithog, economi ffyniannus sydd yn annog pobl i aros o fewn eu cymunedau, ac hefyd cydnabyddiaeth cyflogwyr o'r iaith a'u cefnogaeth iddi.

Mae Cynllun Eryri yn amlinellu mesurau y byddwn ni yn y Bartneriaeth yn eu cymryd er mwyn ceisio rhwystro'r duedd hon, a hyrwyddo ac annog y defnydd o'r dangosydd sylfaenol hwn o'n diwylliant a'r trosglwyddiad iaith o un genhedlaeth i'r nesaf.

## CANLYNIAD C1

## IAITH, DIWYLLIANT A THREFTADAETH ERYRI YN CAEL EU DATHLU, EU CEFNOGI A'U CRYFHAU.

*** MAE GAN BOB GWEITHRED O DAN GANLYNIADAU C1-C3 GYSYLLTIAD CYNHENID GYDA'I GILYDD.**

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **C1.1. Hyrwyddo deall, mwynhau a gwarchod yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig** | 2, 3 & 4 | › Cefnogi a hyrwyddo digwyddiadau cymunedol lleol, grwpiau a phrosiectau creadigol sydd â chysylltiad gyda'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig<br>› Creu cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc i fod yn llysgenhadon i iaith a diwylliant yr ardal<br>› Arwain trwy esiampl gan sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael eu hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth<br>› Gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol sydd yn annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad yr iaith Gymraeg<br>› Datblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu i wella ymwybyddiaeth ymwelwyr o'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig<br>› Sicrhau fod yr iaith Gymraeg yn chwarae rhan flaenllaw mewn unrhyw brosiectau, gweithgareddau neu gynlluniau sy'n deillio o gamau A5.1, A5.2, A6.1, B1.1 B1.2, B1.3, C4.1 a C4.2, boed hynny trwy addysgu am yr iaith, arwain trwy enghraifft a / neu hyrwyddo'r defnydd trwy ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu yn y Gymraeg. | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Byddwn yn sicrhau bod y grwpiau hyn yn bwydo i mewn i bolisi B3.1 pan gaiff ei sefydlu, bod Cynllun Cyfathrebu yn cael ei weithredu cyn diwedd 2021, bod canllawiau mewn lle yn y CDLl a'u bod yn cael eu monitro yn flynyddol.<br>Bydd y camau hyn yn cael eu gwerthuso erbyn 2025. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **C1.2. Darparu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn yr ardal** | 3 | > Hyrwyddo a chefnogi mentrau sydd yn annog ymfudwyr i'r ardal i ddysgu Cymraeg<br>> Creu cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg a siaradwyr rhugl gymdeithasu a defnyddio'r iaith, yn enwedig drwy grwpiau gwirfoddolwyr fel ym Mholisïau A5.2 a B1.2<br>> Fel rhan o Bolisi B3.1 a B3.3 darparu hyfforddiant ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant i fusnesau | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>CNC<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Partneriaeth Awyr Agored<br>Chwaraeon Cymru | Erbyn diwedd 2020 bydd Cynllun Llysgennad peilot wedi ei sefydlu ar gyfer Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa. Rydym yn anelu at ehangu hyn i gynnwys y cyfan o ardal y Parc Cenedlaethol erbyn 2021.<br>Byddwn yn monitro nifer y dysgwyr Cymraeg a fydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau grwpiau gwirfoddolwyr a gynigir gan yr holl Bartneriaid i fesur cynydd. |
| **C1.3.Diogelu enwau lleoedd Cymraeg** | 3 | > Gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol sydd yn annog defnyddio enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer busnesau, datblygiadau, tai a strydoedd<br>> Gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol sydd yn annog defnyddio arwyddion dwyieithog<br>> Dolen i raglen Ieithoedd Brodorol UNESCO er mwyn hyrwyddo enwau lleol y Parc Cenedlaethol a'i asedau mwyaf adnabyddus | Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol<br>Menter Iaith<br>APCE<br>Cadw<br>Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (RCAHMW) | Byddwn yn sicrhau bod canllawiau yn y CDLl a bod Canllawiau Cynllunio Atodol yn bodoli er mwyn hyrwyddo'r elfennau hyn. |

# SEILWAITH A BUSNES

'Arallgyfeirio' yw un o'r termau mwyaf amlwg mewn cynllunio busnes cyfoes. Mae ailystyried y modd yr ydym yn gwneud pethau yn hanfodol o safbwynt arallgyfeirio ac er mwyn cwrdd ag anghenion y byd modern. Er bod y sectorau TG ac arlein yn ardaloedd twf anferth, gall cysylltedd band eang a ffonau symudol gwael rwystro cyfleoedd i sefydlu a datblygu modelau busnes newydd yn Eryri.  Bydd hyn yn berthnasol iawn yn dilyn Brexit ac yn y cyfamser mae'n un rheswm pendant pam bod pobl yn gadael yr ardal ac yn mynd i chwilio am waith mewn gweithleoedd modern.

Mae Cynllun Eryri yn amlinellu cyfres o gamau, yn manteisio ar rai o'r tueddiadau gwleidyddol cyfoes i hyrwyddo sgiliau hanfodol a seilwaith technolegol er mwyn darparu ar gyfer ein preswylwyr.

## CANLYNIAD C2

## SWYDDI A CHYFLEOEDD YN ANNOG POBL I AROS YN YR ARDAL.

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **C2.1. Gwella seilwaith cyfathrebu yn yr ardal ar gyfer busnesau a chymunedau mewn modd na fydd yn amharu ar y dirwedd** | 2, 3, 4, 5 & 6 | › Cefnogi partneriaid i gyflawni mentrau blaengar a sensitif i'r tirlun er mwyn gwella seilwaith ar gyfer band eang, data symudol a'r rhyngrwyd mewn ardaloedd gwledig<br>› Cefnogi mentrau o fewn y strategaethau twf rhanbarthol sydd yn gwella cysylltedd digidol ac hefyd yn gwarchod y tirlun<br>› Gweithio gyda Cyngor Gwynedd i ddatblygu'r cynigion ymhellach ar gyfer creu swyddi o werth uchel ar draws ystod o feysydd. | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Grwpiau Gweithredu Lleol<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru<br>Gogledd Cymru Creadigol<br>Mantell Gwynedd | Cysylltedd digidol ar draws Eryri wedi gwella'n sylweddol. Wi-fi rhad ac am ddim wedi ei gysylltu i ganolfannau cymunedol a hybiau hefyd ar gael. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **C2.2. Cefnogi a hyrwyddo hyfforddiant, cyflogaeth a chyfleoedd busnes yn ymwneud â phwrpas 1af y Parc Cenedlaethol – neu yn cyd-fynd ag ef ac â'r Rhinweddau Arbennig - yn cynnwys sectorau yn ymwneud â'r amgylchedd** | Y Cyfan | › Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd i reolwyr tir gymryd rhan mewn cynlluniau nwyddau cyhoeddus fel y nodir ym mholisi A2.1<br>› Annog a chefnogi datblygiad busnesau a sgiliau perthnasol i weithredu cynlluniau nwyddau cyhoeddus<br>› Cefnogi mentrau yn ymwneud â'r amgylchedd ac Ansawdd Arbennig gyda'r strategaethau twf rhanbarthol<br>› Gweithio gyda'r adrannau datblygu economaidd o fewn cynghorau lleol er mwyn datblygu cyfleoedd trwy Barth Menter Eryri, yr enwebiad Treftadaeth Byd Llechi Cymru neu gyfleon eraill i greu swyddi a chyflogaeth o ansawdd uchel<br>› Cefnogi prosiectau sydd yn anelu at fyrhau'r gadwyn darparu bwyd lleol<br>› Gweithio gyda'n' partneriaid i gefnogi amaethwyr i ymateb i'r newidiadau a ddaw yn sgil Brexit, o ran newid yn y farchnad ac o ran y gyfundrefn daliadau<br>› Cefnogi datblygu adnoddau a sgiliau ar gyfer adfer a chynnal adeiladau a nodweddion hanesyddol, yn cynnwys rhaglenni cynyddu gallu fel ym Mholisi A6.1<br>› Archwilio cyflleoedd ar gyfer datblygu fframwaith cydweithredu i ddatblygu cynlluniau stad-gyfan, trwy ymchwilio i weithredu llwyddiannus mewn ardaloedd eraill sydd dan warchodaeth | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Menter Môn<br>Grŵp Cynefin<br>Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd<br>Amgueddfa Lechi Genedlaethol<br>Menter Iaith<br>Gwynedd<br>Grŵp Gwaith a Sgiliau<br>Arloesi Gwynedd Wledig<br>Yr holl Bartneriaid perthnasol | Rydym yn anelu at weld nifer y busnesau yn ymwneud â nwyddau cyhoeddus yn cynyddu. Trwy hyrwyddo a rhannu ymarfer da, bydd hyn yn cael effaith gronnus.<br>Bydd nifer y mentrau a gefnogir gan ein gwahanol bartneriaid wedi cynyddu a bydd fframweithiau newydd posibl wedi eu gwerthuso ac adroddiadau arnynt wedi eu llunio.<br>Bydd ein partneriaethau craidd yn cynnwys mwy o gynrychiolaeth o'r sectorau busnes a thwristiaeth. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **C2.3. Cefnogi a hyrwyddo hyfforddiant, cyflogaeth a chyfleoedd busnes yn ymwneud ag ail bwrpas y Parc Cenedlaethol neu yn cyd-fynd ag ef ac â'r Rhinweddau Arbennig a'r thema iechyd a llesiant** | Y Cyfan | › Cefnogi cynllun nwyddau cyhoeddus fel y nodir ym mholisi A2.1<br>› Gweithio gyda'r adrannau datblygu economaidd o fewn awdurdodau lleol er mwyn datblygu cyfleoedd trwy Parth Menter Eryri a strategaethau creu cyflogaeth eraill<br>› Cefnogi cyfleoedd yn y sector twristiaeth sydd yn rhai gwerth uchel ac ansawdd uchel ac yn ystyriol o'r angen i ddiogelu amgylchedd y Parc Cenedlaethol<br>› Cynyddu nifer yr hyfforddwyr yn y sector awyr agored sy'n siarad Cymraeg<br>› Cefnogi mentrau hamdden awyr agored sydd yn gwella llesiant pobl<br>› Datblygu ymgyrch i annog busnesau TG a thechnoleg i sefydlu yn yr ardal | APCE<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Partneriaeth Awyr Agored<br>Menter Môn<br>Grŵp Cynefin<br>Menter Iaith<br>Arloesi Gwynedd Wledig<br>Yr holl Bartneriaid perthnasol<br>Mantell Gwynedd | Gydol y Cynllun byddwn yn sicrhau: bod cyfarfodydd yn cael eu trefnu a'u mynychu er mwyn datblygu cyfleoedd newydd; bod canllawiau perthnasol yn y CDLl; bod cynlluniau a phrosiectau yn bodoli.<br>Bydd ymgyrch wedi ei sefydlu i ddenu mwy o fusnesau TG a thechnoleg i'r ardal, a bydd nifer yr hyfforddwyr yn y sector awyr agored sy'n siarad Cymraeg yn cynyddu o 20 i 30%.<br>Bydd ein partneriaethau craidd yn cynnwys mwy o gynrychiolaeth o'r sectorau busnes a thwristiaeth. |

# ANSAWDD BYWYD UCHEL

Mae Eryri yn cynnyg amrywiaeth eang iawn o gyfleoedd o safbwynt ffordd o fyw. Mae'n amgylchedd sy'n ysbrydoli ac yn hybu creadigrwydd, gweithgaredd, sgiliau mentro ac anturio, eto ar y funud mae pris y farchnad eiddo allan o gyrraedd 60% o bobl leol. Fel Partneriaeth a thrwy'r Cynllun Datblygu Lleol rydym yn bwriadu gweithredu polisïau fydd yn darparu cyfleoedd i bobl a theuluoedd wneud eu cartref yn Eryri.

## CANLYNIAD C3

### RYDYM YN CANFOD FFYRDD O FYND I'R AFAEL Â PHROBLEM TAI FFORDDIADWY I'W PRYNU A'U RHENTU.

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **C3.1. Gweithio gyda phartneriaid i roi sylw i faterion sylfaenol a datblygu atebion blaengar i ddarparu tai fforddiadwy fydd yn cwrdd ag anghenion lleol** | 2 | › Gweithio gyda galluogwyr tai gwledig i adnabod anghenion tai fforddiadwy o fewn ein cymunedau<br>› Gweithio i ddylanwadu a newid deddfwriaeth fel bod newid defnydd tai preswyl yn dai gwyliau angen caniatâd cynllunio<br>› Lobïo benthycwyr morgeisi i sicrhau bod cyllid ar gyfer tai fforddiadwy ar gael yn hawdd<br>› Gweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o gyfraniadau ariannol tai fforddiadwy, a helpu i hyrwyddo tai fforddiadwy<br>› Mae dadansoddiad manwl o argaeledd tai fforddiadwy o fewn y Parc Cenedlaethol wedi dylanwadu ar bolisïau cynllunio yn y CDLl<br>› Cefnogi'r gwaith o ganfod tai gwag i'w datblygu ar gyfer busnesau neu yn dai preswyl<br>› Annog tai deiliadaeth gymysg | APCE<br><br>Cyngor Gwynedd<br><br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br><br>Grŵp Cynefin | Erbyn diwedd 2020 bydd manylion wedi eu cynnwys yn y CDLl a chaiff y CDLl ei gwerthuso'n rheolaidd yn y fonitro flynyddol. |

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o'r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **C3.2. Trwy'r CDLl creu polisïau fydd yn annog tai fforddiadwy** | 2 | › Cyrraedd y targed tai fforddiadwy o 375 (cyfartaledd o 25 uned tai fforddiadwy y flwyddyn) dros gyfnod y Cynllun sef 2016-2031 | APCE<br>Llywodraeth Cymru<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Gwynedd<br>Grŵp Cynefin<br>Adra<br>Gwasanaethau Hwylysydd Tai Gwledig Lleol | Bydd adroddiad monitro y CDLl yn mesur cynnydd drwy gydol tymor y Cynllun.<br>Mae'r CDLl yn cael ei adolygu'n gyson ac mae'r targedau'n cael eu diweddaru'n swyddogol bob pum mlynedd. |
| **C3.3. Trwy'r CDLl creu polisïau fydd yn annog tai fforddiadwy** | 2 | › Polisïau yn annog dylunio a datblygu tai yn gynaladwy | APCE<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Gwynedd | Bydd adroddiad monitro y CDLl yn mesur cynnydd drwy gydol tymor y Cynllun. |

# CYSYLLTU CYMUNEDAU

Mae cydlyniant cymunedau yn un o  Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol ac mae hyn yn creu synnwyr lle unigryw yma fwy nag yn unman. O  fewn ein trefi a'n pentrefi mae nifer o enghreifftiau o fentrau gan y gymuned a theimlad cryf o hunaniaeth a pherthyn. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn egluro bod cydlyniant a chymunedau clos yn rhan hanfodol o lesiant yr unigolyn. Mae sefydliadau cymunedol 'angorol' yn bwysig gan eu bod yn deall anghenion lleol ac yn ymroddedig yn y tymor hir i'r ardal y maent yn ei gwasanaethu.  Nôd  Cynllun Eryri yw cefnogi a hyrwyddo'r elfennau pwysig hyn ac adeiladu cysylltiadau cryfach eto rhwng y Parc Cenedlaethol a'i breswylwyr.

## CANLYNIAD C4

## CEFNOGI CYMUNEDAU LLEOL I FFYNNU YM MHOB AGWEDD O LESIANT.

| Ein camau i gyflawni hyn | Rhinweddau Arbennig | Trosolwg o’r camau | Pwy? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|---|
| **C4.1. Cynyddu cyfleoedd ar gyfer trafodaeth rhwng y Parc Cenedlaethol a sefydliadau sydd yn bodoli yn y cymunedau** | 2 | › Datblygu siarter fydd yn gosod allan y trefniadau rhwng APCE a Chynghorau Cymuned a Chynghorau Tref, o ran y modd y gallwn gydweithio a datblygu gweithgareddau fydd o fudd i bawb<br>› Archwilio’r syniad o benodi Llysgenhadon Parc Cenedlaethol ym mhob cyngor cymuned, gan gychwyn gyda’r ardal sydd yn peilotio’r Cynllun llysgennad ym Mholisi B3.3 | APCE<br>Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref<br>Un Llais Cymru | Erbyn diwedd 2021, bydd Siarter wedi ei sefydlu a chaiff y gwersi yn y Cynllun Llysgennad eu gweithredu.<br>Byddwn yn adolygu'r camau hyn erbyn 2025. |
| **C4.2 Gweithio gyda chymunedau i wella ymhellach ddealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol** | 2 | › Adnabod y prif gymunedau a effeithir gan ddynodiad y Parc Cenedlaethol ond sydd y tu allan i’w ffin, a gweithio’n agos gyda’r cymunedau hyn i gyflawni amcanion y Parc Cenedlaethol<br>› Cefnogi uwchsgilio cymunedau sydd yn dymuno datblygu prosiectau i ddiogelu a gwella Rhinweddau Arbennig Eryri fel yn Canlyniad B3<br>› Gweithio gyda chynghorau Conwy a Gwynedd i nodi cyfleoedd pellach ar gyfer cydweithio<br>› Gweithio gyda sefydliadau cymunedol i ddatblygu Cynlluniau Ardal Warden, ar sail anghenion a blaenoriaethau lleol | APCE<br>Grwpiau Gweithredu Lleol Gwynedd a Chonwy<br>Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref ar gyrion y Parc Cenedlaethol<br>Mantell Gwynedd<br>Un Llais Cymru<br>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Ddinbych a Gwynedd | Gydol y Cynllun byddwn yn sicrhau y caiff y cynlluniau eu cefnogi trwy’r Gronfa Cymunedau a Gwirfoddolwyr.<br>Bydd Cynlluniau Ardal Warden yn cael eu cynhyrchu ar y cyd gyda mewnbwn gan y gymuned.<br>Byddwn yn adolygu'r camau hyn erbyn 2025. |

# >BETH SY’N DIGWYDD NESAF?





Dros y 5 mlynedd nesaf byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i weithredu ar y cynllun uchelgeisiol hwn, gan gadw ein pwrpasau craidd a'r Rhinweddau Arbennig yn ganolog i'r cyfan a wnawn. Byddwn yn mesur llwyddiant yn flynyddol ac yn ailasesu'r Cynllun yn llawn yn 2025. Nid yw hyn yn golygu na fyddwn yn hyblyg i newid ac yn anelu tuag at ragoriaeth hyd yn oed os bydd rhai o'n dangosyddion wedi eu cwrdd yn gynnar. Diogelu a hyrwyddo Eryri anhygoel yw ein gwaith beunyddiol.

### Sut gallwch chi fod yn rhan o hyn?

Gallwch ein helpu i ofalu am - a meithrin - Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol eithriadol hwn mewn nifer o ffyrdd, hyd yn oed trwy weithredoedd bach fel casglu sbwriel ar lethrau'r mynyddoedd, rhannu gwybodaeth gydag eraill ynghylch ein amcanion, neu wirfoddoli gyda rhai o'r prosiectau a amlinellir yma, neu hyd yn oed drwy gyfrannu at ein hamrywiol ymgyrchoedd codi arian. Rydym yn cydnabod na allwn wneud popeth na bod yn bresennol ym mhobman – ond gyda'ch cymorth a'ch ymroddiad chi gallwn barhau i gadw Eryri yn arbennig.

- → Os oes gennych brosiect yr hoffech ei hyrwyddo – gadewch i ni wybod.
- → Os oes gennych atborth – rhannwch ef.
- → Os ydych wedi mwynhau darllen y Cynllun hwn – dywedwch wrth eraill.
- → Os gwelwch rywbeth yn Eryri sydd angen ei wneud – gwnewch ef.

**Diolch i chi am ddarllen ac am deimlo fel ni.**

# GEIRFA

| | |
|---|---|
| **AADd** | Dynodiad o dan Gyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd ar Gadwraeth Adar Gwyllt yw Ardal Arbennig a Ddiogelir (gweler ACA uchod hefyd) |
| **ACA** | Ardaloedd Cadwraeth Arbennig fel y'u diffinnir yng Nghyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd (92/43 / EEC). Mae ACA yn ategu AADdau a gyda'i gilydd yn ffurfio rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig ledled yr Undeb Ewropeaidd o'r enw Natura 2000 |
| **Cynllun Eryri** | Cynllun Rheolaeth Statudol Parc Cenedlaethol Eryri |
| **Cynllun Yr Wyddfa** | Cynllun partneriaeth penodol a rennir ar gyfer dyfodol Yr Wyddfa, gweler: https://www.snowdonpartnership.co.uk/hafan-1 |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)** | Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hir dymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. |
| **Deddf yr Amgylchedd 1995** | Gwnaeth Deddf yr Amgylchedd 1995 newidiadau sylfaenol i system gofal a rheolaeth Parciau Cenedlaethol gan weithredu cyfres o argymhellion ac adroddiadau |
| **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)** | Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol |
| **Egwyddor Sandford** | Er mwyn helpu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i wneud penderfyniadau rhwng cadwraeth a hamdden, gwnaeth y Pwyllgor Adolygu Polisi Parciau Cenedlaethol argymhelliad ym 1974, a elwir bellach yn 'Egwyddor Sandford', ac fe'i enwir ar ôl yr Arglwydd Sandford a oedd yn gadeirydd ar y pwyllgor. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | Cyflwr o fod yn gyffyrddus, yn iach neu'n hapus |
| **Nwyddau Cyhoeddus** | Nwyddau cyhoeddus yw'r canlyniadau a'r buddion o reoli tir na ellir eu darparu gan farchnadoedd masnachol, gan gynnwys ansawdd aer, pridd a dŵr, bioamrywiaeth, tirwedd, mynediad cyhoeddus, lliniaru risg llifogydd a gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. |
| **Partneriaeth** | Mae partneriaeth yn drefniant lle mae partïon yn cytuno i gydweithredu i hyrwyddo eu cyd-fuddiannau |
| **Ramsar** | Ardaloedd a gydnabyddir yng Nghonfensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol |
| **Rhinweddau Arbennig** | Y cyfuniad o nodweddion unigryw sydd gan bob Parc Cenedlaethol a arweiniodd at ddynodi'r ardaloedd hyn i gael eu gwarchod. |
| **SoDdGA** | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| **Statudol** | Yn ofynnol yn ôl y gyfraith |
| **Treftadaeth anghyffyrddadwy** | Treftadaeth sydd wedi'i hymgorffori mewn pobl yn hytrach nag mewn gwrthrychau e.e. traddodiadau, sgiliau, hanesion llafar |
| **Twristiaeth Gynaliadwy** | Twristiaeth sy'n ystyried ei effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol presennol ac yn y dyfodol, gan fynd i'r afael ag anghenion ymwelwyr, y diwydiant, yr amgylchedd a'r cymunedau sy'n eu croesawu (Sefydliad Twristiaeth y Byd y Cenhedloedd Unedig, UNWTO) |

# Y PETHAU CYFREITHIOL

**Gwerthusiad Cynaliadwyedd**

Mae'r Cynllun wedi mynd trwy broses werthuso drylwyr a ddyluniwyd i sicrhau ei fod yn cyflawni datblygu cynaliadwy. Mae cynhyrchu Gwerthusiad Cynaliadwyedd ar gyfer Cynlluniau Rheoli yn un o ofynion deddfwriaeth ym Mhrydain. Mae'r broses wedi sicrhau bod yr holl nodau, amcanion a gweithredoedd yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau newid cadarnhaol ac yn tynnu sylw at y gydberthynas rhwng gwahanol agweddau o'r Cynllun.

**Asesiad Amgylcheddol Strategol**

Mae'r gyfarwyddeb Ewropeaidd ar Asesiad Amgylchedd Strategol hefyd yn berthnasol i gynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol. Fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod cynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol yn cael eu hasesu i nodi effeithiau a allai fod yn sylweddol ar yr amgylchedd.

Cynhaliwyd y Gwerthuiad Strategol a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol fel un ymarfer i sicrhau cydberthynas lawn rhwng y ddau

Gellir gweld copi o'r adroddiad hwn yn: https://www.eryri.llyw.cymru/authority/working-in-partnership/cynlluneryri

**Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd:**

Mae Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd yn un o ofynion Cyfarwyddeb yr UE 92/43 / EEC. Ei nod yw amddiffyn rhyw 220 o gynefinoedd a thua 1,000 o rywogaethau a restrir o dan ddynodiadau Ewropeaidd. Aseswyd y Cynllun i sicrhau bod yr holl amcanion yn cynnig amddiffyniad a / neu welliant i rywogaethau a chynefinoedd a nodwyd. Gan na chodwyd unrhyw faterion anghymodlon yn ystod camau blaenorol datblygu polisi, nid oedd angen asesiad pellach.

Gellir gweld copi o'r adroddiad hwn yn: https://www.eryri.llyw.cymru/authority/working-in-partnership/cynlluneryri

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol wneud trefniadau er mwyn asesu effaith debygol polisïau ac arferion arfaethedig ar ein gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol.

Ar gyfer pob polisi neu arfer newydd (neu adolygiad o bolisi neu arfer sy'n bodoli) mae'r awdurdod yn asesu'r effaith debygol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig trwy gynnal asesiad sgrinio cychwynnol. Os ystyrir bod y polisi neu'r arfer yn debygol o gael effaith, cynhelir Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn a chynhyrchir adroddiad asesu.

Er nad yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn nodwedd warchodedig o dan y ddeddfwriaeth, mae'r Awdurdod o'r farn na ddylai pobl Cymru ddioddef unrhyw wahaniaethu oherwydd naill ai eu defnydd o'r Gymraeg neu eu dymuniad i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o fewn ffin Parc Cenedlaethol Eryri, lle mae 59% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

Cynhaliwyd ein hasesiad sgrinio cychwynnol ym mis Tachwedd 2019 gan is-grŵp o'r Awdurdod, ac fe'i hystyriwyd fel

Gellir gweld copi o'r adroddiad hwn yn: https://www.eryri.llyw.cymru/authority/working-in-partnership/cynlluneryri

**Perthynas â Chynlluniau, Polisïau a Rhaglenni eraill**

Bwriad y Cynllun yw ategu cynlluniau, polisïau a rhaglenni sefydliadau partner, wrth arwain ar bynciau sy'n berthnasol i ddynodiad y Parc Cenedlaethol. Mae'r dogfennau a ystyrir wrth baratoi'r Cynllun yn amrywio o gytuniadau rhyngwladol i bolisïau cenedlaethol a lleol. Mae rhestr lawn o'r cynlluniau, polisïau a rhaglenni ar gael yn Atodiad C yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Yn ogystal â'r rhain, mae Cynllun Eryri yn ystyried Agenda 2030 y Cenhedloedd Unedig a'i 17 Nod Datblygu Cynaliadwy. Trwy ein Cynllun Gweithredu credwn ein bod yn cyfrannu at gyrraedd pob un o'r 17 Nod - darllenwch nhw yn fan hyn i gael mwy o fanylion: www.un.org/sustainabledevelopment/sustainable-development-goals

Mae gwybodaeth arall sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Cynllun wedi'i chynnwys yn:

**Adroddiad ar Gyflwr y Parc (AoGyP)**

Mae'n darparu data sylfaenol a ddefnyddir i lywio datblygiad y Cynllun a gwaith arall yn y Parc Cenedlaethol. Mae'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob 5 mlynedd ac wrth i'r adroddiad diwethaf llawn gael ei baratoi yn 2016 bydd set ddiwygiedig o ddata ar gael yn 2021, yn ogystal â diweddariadau penodol eraill wrth iddynt gael eu cynnal ymlaen llaw. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn fan hyn: https://www.eryri.llyw.cymru/authority/publications/state-of-the-park-report

**Strategaeth Hamdden ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri:**

Mae'n sefydlu'r amcanion tymor canolig a hir ar gyfer hamdden awyr agored yn y Parc Cenedlaethol o fewn y fframwaith strategol a amlinellir yn y Cynllun hwn. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf yn 2012 ac mae'n cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd a bydd ar gael yn fan hyn erbyn diwedd 2020: https://www.eryri.llyw.cymru/authority/publications/recreation-strategy

**Strategaeth Gyfathrebu ac Ymwybyddiaeth**

Mae hon yn esbonio sut y bydd yr Awdurdod yn cyflawni cyfathrebu mewnol ac allanol yn effeithiol ac yn darparu mynediad hawdd at wybodaeth a gwasanaethau mewn modd agored a thryloyw, a thrwy hynny gynyddu ymwybyddiaeth o waith yr Awdurdod.

**Cynllun Corfforaethol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw'r ddogfen bolisi unigol bwysicaf ar gyfer pob Parc Cenedlaethol.

Fe'i defnyddir fel sail ar gyfer pennu Cynllun Corfforaethol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys ein hamcanion llesiant a'n ffyrdd o weithio i wireddu'r Weledigaeth.

Mae'n dylanwadu ein Rhaglen Waith Gorfforaethol gyda chamau gweithredu manwl o'r hyn y bydd pob gwasanaeth yn ei wneud i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Drwy hyn, caiff ein dangosyddion Rheoli Perfformiad unigol eu pennu hefyd.

**Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2016 – 2021**

Fel y brif iaith mewn llawer o amgylcheddau cymdeithasol a phroffesiynol yn y Parc, mae'r Gymraeg wedi'i phennu fel un o nodweddion arbennig iawn Parc Cenedlaethol Eryri ac mae gan yr awdurdod ddyletswydd i'w diogelu yn ogystal â'i hyrwyddo drwy bob agwedd ar ei waith. Fel nodwedd arbennig mae wedi'i chynnwys yng Nghynllun Rheolaeth Parc Cenedlaethol Eryri i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn rhan fywiog o'n bywyd bob dydd.

Mae'r Strategaeth hon yn adnabod meysydd blaenoriaeth er mwyn i'r Awdurdod gael targedu ei waith, sy'n seiliedig o gwmpas y meysydd blaenoriaeth hynny a adnabuwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Iaith. Mae'r Strategaeth hon hefyd yn egluro sut y bydd yr Awdurdod yn ymgymryd â'r dasg enfawr o geisio cyrraedd ein targed heriol, sef:

'Sicrhau fod cynnydd o 2% o boblogaeth Parc Cenedlaethol Eryri yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2021'.

**Mae'r wybodaeth hon ar gael yn fan hyn:** https://www.snowdonia.gov.wales/authority/publications/welsh-language

**Cymru fwy Cyfartal: Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol 2021**

Er na ddaw'r ddyletswydd hon i rym yn swyddogol tan 31 Mawrth 2021, profwyd Cynllun Eryri i ystyried sut y gall y penderfyniadau strategol oddi mewn, helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

At hynny, mae'r broses ar gyfer cynhyrchu Cynllun Eryri wedi dilyn egwyddorion allweddol a nod cyffredinol y ddyletswydd hon, sef:

- Yn ystyried tystiolaeth ac effaith bosibl
- Drwy ymgynghori ac ymgysylltu, yn deall barn ac anghenion y rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt, yn enwedig y rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol
- Yn croesawu her a chraffu

Yn sbarduno newid yn y ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud a'r ffordd y mae llunwyr penderfyniadau yn gweithredu.

# LLYFRYDDIAETH


Tudalen 20: www.iucn.org/theme/protected-areas/about/protected-areas-categories/category-v-protected-landscapeseascape

Tudalen 26: Snowdonia the National Park of North Wales (1949) North, F.J., Campbell, Bruce & Scott, Richenda (Collins New Naturalist series no. 13).

Tudalen 47: Prifardd Myrddin ap Dafydd, gwybodaeth dros e-bost 19 Chwefror 2019.

Tudalen 53: John Muir 1838-1914: www.goodreads.com/author/quotes/5297.John_Muir [Mynediad 18 Rhagfyr 2019]

Emily Gosling – Creative Review 2018: www.creativereview.co.uk/visual-trends-switching-off/ [Mynediad 18 Rhagfyr 2019]

Tudalen 56: Adobe Visual Trends Programme (2018) www.selling-stock.com/Article/adobe-trends---silence-and-solitude [Mynediad 18 Rhagfyr 2019]

Tudalen 65: Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd wefan: www.heneb.co.uk/hlc/hlc.html [Mynediad 18 Rhagfyr 2019]

Tudalen 72: Cyfoeth Naturiol Cymru: National Landscape Character: Eryri - Disgrifiad cryno www.naturalresourceswales.gov.uk/media/682557/nlca06-snowdonia-description.pdf [Mynediad18 Rhagfyr 2019]

Tudalen 78: Cyfoeth Naturiol Cymru: National Landscape Character: Eryri - Disgrifiad cryno www.naturalresourceswales.gov.uk/media/682557/nlca06-snowdonia-description.pdf [Mynediad 18 Rhagfyr 2019]

Plantlife wefan: www.plantlife.org.uk/uk/nature-reserves-important-plant-areas/important-plant-areas [Mynediad 18 Rhagfyr 2019]

Tudalen 92: Cyfoeth Naturiol Cymru (2017). LANDMAP [ar-lein]. Ar gael yn: https://naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/wales-environmental-information/?lang=cy [Mynediad 1 Hydref 2019].

Comisiwn Coedwigaeth (2012). Deallt y cydbwysedd carbon a nwyon tŷ gwydr coedwigoedd ym Mhrydain. Comisiwn Coedwigaeth.

Cyfoeth Naturiol Cymru (2017). Mapiau o safleoedd arbennig ac ardaloedd gwarchodedig. CNC [ar-lein]. Ar gael https://naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/map-of-special-sites-and-protectedareas-of-land-and-seas/?lang=en [Mynediad 1 Hydref 2019]

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2017). Adroddiad Strategaeth Mawn. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2008). Strategaeth Rhododendron. [ar-lein] Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Ar gael: https://www.snowdonia.gov.wales/__data/assets/pdf_file/0031/164785/Rhododendron-Strategy-Final.pdf [Mynediad 1 Hydref 2017].

Tudalen 120:

**Iechyd**

Swyddfa Ystadegau Gwladol(2013). Cyfrifiad Prydain 2011. ONS [ar-lein]. Ar gael www.ons.gov.uk/census/2011census/2011ukcensuses [Mynediad 1 Medi 2019] .

Gwynedd & Conwy Councils (2017). Asesiadau lles. [ar-lein]. Ar gael: www.conwyanddenbighshirelsb.org.uk/cy/home/3046-2/ a www.llesiantgwyneddamon.org/en/Asesiad-Llesiant/Gwynedd/ [Mynediad 1 Chwefror 2019]

Defra (2017). Y tu hwnt i ofodau gwyrdd. [ar-lein]. Ar gael: https://beyondgreenspace.files.wordpress.com/2017/03/evidence-statement-on-the-links-between-natural-environments-and-human-health1.pdf [Mynediad 1 Feb. 2019].

ARUP (2013). Rhoi gwerth i Barciau Cenedlaethol Cymru. [ar-lein]. Ar gael: https://www.arup.com/news-and-events/report-reveals-value-of-national-parks [Mynediad 1 Hydref 2018].

**Twristiaeth a chyfleusterau**

Pye.H a Wynne-Jones, B (2016). Arolwg Ymwelwyr Yr Wyddfa 2015. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Beaufort Research (2016). Adroddiad Ymchwil Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Tudalen 140: Welsh language, population and employment statistics

Swyddfa Ystadegau Gwladol (2013). Cyfrifiad y DU 2011. ONS [ar-lein]. Ar gael www.ons.gov.uk/census/2011census/2011ukcensuses [Mynediad 1 Sep. 2019]

**Cyflogaeth**

Stats Wales (2019). Cyflogaeth preifat a cyhoeddus. Llywodraeth Cymru [ar-lein]. Ar gael https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market [Mynediad Sept. 2019].

**Incwm**

CACI (2017). Data incwm. CACI.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Mon (2017). Asesiad Llesiant Gwynedd 2017. Cyngor Gwynedd.

**Ymgysylltedd Band-eang:**

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Mon (2017). Asesiad Llesiant Gwynedd 2017. Cyngor Gwynedd.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych (2017) Asesiad o les lleol. Cyngor Conwy.

# LLUNIAU

| Tudalen | Teitl | Hawlfraint |
|---|---|---|
| 2 | Llyn y Dywarchen | Jan Davies photography |
| 9 | Tryfan | Jan Davies photography |
| 16 | Dolgellau | Jan Davies photography |
| 18 | Melin Lechi Ynysypandy | Jan Davies photography |
| 22 | Nant Ffrancon | Jan Davies photography |
| 28 | Nant Gwynant | Jan Davies photography |
| 30 | Cymru, Y Deyrnas Unedig | Simon Migaj - unsplash.com |
| 31 | Defaid Cymru | Jose Llamas - unsplash.com |
| 33 | Corlannau defaid a waliau cerrig traddodiadol | Jan Davies photography |
| 34 | Person lleol | Shaw - unsplash.com |
| 37 | Ffermwyr yr ucheldir | Jan Davies photography |
| 40 | Cennin Pedr cynhenid | Jan Davies photography |
| 42 | Eglwys Sant Celynin, Henryd | Jan Davies photography |
| 43 | Darlun 'Salem' painting | Jan Davies photography |
| 46 | Llythyr Pennal, 1406 | Jan Davies photography |
| 49 | Llyn Nantlle | Lisa Eurgain Taylor |
| 52 | Eglwys St Tanwg, Llandanwg | Courtney Hobbs - unsplash.com |
| 54 | Golygfa'r traeth, Cymru | Ian Cylkowski - unsplash.com |
| 55 | Golau Sidyddol, Rhinogydd | Keith O'Brien |
| 56 | Cymru, Y Deyrnas Unedig | Jose Llamas - unsplash.com |
| 60 | Dinas-Mawddwy | William Hook - unsplash.com |
| 61 | Yr Wyddfa, Golwg ar Glaslyn | khamkhor - unsplash.com |
| 63 | Llwyngwril | Jan Davies photography |
| 64 | Bwlch Llanberis Pass | Jan Davies photography |
| 67 | Llyn Padarn | Neil Thomas - unsplash.com |
| 70 | Dyffryn Ogwen | Mitchell Orr - unsplash.com |
| 72 | Golygfa o Crib Goch | v20sk - unsplash.com |
| 74 | Llyn Ogwen | Mitchell Orr - unsplash.com |
| 76 | Lili'r Wyddfa | Jan Davies photography |
| 79 | Coedwig Conwydd | Matthew Daniels - unsplash.com |
| 80 | Rhostir Mynydd | Jan Davies photography |
| 84 | Dyffryn a Llynnau Mymbyr | Jan Davies photography |
| 91 | Tŷ Cipar, Migneint | Jan Davies photography |
| 105 | Cwm Mynach | Jan Davies photography |
| 129 | Crawiau | Jan Davies photography |
| 154 | Bryn Cader Faner | Jan Davies photography |

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

eryri.llyw.cymru